# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYSAG**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MERCHER, 12FED MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon**

Pwynt Cyswllt

**Rhonwen Jones**

**01286 679780**

**RhonwenJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2019)

# CYSAG

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

Paul John Rowlinson
Judith Mary Humphreys
Elin Walker Jones
Menna Baines

## Annibynnol (3)

Y Cynghorwyr

Richard Medwyn Hughes
Mike Stevens
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor – Y Cynghorwyr Simon Glyn a Edgar Wyn Owen

### Cristnogion a Chrefyddau Eraill

| | |
|---|---|
| Disgwyl Enwebiad | Yr Eglwys Fethodistaidd |
| Awaiting Nomination | Yr Annibynnwyr |
| Dr W Gwyn Lewis | Eglwys Bresbyteraidd Cymru |
| Eirian Bradley Roberts | Yr Eglwys Gatholig |
| Anest Gray Frazer | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Vacant Seat Union of Welsh Baptists | |

### Athrawon

| | |
|---|---|
| Alwen Watkin | ASCL |
| Miriam A. Amlyn | NAS/UWT |
| Cathryn Davey | UCAC |
| Heledd Jones | NUT |
| Disgwyl Enwebiad | ATL |

### Aelodau Cyfetholedig

Parchedig Aled Davies

# R H A G L E N

**1. <u>GWEDDI</u>**

Adfyfyrio tawel neu weddi.

**2. <u>ETHOL CADEIRYDD</u>**

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20.

**3. <u>ETHOL IS-GADEIRYDD</u>**

I ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20.

**4. <u>CROESO A CHYFLWYNIADAU</u>**

**5. <u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**6. <u>DATGAN BUDDIANT PERSONOL</u>**

**7. <u>COFNODION</u>** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 7fed Dachwedd 2018 fel rhai cywir.

**8. <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>** 10 - 11

- Cynnig Prifysgol Bangor 'Re-connect'.
- Ymateb llythyr gan Kirsty Williams.

**9. <u>ADRODDIAD NEWID CYFANSODDIAD I'R CABINET AR Y 02/04/19</u>** 12 - 17

**10. CYFLWYNIAD AR Y CWRICWLWM I GYMRU 2022** 18 - 105

Gyda sylw penodol i Ddyniaethau ag Addysg Grefyddol yn benodol.

Cyflwynir gan:

- Nia Clwyd Jones, Ysgol Bodedern.
- Helen Bebb, Swyddog Proffesiynol dros dro.

**11. YMATEBION AR GYFER YR YMGYNHORIAD I'R CWRICWLWM I GYMRU 2022** 106 - 115

**12. TROSOLWG O'R HUNAN ARFARNIADAU - TYMOR Y GWANWYN 2019** 116 - 130

**13. TROSOLWG O'R HUNAN ARFARNIADAU - TYMOR YR HAF 2019** 131 - 144

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2017-18 DRAFFT** 145 - 170

I ystyried adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2017/18 cyn cyhoeddi copi terfynol.

**15. TYNNU SYLW I FATERION ER GWYBODAETH** 171 - 185

- Holiadur mynychu sesiwn addoli – Llanllechid.
- Cofnodion CYSAGau Cymru 26/03/19.
- Ymateb Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol i Arolwg thematig ESTYN.
- Cylchlythyr Dyniaethau – diolch i'r aelodau aeth i'r gweithdai.

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 07/11/18

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Is-gadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Menna Baines, Judith Humphreys, Dewi Wyn Roberts, Mike Stevens

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Tracy Ann Richards Jones (Esgobaeth Bangor), Elisabeth M Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Athrawon:** Cathryn Davey (Ysgol Llanystumdwy), Miriam Amlyn (NASUWT)

**Swyddogion:** Mai Bere (Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol) ac Einir Rh Davies (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. R. Medwyn Hughes, Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru), Alwen Watkin a Heledd Jones (Undebau Athrawon)

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Paul Rowlinson.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd:** Ethol y Cynghorydd Paul Rowlinson yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd:** Ethol y Cynghorydd Elin Walker Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

**4. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**5. DATGANIAD BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys

**7. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2017 a 20 Mehefin 2018 fel rhai cywir.

## 8. CYNHADLEDD MAES LLAFUR CYTÛN

Adroddodd Miriam Amlyn ar ei siom bod y deunydd yn dal ddim ar gael yn y Gymraeg er ei fod ar gael yn y Saesneg. Nodwyd ei fod yn broblem mewn pynciau eraill hefyd. Cadarnhawyd bod llythyr eisoes wedi ei ysgrifennu at Kirsty Williams yn nodi y pryder uchod.

Amlygwyd pryder ymysg yr Aelodau unwaith eto fod y deunydd yn uniaith Saesneg. Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd ystyried ysgrifennu llythyr clir a chryf eto, at sylw Yr Aelod Cabinet, Kirsty Williams, Y Comisiynydd Iaith, Siân Gwenllian, Garem Jackson, gyda chopi i Dyfrig Siencyn, Eluned Morgan a Dilwyn Williams.

Nodwyd y bydd newidiadau pellach o bosib yn 2020 ac yn wyneb hynny y dylid ystyried cadw at y Fframwaith enghreifftiol ar hyn o bryd.

**Argymhellwyd: Gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at yr uchod i gyfleu pryder CYSAG am y diffyg mewn deunyddiau Cymraeg, gan gadw at y Fframwaith bresennol ar hyn o bryd.**

## 9. CYFANSODDIAD CYSAG

(a) Derbyniwyd cais gan y Dyneiddwyr i wasanaethu fel aelodau gyda phleidlais ar CYSAG Gwynedd.

(b) Esboniodd yr Uwch Gyfreithiwr bod cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i greu CYSAGau ac mai cyfrifoldeb Cabinet yr Awdurdodau ydoedd y cyfansoddiad, ond wrth gwrs, gall y CYSAG gyfethol Aelodau. Cyfeiriwyd at lythyr dyddiedig 3 Mai 2018 gan Kirsty Williams oedd yn nodi mai barn Llywodraeth Cymru erbyn hyn oedd

"er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Hawliau Dynol 1998, dylid dehongli bod y darpariaethau yn ymwneud â chyfansoddiad CYSAG a CMLIC yn Neddf 1996 yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau anghrefyddol yn yr un modd ag y maent yn caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli'r rhai â chredoau crefyddol …" Aiff ymlaen i nodi "mae penodiad yn dibynnu ar farn yr Awdurdod Lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr Awdurdod Lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn Grŵp A."

(c) Nodwyd nad oedd adolygiad o'r aelodaeth / cyfansoddiad wedi digwydd ers 1996. Cwestiynwyd a yw traddodiadau perthnasol yn yr ardal yn cael eu hadlewyrchu yn briodol yn Grŵp A, a beth yw'r farn am gais y Dyneiddwyr i fod yn rhan o Grŵp A.

(ch) Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod yr uchod:

i. Beth sydd yn digwydd mewn Awdurdodau eraill?
ii. Yr arweiniad yn y cwrs TGAU yw bod modd gwahodd Dyneiddwyr i ysgolion i siarad
iii. Onid sustem gred yn hytrach na chrefydd yw Dyneiddiaeth?
iv. Onid croesawu cymaint o amrywiaeth â phosib yn Grŵp A y dylem, o gofio'r sefyllfa ddiweddar o ddiffyg cworwm yn y cyfarfod blaenorol?

Cyfeiriwyd at y sylwadau canlynol hefyd –

- Byddai'r Pwyllgor yn manteisio o glywed lleisiau gwahanol grefyddau yn eu trafodaethau sydd yn greiddiol i gwricwlwm y maes dysgu
- Byddai yn hybu cyswllt rhwng Penaethiaid, Athrawon a Disgyblion o wahanol gredoau yn uniongyrchol wyneb yn wyneb
- Byddai yn gyfle i greu pontydd a hybu cymdeithas fwy goddefgar o gredoau amrywiol
- Cadarnhawyd fod Dyneiddiaeth yn cael ei gyflwyno yn rhai o ysgolion Gwynedd

Cadarnhawyd bod Cymdeithas CYSAGau Cymru wedi penodi Dyneiddwraig ar eu Pwyllgor Gwaith ac oni ddylai CYSAG adlewyrchu yr hyn sydd yn cael ei addysgu?
Rhaid bod yn ofalus rhag gosod blaenoriaeth i rai credoau ac mae angen rheoli ceisiadau o'r fath yn ofalus.
A oes meini prawf?
Mae cyfle yma i ddysgu a rhannu arbenigedd

**Argymhellwyd: Y byddai Pwyllgor CYSAG yn ffafriol i geisiadau ar sail tystiolaeth, gyda amod fod credoau anghrefyddol yn cael eu dysgu yn Ysgolion Gwynedd. Gan gyfeirio at y cais penodol, cadarnhawyd o blaid cynnwys y Dyneiddwyr i Grŵp A.**

Adroddwyd bod trafodaeth wedi codi yn y cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r posibilrwydd o wahodd disgybl/disgyblion ysgol i fod yn rhan o'r aelodaeth bresennol er mwyn clywed llais y disgybl. Trafodwyd yr egwyddor er mwyn bod yn gynhwysol ond nodwyd bod materion ymarferol oedd yn golygu na fyddai hyn yn bosib, megis cyd-deithio i gyfarfodydd. Amlygodd rhai eu pryder nad oeddynt yn siŵr o'r pwrpas gan fod llais unrhyw ddisgybl yn glir yn yr ysgol a chwestiynwyd ym mha gyd-destun fyddai disgybl yn rhan o benderfyniad?

**Argymhellwyd: I dynnu y cynnig yn ei ôl.**

## 10. HUNAN ARFARNIAD YSGOLION GWYNEDD

Croesawyd Mr Rhys Glyn (Pennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Penrhyndeudraeth) i'r cyfarfod i drafod y berthynas mae wedi ei datblygu rhwng y cwricwlwm, addysg bersonol ac addysg grefyddol.

Rhannodd enghreifftiau o waith y disgyblion a chadarnhaodd nad yw Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu fel pwnc, ond mae'r ysgol yn datblygu plant yn holistaidd, gydag Addysg Grefyddol yn treiddio yn naturiol.

Derbyniwyd sylwadau positif iawn gan y Pwyllgor a llongyfarchwyd Rhys Glyn ar y gwaith. Nodwyd bod llawer o faich gwaith i wneud pob dim ar wahân a bod profiadau aml-synhwyrol gyda phlant yn arwain y gwaith. Nododd bod rôl y llywodraethwyr wedi ei ddatblygu gyda'r llywodraethwyr yn cymryd rhan ym mhob agwedd gan gynnwys craffu'r gwaith unwaith mae portffolio wedi ei gasglu.

Nodwyd, ers Donaldson bod angen datblygu ym mhob maes, ond bod croeso i'r elfen greadigol a llais y plant a phwyslais ar brofiadau.

## 11. TROSOLWG O HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION GWYNEDD

**Argymhellwyd:** **Nodi a derbyn cynnwys yr Adroddiad.**

**12. SWYDDOG PROFFESIYNOL AG I CYSAG**

Nodwyd cynnwys llythyr Libby Jones yn gofyn am gynrychiolydd o Wynedd. Gofynnwyd i Miriam Amlyn ystyried.

**Argymhellwyd:** **Rhoi cyfle i Miriam Amlyn ystyried y cais.**

**13. GWEITHDAI'R CYNULLIAD I YSTYRIED ADDYSG GREFYDDOL A'R CWRICWLWM NEWYDD AR GYFER CYMRU**

Cadarnhawyd bod y Cynradd, ar y cyfan yn edrych ymlaen at y cyfnod newydd, ond nodwyr pryder mawr o'r uwchradd.

Amlinellwyd yr argymhelliad newydd fel cyfuno Addysg Grefyddol, Hanes, Daearyddiaeth a Busnes i'r maes dyniaethau, gydag un wers i bob pwnc ond nid oedd yn eglur ar hyn o bryd faint o oriau fyddai hyn yn ei olygu. Cwestiynwyd yn syth sut fyddai CYSAG yn monitro'r dyniaethau?

Os oes bwriad newid erbyn 2020, nodwyd bod llawer iawn o waith paratoi - mae'r ddogfen bresennol yn eang ond yn sôn am gysyniadau a sgiliau sydd yn gofyn am gydweithio rhwng adrannau. Ar hyn o bryd, nodwyd nad yw yn glir a fydd y cwrs yn plethu neu a fydd y pynciau yn cael eu trin fel pum pwnc ar wahân? Pryder arall a nodwyd oedd y byddai unigolyn heb arbenigedd yn y pwnc penodol yn rhoi un o'r gwersi o bosib. Holwyd a fydd statws cyfartal i'r pum pwnc, yn enwedig os oes Pennaeth sydd ddim yn gweld gwerth mewn pwnc arbennig? Cwestiynwyd hefyd yr oriau fyddai yn cael eu neilltuo ar gyfer pob pwnc.

Cwestiynwyd beth fyddai modd i CYSAG ei wneud gan fod y broses yn mynd rhagddi? Libby Jones yw'r unig ymgynghorydd Addysg Grefyddol yng Nghymru.

**Argymhellwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

**14. CYNNIG PRIFYSGOL BANGOR – 'RE-CONNECT'**

Codwyd pryder yn sgil adroddiad diweddar ynglŷn â phrinder athrawon a'r mater o ddysgu dwyieithog yng Ngwynedd. Nodwyd gwir bryder am yr uno rhwng Prifysgolion Bangor a Chaer. Awgrymwyd efallai y byddai modd i'r Cadeirydd lythyru gyda'r Brifysgol i holi am y canlynol :

i. Onid oes linc ar goll - mae gwir bryder wedi ei nodi gan CYSAG ynglŷn â'r diffyg ym maes Addysg Grefyddol, a'r cysylltiad gyda Phrifysgol Caer, ac yn ychwanegol y toriad rhwng TGAU a chwrs gradd. Angen nodi hefyd bod llythyr uniaith Saesneg wedi ei dderbyn gan y Brifysgol.

Cwestiynwyd a yw lefel A yn cael ei gynnig mewn Addysg Grefyddol yng Ngwynedd? Ydy'r Coleg yn cynnig Addysg Grefyddol? Beth am Goleg Meirion/Dwyfor?

**Argymhellwyd:** **Gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Brifysgol yn unol â'r uchod. Gofyn i'r Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol edrych i mewn i'r ddarpariaeth Lefel A Addysg Grefyddol yng Ngwynedd.**

**15. COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYSAGAU CYMRU - YNYS MÔN 6/7/28 - ER GWYBODAETH**

**Argymhellwyd: Derbyn a nodi'r cynnwys.**

**16. AMRYWIAETH CREFYDD A CHRED – ER GWYBODAETH**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gopi o'r ddogfen uchod a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**Argymhellwyd: Derbyn a nodi'r cynnwys.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 4.10 pm

Eitem 8

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref 2018 11 27 Llyth Gweinidog Add
Ein cyf/Our ref KW/02658/18

Garem Jackson
Pennaeth Addysg
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Cyng. Paul Rowlinson
Cadeirydd
CYSAG Gwynedd

omaibere@gwynedd.llyw.cymru

12 Rhagfyr 2018

Annwyl Garem Jackson, Cyng. Paul Rowlinson

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynglŷn â'ch pryderon am ddiffyg deunyddiau adolygu yn y Gymraeg ar gyfer y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.

Fel y gwyddoch eisoes cyhoeddwyr yn Lloegr sydd yn cyhoeddi gwerslyfrau yn Saesneg i gefnogi cymwysterau CBAC fel menter fasnachol. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu grant i CBAC er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi. Nid oes gan Lywodraeth Cymru na CBAC unrhyw ddylanwad dros ddyddiad cyhoeddi'r adnoddau hyn nac ychwaith pa adnodd sy'n mynd i fod ar gael gan mai mater i'r cyhoeddwyr yw'r penderfyniad i fentro creu adnodd ai peidio. Fodd bynnag mae fy swyddogion a swyddogion CBAC yn gweithio'n agos gyda'r cyhoeddwyr sydd wedi mentro er mwyn sicrhau bod y deunydd ar gael mor fuan â phosib ac wedi rhoi nifer o brosesau newydd mewn lle i gyflymu'r amserlen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y llyfr adolygu ‘CBAC TGAU Astudiaethau Crefyddol Uned 2 Crefydd a Themâu Moeseg’ ar gael mewn print ym mis Chwefror, tri mis wedi’r llyfr Saesneg gael ei gyhoeddi. Unwaith bydd y llyfrau ar gael bydd copïau yn cael eu dosbarthu yn rhad ac am ddim i’r ysgolion ar gyfer y cyfnod adolygu.   Mae cyhoeddwyr hefyd wedi cytuno i ryddhau ffeiliau digidol diweddaraf o’r llyfrau ar wefan ddiogel CBAC i helpu addysgu’r pwnc. Mae’r ffeiliau digidol hyn eisoes ar gael i’r athrawon ers dechrau mis Tachwedd. Yn ogystal mae CBAC wedi datblygu adnoddau digidol am ddim ar ei wefan: http://resources.wjec.co.uk/Pages/ResourceByArgs.aspx?subId=26&lvlId=2

Rwyf wedi ymrwymo i wella’r ddarpariaeth o adnoddau perthnasol ac amserol yn y Gymraeg a’r Saesneg ar gyfer ein dysgwyr. Mae grŵp o randdeiliaid allweddol yn edrych ar ffyrdd o sicrhau hyn gan ddwyn ynghyd prif ddarparwyr yn y maes ynghyd â chonsortia addysg rhanbarthol. Fy mwriad yw sicrhau bod is adeiledd yn bodoli yng Nghymru i ddarparu adnoddau yn y ddwy iaith ar gyfer y cwricwlwm a chymwysterau yn y dyfodol. Bydd y grŵp yn gwneud argymhellion ar y ffordd ymlaen yn ystod Gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **2 Ebrill 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem P Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679089 est 32089** |
| **Teitl yr Eitem:** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD PWYLLGOR CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

(i) A**rgymhelliad Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai newid aelodaeth Grŵp A fel a nodir :**

- **Grŵp A – Cristnogaeth – cadw yn 6**
  **Cynnig gwahodd un cynrychiolydd o'r credoau**
  **Bwdaeth, Islam, Hindwaeth, Iddewiaeth, Siciaeth a'r Dyneiddwyr**
- **Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid - cadw yn 5**
- **Grŵp C - Aelodau Etholedig - cadw yn 7**
- **Cyfetholedig - Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau**
- **(3 pleidlais sydd sef 1 i bob Grŵp, nid oes pleidlais gan yr aelodau Cyfetholedig)**

**(ii) Argymhelliad yr Addran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd fyddai caniatáu cais y Dyneiddwyr i fod yn rhan o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd**

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 1996.

2.2. Mae llythyr y Gweinidog Addysg 03/05/18 yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad].**

2.3. Cais Dyneiddwyr Bangor i ymuno fel aelod/au o Grŵp A ar bwyllgor CYSAG Gwynedd.

2.4 Wrth ystyried cais Dyneiddwyr i ymuno fel aelod o Grŵp A, mae'n amserol i roi ystyriaeth i gredoau eraill er mwyn rhoi sylw i amrywiath credoau Gwynedd ar bwyllgor CYSAG.

2.5 Mae angen i'r CYSAG fod yn gynhwysol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o draddodiadau crefyddol nag sydd gennym ar hyn o bryd a'r manteision o gael yr amrywiaeth

ehangach hon wrth ddatblygu cwricwlwm addysg grefyddol sy'n paratoi ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

## 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

**Cefndir**
Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu cyngor sefydlog i'w gynghori ar addysg grefyddol.

**Swyddogaethau CYSAG**

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ynghylch addoli mewn ysgolion a'r addysg grefyddol a roddir yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;

- Ystyried a ddylid argymell i'r Awdurdod Lleol y dylai ei faes llafur cytûn presennol gael ei adolygu drwy alw Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ['CMLlC'];

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion i ddod i benderfyniad (i gael eu heithrio o'r gofyniad i addoli crefyddol fod yn "Gristnogol");

- Adrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau'n flynyddol.

**Aelodaeth CYSAG**
Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai CYSAG gynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- Grŵp o bersonau i gynrychioli'r enwadau Cristnogol a'r crefyddau eraill hynny sydd, ym marn yr awdurdod, yn cynrychioli prif draddodiadau crefyddol yr ardal ('grŵp A')

- Grŵp o bersonau i i gynrychioli'r cymdeithasau athrawon hynny y cred yr awdurdod a ddylai gael eu cynrychioli, o ystyried amgylchiadau'r ardal

- Grŵp o bersonau i gynrychioli'r awdurdod

Dim ond y grwpiau cynrychioladol uchod sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais.

Gall y CYSAG ei hun hefyd gyfethol aelodau (ond ni fydd ganddynt bleidlais)

**Cylchlythyr 10/94**
Yn ogystal â'r ddarpariaeth statudol, yn 1994 cyhoeddodd yr hen Swyddfa Gymreig arweiniad ar Addysg Grefyddol a Chydaddoli ar ffurf Cylchlythyr 10/94, sy'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â gweithrediad CYSAG.

**CYSAG Cyngor Gwynedd**
Penderfynwyd ar aelodaeth y CYSAG gan Bwyllgor Addysg Cyngor Gwynedd yn 1996 ac mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill (Grŵp A)**
Yr Eglwys Fethodistaidd (1) - disgwyl enwebiad
Yr Annibynwyr (1) – disgwyl enwebiad
Eglwys Bresbyteraidd Cymru (1)
Undeb Bedyddwyr Cymru (1)

Yr Eglwys Gatholig (1)
Yr Eglwys yng Nghymru (1)

**Athrawon yn cynrychioli'r Undebau canlynol**
ASCL (1)
NAS/UWT (1)
UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1) – disgwyl enwebiad

**Aelodaeth Aelodau Etholedig (7)**
(Ar sail cydbwysedd gwleidyddol)
Plaid Cymru (4)
Annibynnol (3)
(Aelodau ex-officio Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor)
Nid yw cyfansoddiad y CYSAG wedi ei adolygu ers hynny.

**Datblygiadau Diweddar**
Mae Dyneiddwyr wedi bod yn awyddus i gael eu cynrychioli ar CYSAGau fel aelodau o Grŵp A. Tra bod nifer yn eu cynnwys fel aelodau cyfetholedig, yr arfer cyffredinol yw peidio â'u caniatáu i fod yn aelodau llawn. Mae hyn ar sail arweiniad yr hyn sydd yn y ddeddfwriaeth a'r dehongliad ac arweiniad a roddir yng Nghylchlythyr 10/94, lle mae paragraff 103 yn darparu:

"*Byddai cynnwys cynrychiolwyr systemau cred megis hiwmanistiaeth, nad ydynt yn gyfystyr â chrefydd neu enwad crefyddol, ar ...grŵp A CYSAG, yn groes i'r darpariaethau cyfreithiol y cyfeirir atynt ym mharagraff 102 o'r cylchlythyr".*

Mae'r mater wedi bod yn destun cryn drafod ar lefel genedlaethol gan gynnwys her gyfreithiol gan Humanists UK yn erbyn Cyngor Bro Morgannwg ar y sail bod gwrthodiad i gynnwys dyneiddiwr fel aelod llawn yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Fel canlyniad, ysgrifennodd Cymdeithas CYSAGau Cymru at Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru, yn gynharach eleni yn gofyn am gyngor ac arweiniad clir yn wyneb y gwrthdaro yma rhwng dwy gyfundrefn gyfreithiol.

Mewn ymateb, ysgrifennodd at Gyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Lleol ar 3 Mai 2018, yn cadarnhau barn Llywodraeth Cymru, y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad]**

*Mewn perthynas â chredoau anghrefyddol mae'n datgan "...fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan yr unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol â chred grefyddol, megis dyneiddiaeth. Er mwyn bod yn "gydweddol", ystyriwn fod yn rhaid i'r credoau anghrefyddol, yn unol â'r gyfraith achosion o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, gyrraedd y lefel angenrheidiol o ran grym, difrifoldeb, cydlyniant a phwysigrwydd i sicrhau diogelwch o dan Hawliau'r Confensiwn.*

Derbyniwyd cais gan Ddyneiddwyr Bangor i benodi dyneiddiwr fel aelod llawn o'r CYSAG. Mae arweiniad diweddar Llywodraeth Cymru yn golygu y gall yr awdurdod ystyried y cais **[Atodiad]**

Nid oes adolygiad o aelodaeth CYSAG wedi bod ers 1996, byddai hefyd yn briodol ac amserol felly i ystyried cyfansoddiad y CYSAG yn ei gyfanrwydd.

**Ystyriaethau**
Bydd nifer y cynrychiolwyr a benodir i Grŵp A i gynrychioli pob enwad neu grefydd sydd angen eu cynrychioli, yn adlewyrchu'n fras gryfder cyfrannol yr enwad neu'r grefydd yn yr ardal leol. Mae llythyr 3 Mai 2018 yn egluro:

- *mae penodiad yn dibynnu ar farn yr awdurdod lleol perthnasol ynglŷn ag a fyddai cynrychiolydd o'r fath yn helpu i sicrhau bod y traddodiadau perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yng Ngrŵp A. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar benodiadau, gan ei fod yn y sefyllfa orau i asesu a oes gan CYSAG yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaeth yn briodol."*

**Tystiolaeth**
Penderfynwyd ar gyfansoddiad y CYSAG yn 1996 ar sail y wybodaeth ganlynol

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Gatholig Rufeinig | 11.1% |
| Yr Eglwys yng Nghymru | 18.4% |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | 43.3% |
| Yr Eglwys Fethodistaidd | 5.6% |
| Undeb yr Annibynwyr | 16.3% |
| Undeb y Bedyddwyr | 4.3% |
| Enwadau Eraill | 1% |

Y ffigyrau diweddaraf sydd gennym yw'r rhai o Gyfrifiad Gwynedd 2011, a cheir crynodeb ohonynt isod. Nid oes categori penodol ar gyfer y Dyneiddwyr yn y sensws isod gallant fod o dan y categorïau *Crefydd arall, Dim crefydd neu Heb nodi crefydd.*

| | **SIROL** | **ARFON** | **DWYFOR** | **MEIRION** |
|---|---|---|---|---|
| Cristnogaeth | 59.5% | 55.6% | 64.6% | 62.3% |
| Bwdhaeth | 0.3% | 0.4% | 0.3% | 0.3% |
| Hindŵaeth | 0.2% | 0.3% | 0.1% | 0.1% |
| Iddewiaeth | 0.0% | 0.1% | 0.0% | 0.0% |
| Islam | 1.1% | 1.9% | 0.4% | 0.3% |
| Siciaeth | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Crefydd arall | 0.5% | 0.5% | 0.4% | 0.6% |
| Dim crefydd | 29.7% | 32.5% | 25.8% | 27.8% |
| Heb nodi crefydd | 8.6% | 8.6% | 8.4% | 8.6% |

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cyflwyno'r penderfyniad i'r Pwyllgor CYSAG.
4.2 Gweithredu ar y newid i'r Cyfansoddiad yn unol a phenderfyniad y Cabinet.

## 5. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 **Barn Adran Addysg Gwynedd ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (gydag arbenigedd Addysg Grefyddol):**

- Mae'r Adran Addysg yn awyddus i sicrhau bod yr addysg grefyddol a gyflwynir yn ein hysgolion yn adlewyrchu natur y gymdeithas leol a safbwyntiau trigolion Gwynedd. Mae angen adlewyrchu'r gymuned grefyddol amrywiol sydd yng Ngwynedd.

- Byddai'r pwyllgor yn manteisio o glywed lleisiau gwahanol grefyddau yn eu trafodaethau sydd yn greiddiol i gwricwlwm Maes Dysgu Addysg Grefyddol.

- Byddai'n hybu cyswllt rhwng Penaethiaid, Athrawon a Disgyblion â gwahanol gredoau yn uniongyrchol wyneb yn wyneb yn hytrach nag o lyfrau yn unig.

- Byddai'n gyfle i greu pontydd a hybu cymdeithas fwy goddefgar o gredoau amrywiol.

- Mae'r maes llafur cytûn presennol (sy'n seiliedig ar y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol) yn cyfeirio at yr angen i roi cyfleoedd i'r disgyblion i "dynnu ar eu profiadau eu hunain ac ar amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol eraill, gan gynnwys disgyblaethau eraill, er mwyn casglu tystiolaeth a datblygu dadleuon priodol" (CA3).
- Mae'r fanyleb bresennol ar gyfer Astudiaethau Crefyddol TGAU yn cyfeirio at yr angen i gyflwyno safbwyntiau anghrefyddol i'r disgyblion. Bydd cael mewnbwn gan Ddyneiddwyr lleol yn sicrhau bod safbwyntiau'r Dyneiddwyr yn cael eu cynrychioli'n gywir yn y gwersi.

5.2 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd a'r wahodd crefyddau eraill -** Byddai'n gyfle i CYSAG Gwynedd fod yn fwy cynhwysol gan gynnwys amrywiaeth ehangach o draddodiadau crefyddol nag sydd gennym ar hyn o bryd a'r manteision o gael yr amrywiaeth ehangach hon wrth ddatblygu cwricwlwm addysg grefyddol sy'n paratoi ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.

5.3 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd a'r wahodd credoau sy'n gydweddol â chred grefyddol** - *fod yn rhaid i gredoau anghrefyddol a goleddir gan unigolyn i'w benodi fod yn gydweddol a chred grefyddol megis dyneiddiaeth* (yn unol â barn Llywodraeth Cymru), gyda amod fod y credoau anghrefyddol rheini yn cael eu dysgu yn Ysgolion Gwynedd. Cadarnhawyd fod Dyneiddiaeth yn cael ei gyflwyno yn rhai o ysgolion Gwynedd ac felly fod Pwyllgor CYSAG Gwynedd yn gefnogol i gais y Dyneiddwyr am sedd yn Grŵp A

5.3 **Cymdeithas CYSAGau Cymru**, mae'r Gymdeithas wedi ymholi am arweiniad gan y Gweinidog Addysg sydd yn ei llythyr 03/05/18 yn cadarnhau y gellir penodi cynrychiolwyr o systemau cred anghrefyddol i Grŵp A er mwyn sicrhau bod y CYSAG yn adlewyrchu credoau'r cymunedau a wasanaethant yn llawn, ac er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol. Mae'r llythyr hwn yn benodol yn disodli paragraff 103 Cylchlythyr 10/94 **[Atodiad]**

5.4 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:** Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cael mewnbwn i fewn i'r adroddiad ac felly dim pellach i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb
**ii. Y Pennaeth Cyllid:** Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Dogfen Gefndir**

Cylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig

**Atodiadau Perthnasol i'r Argymhelliad**

Llythyr cais Dyneiddwyr Bangor Hydref 2017

Llythyr Kirsty Williams, Llywodraeth Cymru

Ystadegau Crefyddol Cyfrifiad 2011 Gwynedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

**Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022:** Ebrill 2019

CANLLAWIAU STATUDOL DRAFFT
MAES DYSGU A PHROFIAD

# Dyniaethau



# CYNNWYS

**Cyflwyniad i Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau** **03**

**Yr Hyn sy'n Bwysig yn y Dyniaethau**

Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain. 20

Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. 33

Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno. 47

Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. 60

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy. 72

**Geirfa** **85**

## CYFLWYNIAD I FAES DYSGU A PHROFIAD Y DYNIAETHAU

## Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ymwneud â gofyn cwestiynau am y cyflwr dynol.

Gan hynny, bydd astudio profiadau dynol yn y gorffennol a'r presennol, ar raddfeydd lleol, cenedlaethol a byd-eang, yn helpu dysgwyr i ateb y cwestiynau hynny, gan eu hannog i gyfrannu at eu cymunedau, dychmygu dyfodol posibl ac elwa ar ymdeimlad o berthyn.

Mae'r Dyniaethau yn cwmpasu daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, ac mae ganddynt eu corff eu hunain o wybodaeth a sgiliau hefyd. Yn yr un modd, gall dysgwyr ac athrawon gyfeirio at ddisgyblaethau ategol eraill, megis y clasuron, economeg, y gyfraith, athroniaeth, gwleidyddiaeth, seicoleg a chymdeithaseg, os a lle y bydd hynny'n briodol.

Bydd y Dyniaethau yn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr ddysgu am ei dreftadaeth ac ymdeimlad o le drwy astudio ei gynefin a Chymru. Bydd yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl Cymru, ei chymunedau, ei diwylliant, ei thirwedd, ei hadnoddau a'i diwydiannau yn ymwneud â gweddill y byd. Bydd hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru hefyd yn helpu dysgwyr i werthfawrogi i ba raddau y mae'n rhan o gymuned ryngwladol ehangach. O ganlyniad, bydd y Dyniaethau yn helpu dysgwyr i weld sut mae eu stori bersonol yn rhan o ddarlun ehangach o'r gorffennol a'r presennol.

Fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, bydd dysgwyr yn ymholi ac yn ymchwilio; yn gwerthuso amrywiol fydolygon ac yn ffurfio eu dehongliadau eu hunain; yn mynd i'r afael â materion, gan gynnwys cynaliadwyedd a newid cymdeithasol; ac yn cael gwahoddiad i weithredu'n gymdeithasol mewn ymateb i'w dysgu. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gwydnwch dysgwyr, yn meithrin annibyniaeth ac yn gwella eu hunanhyder a'u hunanbarch. Bydd profiadau yn y Dyniaethau, yn yr ystafell ddosbarth a'r tu hwnt iddi, yn annog dysgwyr i fod yn uchelgeisiol ac i ddatrys problemau yn hyderus, gan sicrhau eu bod bob amser yn ystyried goblygiadau egwyddorol eu dewisiadau.

# Cwricwlwm gweddnewidiol

Mae'r Papur Gwyn *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*[1] yn nodi'r cynigion deddfwriaethol manwl ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Y cynnig yw y bydd gofyn i leoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni pedwar diben y cwricwlwm ac sy'n cynnwys y chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd dysgu Cymraeg, Saesneg, addysg grefyddol, addysg cydberthynas a rhywioldeb, a'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, i gyd yn ddyletswyddau statudol. Mae rhagor o wybodaeth ar sut y gall Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau gefnogi hyn yn adran 'Datblygu cwricwlwm eang a chytbwys' o'r ddogfen hon.

Bydd hawl gan leoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion i ddewis sut i gynllunio'u cwricwlwm ar lefel ysgol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau cwricwlaidd. Fodd bynnag, wrth arfer yr hawl honno, bydd rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau statudol a gaiff eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, golyga hyn y dylent ddilyn y canllawiau statudol oni bai bod ganddynt reswm da i beidio.

Nod y canllawiau statudol hyn ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, sy'n rhan o'r canllawiau statudol ehangach ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, yw rhoi fframwaith cenedlaethol y gall lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion ei ddefnyddio i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain. Ni fwriedir iddynt fod yn faes llafur hollgynhwysfawr, nac yn ganllaw ar gyfer trefnu amserlenni. Maent yn nodi:

- yr hyn y dylai lleoliadau a ariennir nas cynhelir ac ysgolion roi ystyriaeth iddo wrth lunio'u cwricwlwm, a sut y gellir ei strwythuro
- y disgwyliadau eang ar gyfer dysgwyr ar bob cam cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

[1] llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-gweddnewidiol

# Sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn greiddiol o ran sicrhau bod dysgwyr yn dod yn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd** drwy fynd i'r afael â materion cyfoes a hanesyddol, archwilio profiadau dynol ar garreg eu drws a ledled y byd, ac ystyried gwahanol persbectifau. Gofynnir iddynt ystyried effaith eu gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a sut y caiff y gweithredoedd hyn eu llywio gan ddehongliadau o hawliau dynol, gwerthoedd, moeseg, safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol, ac athroniaethau. Drwy hyn, byddant yn dod i ddeall, parchu a herio amrywiaeth o fydolygon, gan wybod sut i arfer eu hawliau democrataidd a gwneud dewisiadau gwybodus, gan ddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dyfodol cynaliadwy i bawb.

Wrth iddynt archwilio eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach, yn y gorffennol a'r presennol, bydd dysgwyr yn sefydlu sail gadarn o wybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau daearyddol, hanesyddol, crefyddol, anghrefyddol, busnes, ac astudiaethau cymdeithasol. Yn ystod y broses hon, byddant yn dysgu gwahanol ddulliau ymholi, yn gwerthuso'r dystiolaeth y byddant yn ei chanfod, ac yn cymhwyso a chyfleu eu canfyddiadau yn effeithiol, a bydd hyn oll yn eu helpu i ddod yn **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**.

Bydd dysgwyr yn cael y cyfleoedd i ddod yn **gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith**, ynghyd â chyfleoedd i ddod yn ddinasyddion cyfrifol, wrth iddynt ymwneud yn feirniadol â heriau a chyfleoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang o'r gorffennol a'r presennol, a cheisio dychmygu dyfodol posibl. Drwy hyn oll, fe'u hanogir i ystyried sut y gallant hwy eu hunain gymryd camau gweithredu cadarnhaol i wella bywydau pobl yn eu *cynefin*, yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Bydd gan ddysgwyr fan diogel i drafod a myfyrio a fydd yn rhoi amser iddynt ystyried eu persbectifau personol am faterion sy'n ymwneud â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol, heriau egwyddorol a materion cynhwysiant cymdeithasol. Gofynnir hefyd iddynt ystyried y byd naturiol, yn lleol, ledled Cymru a thu hwnt, gan feithrin ynddynt ymdeimlad o le ac o les. Bydd y profiadau hyn yn helpu i ddatblygu **unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas** yng Nghymru a'r byd ehangach.

## DATGANIADAU O'R HYN SY'N BWYSIG YN Y DYNIAETHAU

### Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.

Bydd taith y dysgwyr drwy'r Dyniaethau yn daith o ymholi a darganfod, wrth iddynt gael eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth. Drwy'r ymholi hwn, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r Dyniaethau a'r gallu i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae meddwl ymholgar yn ysgogi ffyrdd newydd a chreadigol o feddwl. Mae mynd i'r afael â chwestiynau yn rhoi'r modd i ddysgwyr ddeall profiadau dynol a'r byd naturiol.

Mae dysgwyr yn defnyddio dulliau gweithredu disgyblaethol priodol, gan gynnwys dyniaethau digidol, i gasglu, dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth, ac i gyfleu a chyflwyno eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn dehongli a dwyn ynghyd gwybodaeth er mwyn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a llywio eu dealltwriaeth o'r byd ymhellach. Drwy feddwl yn feirniadol am eu canfyddiadau, mae dysgwyr yn dod i gasgliadau gwybodus, ond maent hefyd yn deall mai dim ond casgliadau rhannol neu amhendant a geir weithiau ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Mae dysgwyr yn myfyrio'n ofalus er mwyn gwella eu methodoleg ac ehangu neu ddyfnhau eu hymholiad. Bydd dysgwyr hefyd yn deall mai ymgais i ddeall y cyflwr dynol yw'r ymholi hwn, yn ogystal â phroses. Yn wir, mae'r broses ymholi yn cynnig cyfleoedd i hunanfyfyrio sy'n ychwanegu ystyr at eu bywydau eu hunain ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o'u lle yn y byd.

---

### Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

Mae dysgwyr yng Nghymru byth a beunydd yn ceisio gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas, byd y maent yn ei brofi drwy sawl persbectif. Mae'r Dyniaethau yn eu hannog i adolygu'n feirniadol y ffyrdd y mae digwyddiadau a phrofiadau'r byd hwnnw'n cael eu cynrychioli a'u dehongli, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn llunio eu persbectifau gwybodus eu hunain.

Mae dysgwyr yn deall sut y gall amrywiol ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau personol, ac ar ganfyddiadau a dehongliadau eraill. Trwy hyn cânt feithrin gwerthfawrogiad o sut y caiff naratifau a chynrychioliadau eu llunio, ac archwilio sut a pham y gall dehongliadau fod yn wahanol i'w gilydd. Wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a chynrychioliadau, byddant mewn sefyllfa well i werthuso eu dilysrwydd ac i feithrin dealltwriaeth fwy cyfannol o ddigwyddiadau, profiadau a'r byd naturiol. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr yng Nghymru i feithrin hunanymwybyddiaeth wrth iddynt greu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain.

## Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol, a deall sut a pham mae'n newid. Yn ei dro, bydd hwn yn helpu dysgwyr i adnabod beth sy'n gwneud lle yn wahanol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r rhyng-gysylltiadau sydd rhwng pobl a'u hamgylchedd. O ganlyniad, mae dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud cysylltiadau rhwng y gorffennol a'r presennol ac i ddychmygu dyfodol posibl.

Drwy ddeall amrywiaeth o brosesau ffisegol, a'u hachosion a'u heffeithiau, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi sut mae lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn newid yng Nghymru a'r byd ehangach. Byddant hefyd yn meithrin eu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol yn effeithio ar y byd naturiol a sut mae'r byd naturiol yn effeithio ar fodau dynol. Bydd hyn yn dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae gweithredoedd dynol yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn annog dysgwyr yng Nghymru, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, i ddeall eu heffaith hwy eu hunain ar y byd naturiol.

Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o gredoau ac athroniaethau am y byd naturiol, a sut y maent yn dylanwadu ar y modd y mae'r byd â'i bobl yn rhyngweithio. Byddant yn dysgu hefyd ystyried sut y gall profiad o'r byd naturiol gyfrannu at eu datblygiad ysbrydol a'u lles, ac ennyn ynddynt ymdeimlad o le ac ymdeimlad o berthyn, fel sy'n cael ei ymgorffori yn y gair *cynefin*.

---

## Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.

Gall gwethfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a helpu i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn. Drwy ddeall eu hunain, mae dysgwyr yn meithrin eu hunaniaeth eu hunain ac ymwybyddiaeth o sut y gallant, fel unigolion, ddylanwadu ar y cymunedau y maent yn byw ynddynt. O ganlyniad, daw dysgwyr i ddeall y gall y dewisiadau y mae pob un ohonom yn eu gwneud, yn unigol ac ar y cyd, gael effeithiau sylweddol.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o natur gymhleth, luosol ac amrywiol cymdeithasau yng Nghymru a'r byd ehangach. Dros amser, mae'r cymdeithasau hyn wedi esblygu, gan brofi parhad a newid sydd wedi effeithio ar eu bywydau nhw a bywydau pobl eraill, ac sy'n parhau i wneud hynny. Mae'r esblygiad hwn yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng amryw o ffactorau, gan gynnwys gweithredoedd a chredoau pobl, a grymoedd ffisegol. Mae'r Dyniaethau yn meithrin dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r grymoedd sydd wedi dylanwadu ar gymdeithasau.

Mae'r Dyniaethau yn annog dealltwriaeth feirniadol o'r modd y caiff amrywiol gymdeithasau yng Nghymru a'r byd ehangach eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain. Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan amrywiaeth o normau a gwerthoedd diwylliannol, economaidd, cyfreithiol a

gwleidyddol. Maent hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno newidiadau ac ymateb iddynt, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Bydd dysgwyr yn archwilio'r cysylltiadau rhwng y cymdeithasau hyn yn y gorffennol a'r presennol. Cânt eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau a moesegau sy'n sail i gymdeithas ddynol ac sy'n dylanwadu arni.

---

## Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'u rolau fel dinasyddion a phwysigrwydd creu dyfodol cyfiawn a chynaliadwy iddynt hwy eu hunain a'u cymunedau mewn byd rhyng-gysylltiedig. Mae'n annog dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol, gwybodus a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang a chyfrannu atynt, nawr ac yn eu bywydau yn y dyfodol.

Bydd y Dyniaethau yn gwahodd dysgwyr i uniaethu a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n eu hwynebu hwy eu hunain, eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Daw dysgwyr hefyd i ddeall cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, cyfiawnder, rhyng-gysylltedd ac awdurdod, a sylweddoli arwyddocâd byw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol, ac arwyddocâd cyfrannu at y gymdeithas honno. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth nid yn unig o'u hawliau hwy eu hunain, ond hefyd o hawliau, anghenion, pryderon a theimladau pobl eraill wrth greu byd cynaliadwy a rhyng-gysylltiedig.

Bydd cwestiynu a gwerthuso ymatebion sydd eisoes yn bodoli i heriau a chyfleoedd yn helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Byddant yn gallu ystyried effaith eu gweithredoedd wrth iddynt wneud dewisiadau ac arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu cyfiawnhau eu penderfyniadau wrth weithredu mewn ffordd gymdeithasol, wleidyddol, economaidd ac entrepreneuraidd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion gofalgar a chyfranogol o'u cymunedau lleol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a diogelu'r amgylchedd. Ar ben hyn oll, drwy ymateb i heriau, a manteisio ar gyfleoedd i weithredu'n gymdeithasol a chynaliadwy, byddant yn creu ystyr a diben yn eu bywydau eu hunain.

# Y berthynas rhwng y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig yn y Dyniaethau

Dylai cwricwla ysgolion hyrwyddo dealltwriaeth drylwyr o’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig yn y Dyniaethau. Ni ddylid eu hystyried na’u haddysgu fel eitemau annibynnol: mae’r cynnwys, y cysyniadau a’r sgiliau a amlinellir ynddynt yn rhyng-gysylltiedig, gan roi pwyslais ar ddull gweithredu rhyngddisgyblaethol a safbwynt cyfannol o’r dyniaethau.

Mae’r datganiad cyntaf o’r hyn sy’n bwysig yn annog gweithgareddau ymholi a darganfod yn y Dyniaethau, ac mae’r ail yn annog dysgwyr i archwilio ac ystyried y modd y maent hwy ac eraill yn gweld, yn dehongli ac yn cynrychioli profiadau dynol. Mae’r trydydd a phedwerydd datganiad o’r hyn sy’n bwysig yn canolbwyntio ar agweddau allweddol dealltwriaeth yn y Dyniaethau, sef perthynas pobl â’r byd naturiol â’i gilydd. Mae’r datganiad olaf o’r hyn sy’n bwysig yn rhoi pwyslais newydd ar rôl yr unigolyn a’i ymateb i’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth.

# Cynnydd o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig ymagwedd gyfannol ac integredig. Mae pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn cyfeirio at ddeunydd a chysyniadau hanfodol o sawl un neu bob un o ddisgyblaethau'r Dyniaethau. Mae cynnydd yn y Dyniaethau wedi'i seilio ar y syniad nad yw cynnwys pwnc, yn y bôn, yn mynd yn fwy cymhleth. Fodd bynnag, mae'n bosibl astudio'r un pwnc neu gynnwys ar oedrannau gwahanol a disgwyl lefelau gwahanol o ddyfnder a chymhlethdod o ran dealltwriaeth ac ymatebion dysgwyr.

Mae deilliannau cyflawniad yn nodi'r cysyniadau disgyblaethol a rhyngddisgyblaethol penodol y gall dysgwyr ddangos cynnydd ynddynt. Mae'r rhain yn feysydd o wybodaeth weithdrefnol lle y gellid disgwyl i ddysgwyr ddatblygu eu meddwl a'u dealltwriaeth eu hunain, a thrwy hynny ddangos cynnydd.

Ceir cynnydd o ran dealltwriaeth yn y Dyniaethau drwy gyfuniad o:

- wybodaeth ddyfnach, drwy gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth bresennol a datblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig a datrys yr anghydfodau a all ddeillio o safbwyntiau gwahanol
- dealltwriaeth gysyniadol fwy soffistigedig, sy'n helpu dysgwyr i weld y tu hwnt i restr o ffeithiau, a gweld y cysyniadau sy'n sail i'r disgyblaethau sy'n rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, a'r berthynas rhyngddynt mewn cyd-destunau gwahanol.

Hefyd, dangosir cynnydd yn y Dyniaethau drwy:

- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol a mwy soffistigedig o ffynonellau o wybodaeth
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol
- cynyddu annibyniaeth a hunanreoli.

# Datblygu cwricwlwm eang a chytbwys

## Llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol

Mae cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cefnogi bron yr holl ddysgu ac maent yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr allu cymryd rhan yn llwyddiannus ac yn hyderus yn y byd modern.

### Llythrennedd

Mae'r Dyniaethau yn cynnig amrywiaeth o gyd-destunau cyfoethog lle y gellir atgyfnerthu, ehangu a chymhwyso sgiliau llythrennedd dysgwyr. Fel conglfaen hollbwysig ar gyfer datblygu sgiliau bywyd a dilyn y cwricwlwm, dylai dysgwyr gael cyfleoedd i gyfleu eu syniadau a'u safbwyntiau ar lafar. Er enghraifft, gall dysgwyr ddatblygu eu llafaredd drwy drafod, chwarae rôl, holi a chyflwyniadau, ac, wrth drafod cwestiynau Eithaf, gallant addasu'r sgiliau hyn yn ôl y gynulleidfa a'r diben wrth iddynt wrando ar safbwyntiau gwahanol a'u trafod.

Dylai sgiliau darllen dysgwyr gael eu datblygu drwy ddarllen amrywiaeth o ddeunyddiau o amrywiaeth o leoedd ac amseroedd er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliadau ynglŷn ag ystyr a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau.

Mae'r Dyniaethau yn cynnig cyd-destunau cyfoethog i ddatblygu pob arddull ysgrifennu. Er enghraifft, drwy ddisgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol ynghyd â defnyddio terminoleg sy'n benodol i'r pwnc dan sylw, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu.

### Rhifedd

Mae'r Dyniaethau yn rhoi amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr feithrin eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau go iawn. Er enghraifft, gall dysgwyr gasglu data rhifyddol, drwy ddulliau ymchwil sylfaenol ac eilaidd a phortreadu data mewn sawl ffordd amrywiol.

Gall dysgwyr roi cyfarwyddiadau cywir wrth ddarllen map, ac, ar ôl mynd ar daith gerdded, gall dysgwyr ddisgrifio'r llwybr, gan gynnwys paragraffau, ffotograffau, diagramau, ac ati.

Gall dysgwyr ddatblygu eu sgiliau dadansoddi a gwerthuso ac ymdrin â data. Gall cysyniadau megis ymwybyddiaeth gronolegol a graddfa gael eu datblygu a'u trafod, wrth edrych ar y ffordd y mae cydberthnasau dynol wedi effeithio ar fyd natur. Gall y sgil o ddatblygu holiaduron syml i ddadansoddi setiau data mawr gael ei ategu a'i ddatblygu ym mhob rhan o'r Dyniaethau wrth i ddysgwyr gasglu a chofnodi data.

### Cymhwysedd digidol

Mae'r Dyniaethau yn rhoi'r cyd-destun i ddysgwyr gynllunio a chreu gan ddefnyddio ystod o sgiliau digidol wrth i ddysgwyr weithio'n annibynnol neu gydweithio ar y deunyddiau datblygu.

Gellid defnyddio llawer o ffynonellau digidol o wybodaeth i ystyried themâu amrywiol yn y Dyniaethau. Dylai dysgwyr ddangos dealltwriaeth o bwrpas a chynulleidfa wrth ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd a chyfryngau i gyfleu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u hymatebion personol.

Dylai dysgwyr hefyd ddefnyddio ffynonellau digidol o wybodaeth er mwyn eu galluogi i feddwl am y mathau o ddyfodol yr hoffent eu gweld yn eu hardal leol, yng Nghymru a'r byd ehangach. Er enghraifft, y defnydd o systemau gwybodaeth digidol fel ffordd o ddangos cydberthnasau rhwng pobl a'r amgylchedd, neu'r ffynonellau digidol sy'n dangos ymrwymiad busnes i syniadau o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Wrth i ddysgwyr wneud defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol i ymholi ac ymchwilio, mae sicrhau dibynadwyedd y ffynonellau hyn yn hollbwysig wrth iddynt geisio ategu casgliadau.

## Y dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol

Mae'r dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol yn rhan annatod o bob disgyblaeth ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Dylai ystyriaeth o fusnesau, diwylliannau, hanes, daearyddiaeth, gwleidyddiaeth, crefyddau, cymdeithasau Cymru a bydolygon fod yn rhan ganolog o hawl dysgwyr a chynnwys dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng y rhain a chyd-destunau ehangach cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Drwy'r Dyniaethau, mae dysgwyr yn datblygu ymdeimlad o hunaniaeth, ymdeimlad o'u *cynefin* eu hunain, a dealltwriaeth o Gymru a'i lle yn y byd ehangach.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn chwarae rhan bwysig yn y broses o alluogi dysgwyr i gael profiadau dysgu cyfoethog mewn cyd-destun Cymreig. Dylai dyluniad y cwricwlwm ysgol roi sylw manwl a rheolaidd i enghreifftiau, pynciau perthnasol ac astudiaethau achos er mwyn galluogi dysgwyr i ystyried y dimensiwn Cymreig a'r persbectif rhyngwladol.

Mae'r Dyniaethau yn helpu dysgwyr i:

- ddatblygu dealltwriaeth o Gymru a datblygu eu hymdeimlad eu hunain o Gymreictod/yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry
- astudio hanes, daearyddiaeth, diwylliannau, gwerthoedd, ieithoedd a chredoau Cymru, sy'n eu helpu i wneud synnwyr o'u hunaniaeth
- ystyried y cysylltiadau rhwng lleoedd gwahanol, pobl a'r amgylchedd
- deall eu lle a'u rôl eu hunain fel dinesyddion gwybodus ac egwyddorol yng Nghymru a'r byd ehangach
- deall beth yw ystyr dinasyddiaeth fyd-eang, gan gynnwys eu rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang sy'n cynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy
- meithrin dealltwriaeth o ddigwyddiadau'r byd a'r ffordd y maent wedi dylanwadu ar fywydau a chymdeithasau dynol
- deall y gallant, mewn byd amrywiol, deinamig sy'n newid, wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gan helpu i greu byd tecach a diogelach i bawb
- datblygu ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Yn y Dyniaethau, dylai dysgwyr o bob oedran allu cymryd rhan mewn dysgu sy'n ymwneud â dimensiynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Ni ddylid mynnu mai'r dysgwyr ieuengaf ddylai ganolbwyntio ar astudiaethau lleol yn unig ac mai dim ond y dysgwyr hynaf sy'n canolbwyntio ar y persbectif rhyngwladol. Dylai pob dysgwr gael cyfleoedd i seilio ei ddealltwriaeth o fater yn ei ardal leol ac yna ddwyn perthynas rhyngddo a'r cyd-destun rhyngwladol.

## Sgiliau ehangach

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn anelu at annog dysgwyr i:

- feddwl amdanynt hwy eu hunain, a'u proses eu hunain o ddysgu, mewn ffyrdd myfyriol a beirniadol
- sylweddoli bod dealltwriaeth o eraill ynghyd â dealltwriaeth ohonynt hwy eu hunain yn ganolog i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau
- datblygu effeithiolrwydd personol sy'n cynnwys myfyrio arnynt hwy eu hunain ac eraill, a'u deall.

### Meddwl yn feirniadol a datrys problemau

Mae meddwl yn feirniadol yn ganolog i'r Dyniaethau. Mae'r Dyniaethau yn datblygu galluoedd dysgwyr i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol, yn ogystal â dychmygu dyfodol posibl. Gellid datblygu'r gallu i ddatrys problemau drwy annog dysgwyr i gasglu ffynonellau o dystiolaeth er mwyn esbonio nodweddion cymdeithas yn ystod cyfnod penodol a myfyrio arnynt, neu ystyried atebion posibl i anghydraddoldebau ymhlith grwpiau cymdeithasol.

### Creadigrwydd ac arloesi

Yn y Dyniaethau, mae dysgwyr yn cyfleu gwybodaeth a chanfyddiadau mewn ffyrdd creadigol ac arloesol. Caiff dysgwyr eu hannog i fod yn agored i syniadau a ffyrdd o feddwl gwahanol, gan eu galluogi i fynegi barn resymedig ar y gwahaniaethau hyn.

### Cynllunio a threfnu, ac Effeithiolrwydd personol

Yn y Dyniaethau, bydd dysgwyr yn gweithio gydag eraill wrth iddynt gynllunio ymchwiliadau sy'n cynnwys casglu a defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth. Byddant yn datblygu eu heffeithiolrwydd personol eu hunain fel aelodau pwysig o dîm y gellir dibynnu arno i gyfrannu drwy drefnu a chynnal ymholiadau. Byddant hefyd yn datblygu'r sgil hwn fel dysgwyr annibynnol y mae gofyn iddynt werthuso, cyfiawnhau a mynegi eu hymatebion ystyriol eu hunain mewn amrywiaeth o ffyrdd.

## Gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

### Dysgu o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur

Mae'n hanfodol i ddysgwyr gael gafael ar wybodaeth o ansawdd uchel am yrfaoedd a'r farchnad lafur ac iddynt feddu ar ddealltwriaeth o'r hyn y mae hynny'n ei olygu iddynt hwy, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a chynaliadwy am eu gyrfa.

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnwys meysydd hanes, daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Er bod llawer o yrfaoedd sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r meysydd hyn, mae'r sgiliau a ddatblygir yn y Dyniaethau, megis datrys problemau, cyfathrebu, meddwl yn feirniadol, a'r gallu i werthuso persbectifau gwahanol a phwyso a mesur goblygiadau, yn cael eu gwerthfawrogi gan amrywiaeth eang o gyflogwyr ac felly'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddysgwyr.

### Cysylltu'r maes dysgu a phrofiad â gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

Dylid annog dysgwyr i ymgymryd â gwaith ymchwil ac ystyried y cysylltiadau rhwng y Dyniaethau a'r llwybrau gyrfa a fyddai ar gael iddynt. Mae'r Dyniaethau yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr i ddilyn gyrfa sy'n gysylltiedig â'r disgyblaethau hyn. Mae llawer o yrfaoedd

yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Dyniaethau, megis curadur amgueddfa, archeolegydd, arweinydd crefyddol, diplomydd, athro, meteorolegwr, daearegwr, rheolwr, cynghorydd ariannol a dadansoddwr busnes. Yn bwysicach na hynny, bydd y sgiliau trosglwyddadwy sydd wrth wraidd y Dyniaethau yn cyfrannu at baratoi gweithlu ar gyfer proffesiynau a swyddi nad ydynt yn bodoli eto, er mwyn diwallu anghenion gyrfaoedd newydd ac sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r sgiliau a ddatblygir drwy Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn drosglwyddadwy, yn werthfawr iawn, ac mae galw mawr amdanynt yn y farchnad gyflogaeth ehangach. Mae'r Dyniaethau yn galluogi dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gwybodus ac egwyddorol sy'n barod ar gyfer bywyd a gwaith, yn cyfrannu at barodrwydd dysgwyr ar gyfer bywyd gwaith drwy ddatblygu sgiliau a thechnegau, gan gynnwys defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol, defnyddio a chreu mapiau, cynnal arolygon, dadansoddi data, cynnal ymchwiliadau, dadansoddi tystiolaeth a dadleuon, canfod tuedd a rhagfarn, a llunio dadl neu ddehongliad o ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r Dyniaethau yn helpu dysgwyr i ddeall amrywiaeth a herio stereoteipiau er mwyn codi uchelgais dysgwyr a'u cred yn eu dyfodol posibl.

Mae cynnydd dysgwyr o ran gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith yn rhan o gontinwwm dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed. Gallai llwyddiant i ddysgwr iau ysgol gynradd gynnwys:

- chwarae rôl ar gyfer amrywiaeth o wahanol swyddi
- y gred y gallant gyflawni unrhyw swydd – gan fynd i'r afael â stereoteipiau rhywedd
- cyfathrebu â'r bobl yn eu cymuned am y gwahanol swyddi y maent yn eu gwneud a'r boddhad a all ddeillio ohonynt.

Drwy wneud cynnydd dysgu, gallai llwyddiant i ddysgwyr 16 oed gynnwys:

- dangos a chymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd mewn perthynas â'r byd gwaith
- nodi diddordebau, cryfderau a sgiliau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ôl-16
- deall ac arddangos y mathau o ymddygiad mae cyflogwr yn dymuno eu gweld mewn cyflogai da
- gwerthuso risg wrth ddatblygu syniad busnes ac ystyried gwahanol ffyrdd o sefydlu a chynnal menter.

**Profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith**

Mae dysgwyr yn datblygu diddordebau, cryfderau, sgiliau a dyheadau drwy brofiadau fel rhan o'r cwricwlwm ac mewn bywyd y tu hwnt i'r ysgol. Mae amrywiaeth o bartneriaid ynghlwm â'r teithiau cyffrous hyn drwy gyd-ddylunio a chyd-gyflwyno a, gyda'i gilydd, maent yn llywio penderfyniadau plant a phobl ifanc am eu dyfodol a'r llwybrau y byddant yn eu dilyn. Gall cyfleoedd, megis ymweliadau, siaradwyr gwadd a gweithgareddau ymarferol, helpu i wella'r dysgu a'i roi mewn cyd-destun.

Mae'r Dyniaethau yn helpu dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o hawliau cyflogaeth, entrepreneuriaeth foesegol, moeseg busnes, rhoi/cael benthyg arian, a hyrwyddo prosesau ac arferion diwydiannol gwyrdd cynaliadwy.

Gall cydweithio ag unigolion a chyflogwyr a chyfleoedd i gysylltu â nhw, er enghraifft mewn llywodraeth leol, lletygarwch, ymarferwyr y gyfraith, banciau a chymdeithasau adeiladu, addysgu, iechyd a diogelwch, roi cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am waith, cyflogaeth a'r sgiliau a werthfawrogir yn y gweithle.

Gall dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau a feithrinwyd drwy gymryd rhan mewn profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith i ddatblygu gweithgareddau menter llwyddiannus. Yn y Dyniaethau, gall y rhain gynnig profiad dysgu dilys sy'n datblygu dysgwyr fel cyfranwyr creadigol a mentrus, ac yn eu galluogi i greu cysylltiadau â'r byd gwaith.

**Deall cyfleoedd ôl-16 ac addysg uwch**

Mae'n hanfodol bod dysgwyr yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt ôl-16. Felly, yn ogystal â deall am gyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau, dylid rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am ddarparwyr dysgu a chynnig y cyfle iddynt ymgysylltu ag amrywiaeth o ddarparwyr o'r fath. Dylai'r cyfleoedd ymgysylltu gynnwys mynychu ffeiriau gyrfaoedd a sgiliau, sgyrsiau gan ddarparwyr addysg bellach ac uwch ac ymweliadau gan y darparwyr hynny, yn ogystal â chyflwyniadau gan fyfyrwyr mewn addysg bellach neu uwch. Dylid hefyd gyfeirio dysgwyr at adnoddau ymchwil ar-lein sy'n cynnig gwybodaeth am gyrsiau a chynnydd a dilyniant, er mwyn eu helpu i ddeall yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu sydd ar gael, ac i helpu i godi eu dyheadau a chynnig sail iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus.

## Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn lle naturiol i ymgorffori cynnwys sy'n ymwneud ag addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae ymholi yn y Dyniaethau yn galluogi dysgwyr i gwestiynu'n feirniadol ac mae'n rhoi cyfleoedd i chwilio am ystyr o ran profiadau dynol a'r byd, a dod o hyd i'r ystyr hwnnw. Mae hyn yn cynnwys archwilio cydberthnasau personol, hawliau, gwerthoedd cyffredin, rhywedd a rhywioldeb. Mae'r Dyniaethau yn galluogi dysgwyr i ystyried materion o amrywiol persbectifau. Mae'n amgylchedd diogel i ystyried cydraddoldeb a diffyg gwahaniaethu ac mae'n cynnig cyfleoedd i drafod materion sensitif, e.e. trais ar sail rhyw ac anffurfio/torri organau cenhedlu benywod. Yn y Dyniaethau, bydd cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac annog dysgwyr i gydnabod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

**Cydberthnasau**

Mae'r Dyniaethau yn annog agweddau cadarnhaol tuag at bobl eraill lle mae eraill yn cael eu trin gyda pharch, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd; hil; statws cymdeithasol, economaidd neu ymfudo; crefydd; anabledd; cyfeiriadedd rhywiol; hunaniaeth o ran rhywedd neu fynegiant rhywedd; neu nodweddion rhywiol.

**Gwerthoedd, hawliau, diwylliant a rhywioldeb**

Mae Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn ystyried agweddau, gwerthoedd a chyfreithiau mewn cymdeithasau, gan gynnwys trafod rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol, cydraddoldeb rhywiol, amrywiaeth a hawliau dynol. Bydd cyfleoedd i ystyried hawliau a'u hanes a'r dimensiynau cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, crefyddol, gwleidyddol, cyfreithiol, hanesyddol, moesegol a diwylliannol sy'n dylanwadu ar rywioldeb dros oes. Mae'r Dyniaethau yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd ac yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ystyried eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill.

### Deall rhywedd

Mae'r Dyniaethau yn galluogi dysgwyr i godi eu hymwybyddiaeth o natur ganolog ac amrywiol rhywedd ac i ddeall sut mae normau rhywiol wedi cael eu llunio gan gymdeithas, diwylliant a chredoau.

### Trais a chadw'n ddiogel

Mae'r Dyniaethau yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddeall yr heriau sy'n wynebu pobl yng Nghymru a'r byd ehangach. Yn y Dyniaethau ceir ffocws ar ymrwymiad i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion gofalgar, cyfranogol cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Bydd dysgu yn y Dyniaethau yn ystyried ymrwymiad i gyfiawnder ac amrywiaeth, pwysigrwydd ymateb yn briodol i drais, cadw'n ddiogel, a hyrwyddo heddwch a diogelwch i eraill mewn cymunedau a chymdeithasau. Gall dyniaethau digidol ganolbwyntio ar effeithiau cadarnhaol a niweidiol y cyfryngau cymdeithasol, a'r ffordd y gall pobl bortreadu eu hunain yn ddiogel ar-lein.

### Sgiliau ar gyfer iechyd a lles

Mae'r Dyniaethau yn cynnwys trafodaethau ynglŷn ag unigolion, cymdeithasau a'r byd sy'n cynnwys yr angen am ddod yn ddinasyddion empathig, moesegol, gwybodus sy'n cyfrannu at gydberthnasau diogel, iach a chadarnhaol. Mae profiadau, gwybodaeth a sgiliau ym maes y Dyniaethau yn hyrwyddo iechyd da a lles da. Mae'r Dyniaethau yn ystyried normau cymdeithasol a rhywiol a'r ffordd y gall dylanwad cyfoedion effeithio ar wneud penderfyniadau ac ymddygiad rhywiol. Mae ymholi yn y Dyniaethau yn rhoi cyfleoedd i ddeall bod gwahanol fathau o gyfryngau sy'n cyflwyno gwybodaeth a dehongliadau a allai fod yn ddilys neu beidio. Bydd hyn yn dangos y gall y cyfryngau gael dylanwad cadarnhaol neu negyddol ar werthoedd, agweddau a normau ynglŷn â rhywioldeb a rhywedd.

### Y corff dynol a'i ddatblygiad

Yn y Dyniaethau mae cyfle i ystyried sut mae pob diwylliant yn deall rhyw, rhywedd, lles, gan gynnwys delwedd gorfforol, atgenhedlu, a phryd y mae'n briodol dod yn weithredol yn rhywiol.

### Rhywioldeb ac ymddygiad rhywiol

Gallai'r Dyniaethau ystyried pa mor gymhleth yw rhywioldeb ac mae'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol sy'n esblygu dros oes.

### Iechyd rhywiol ac atgynhyrchiol

Mae gan bob cymdeithas, diwylliant a chenhadaeth ei gredoau/chredoau ei hun ynglŷn ag ymddygiadau rhywiol ac mae'n bwysig gwybod y ffeithiau.

## Addysg grefyddol

Mae addysg grefyddol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol cyfredol ar gyfer plant 5 i 16 oed. Rhaid i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol nad oes ganddynt gymeriad crefyddol ddilyn y maes llafur cytûn. Mae cynhadledd maes llafur cytûn yn datblygu cynnwys y cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol ym mhob ardal awdurdod lleol.

Mae rhaid i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol hefyd ddarparu addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytûn oni bai bod rhiant/gofalwr yn gofyn bod ei blentyn yn derbyn addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd.

Mae rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol ddarparu addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad oes gweithred ymddiriedolaeth, yn unol â daliadau'r grefydd. Fodd bynnag, os bydd rhieni/gofalwyr yn gwneud cais amdani, ac os nad oes unrhyw ysgol leol arall yn gallu ei darparu, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol, cymaint ag sy'n rhesymol bosib, ddarparu addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytûn.

Mewn cynigion ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, bydd addysg grefyddol yn parhau i fod yn orfodol. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr cofrestredig mewn dosbarthiadau Meithrin yn cael eu heithrio rhag addysg grefyddol. Cynigir diddymu'r eithriad. Nid ydym yn cynnig y bydd yn ofynnol i leoliadau a ariennir nas cynhelir addysgu'r maes llafur cytûn, ond bydd angen iddynt roi sylw i ganllawiau ar y ffordd orau o'i addysgu.

Nid ydym yn bwriadu newid y gofyniad i ysgolion gyflwyno'r maes llafur cytûn. Bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol yn parhau i allu cyflwyno meysydd llafur eu henwad, a gall rhieni/gofalwyr dysgwyr sy'n mynychu ysgolion gwirfoddol a reolir barhau i ofyn bod eu plentyn yn astudio'r maes llafur enwadol yn hytrach na'r maes llafur cytûn lleol, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae fframwaith newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn darparu rhagor o fanylion am y berthynas rhwng addysg grefyddol, y maes llafur cytûn, a'r meysydd dysgu a phrofiad. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan grŵp o ymarferwyr addysg grefyddol, arloeswyr y cwricwlwm, academyddion, a chynrychiolwyr o Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAGau) a'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol.

Ein bwriad, hefyd, yw bod addysg grefyddol yn adlewyrchu ein perthynas hanesyddol a chyfoes â safbwyntiau athronyddol a chrefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. Felly, caiff y ddeddfwriaeth gyfredol ei diwygio i sicrhau bod y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn rhoi ystyriaeth i fydolygon anghrefyddol – rhai sy'n cyfateb i grefyddau (e.e. dyneiddiaeth).

## Cyfoethogi a phrofiadau

Dylai amrywiaeth eang o brofiadau a chyfleoedd cyfoethogi fod ar gael i ddysgwyr. Dylai Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau annog pob dysgwr i ymddiddori yn eu dysgu a chymryd perchenogaeth ohono.

Gall ymwneud yn ystyrlon â chymunedau fod yn rhywbeth pleserus a chofiadwy. Er enghraifft, mae dysgu drwy brofiad yn rhoi cyfle i blant ymwneud â gweithgareddau chwarae rôl neu gymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathliadau neu ddigwyddiadau ail-greu. Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl wrth iddynt ymateb i gyfyng gyngor moesegol, datrys problemau go iawn a phresennol neu ystyried digwyddiadau yn y gorffennol.

Dylai dysgwyr brofi rhyfeddod a dirgelwch byd natur, lleoliadau hanesyddol, a safleoedd crefyddol a diwylliannol. Dylent gael profiad o chwarae a dysgu mewn amgylchiadau cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored a'u harchwilio. Mae'r Dyniaethau yn defnyddio teithiau maes ac ymweliadau yn y gymuned leol a thu hwnt fel man cychwyn i addysgu cysyniadau allweddol neu wella dysgu drwy brofiad uniongyrchol. Mae siarad ag ymwelwyr ac arbenigwyr, gan arsylwi a chymryd rhan mewn dysgu drwy brofiad, megis gweithgareddau diwylliannol, yn helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddysgu am brofiadau dynol.

# Rhoi'r maes dysgu a phrofiad ar waith

Mae pedwar diben y cwricwlwm yn allweddol fel sbardun i'r broses o ddatblygu cwricwlwm y Dyniaethau. Felly, rhaid i athrawon ystyried ym mha fodd y mae eu haddysgu a'u rhaglenni dysgu yn cyfrannu at ddatblygu'r nodweddion hyn ymhlith dysgwyr yng Nghymru.

Fel mater o egwyddor, dylai ymarferwyr allu penderfynu ar y modd y trefnir y maes dysgu a phrofiad hwn, a dewis y cynnwys fydd angen ei gyflwyno. Mae'r annibyniaeth hon yn golygu y gellir addasu cynnwys er mwyn diwallu gwahanol anghenion dysgwyr. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd a mwy o gyfleoedd i sicrhau bod modd i ddysgwyr lywio eu dysgu. Mae'n werth cofio y gellir addysgu unrhyw gynnwys neu faes pwnc ar unrhyw adeg ar y continwwm.

Dylid dychwelyd yn benodol at gysyniadau a syniadau allweddol, a hynny'n rheolaidd, er mwyn atgyfnerthu a gwella dealltwriaeth. Dylai ysgolion ddethol cynnwys sy'n sicrhau amrywiaeth gynyddol wrth i ddysgwyr symud drwy'r ysgol, er mwyn i gysyniadau allweddol gael eu harchwilio'n fwy trylwyr. Fodd bynnag, ni ddylid dychwelyd at gysyniadau mewn modd ailadroddus. Yn hytrach, dylai'r broses gynnig heriau mwyfwy cymhleth, gan alluogi dysgwyr i fynd i'r afael â phrofiadau, gwybodaeth a sgiliau newydd.

Dylai'r broses o ddylunio cwricwla ysgolion sicrhau y caiff cyd-destunau a phrofiadau dysgwyr o'u hardal leol ac o Gymru eu hystyried fel pethau o bwys, ac yn greiddiol wrth gynllunio.

Dylid hefyd ddethol cynnwys er mwyn sicrhau y gall dysgwyr greu cysylltiadau o fewn a rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y maes dysgu a phrofiad hwn, ac er mwyn sicrhau cynnydd yn y sgiliau a nodwyd yn y camau cynnydd. Dylai ysgolion ac athrawon hefyd sicrhau eu bod yn dethol cynnwys sy'n:

- caniatáu i ddysgwyr feithrin dealltwriaeth drylwyr o'u hardal leol, o Gymru ac o'r byd ehangach
- gynhenid ddiddorol, perthnasol ac ysgogol i ddysgwyr
- diwallu dibenion y cwricwlwm a dibenion ehangach addysg o ran sgiliau bywyd a sgiliau gwaith, a dealltwriaeth gymdeithasol, economaidd, gwleidyddol a diwylliannol hanfodol
- ymdrin â digwyddiadau, pobl a phrosesau sydd wedi cael effeithiau sylweddol
- hyrwyddo sgiliau meddwl, datblygu cysyniadol ac ymholi uwch
- hwyluso profiadau dilys sy'n fodd i ddatblygu'r mathau o wybodaeth a sgiliau y mae'n debygol y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn y dyfodol
- cynnig cyfleoedd ar gyfer meysydd pwnc eang, ac astudiaethau manylach
- cynnig cyfleoedd i greu cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau ac mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill.

Rhwng 14 ac 16 oed, bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn caniatáu i ddysgwyr ddilyn eu diddordebau'n fanylach wrth iddynt gamu ymlaen, felly byddant yn gallu arbenigo mewn un ddisgyblaeth neu fwy, ond gan gadw'r hawl i brofiad eang o'r dyniaethau ar yr un pryd. Yn naturiol, bydd disgyblaethau unigol yn dod yn fwy amlwg yng Nghamau cynnydd 4 a 5, a bydd arbenigo yn y fath fodd yn arwain at gynnydd o ran gwybodaeth ddisgyblaethol, sgiliau cymhleth a phrofiadau mwy cyfoethog.

Bydd hyn hefyd yn paratoi dysgwyr i arbenigo ymhellach ym maes addysg bellach ac addysg uwch, ac yn y byd gwaith. Ni ddylai'r arbenigo cynyddol hyn mewn disgyblaethau unigol olygu y caiff y cwricwlwm ei gulhau, fodd bynnag. Mae pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn parhau'n greiddiol i'r disgyblaethau hynny.

Mae parhau i gynnig rhyw raddau o ehangder rhwng 14 ac 16 oed yn cymryd i ystyriaeth natur statudol addysg grefyddol.




## YR HYN SY'N BWYSIG YN Y DYNIAETHAU

**Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.**

Bydd taith y dysgwyr drwy'r Dyniaethau yn daith o ymholi a darganfod, wrth iddynt gael eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i gwestiynu, i feddwl yn feirniadol a myfyrio ar dystiolaeth. Drwy'r ymholi hwn, mae dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r Dyniaethau a'r gallu i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Mae meddwl ymholgar yn ysgogi ffyrdd newydd a chreadigol o feddwl. Mae mynd i'r afael â chwestiynau yn rhoi'r modd i ddysgwyr ddeall profiadau dynol a'r byd naturiol.

Mae dysgwyr yn defnyddio dulliau gweithredu disgyblaethol priodol, gan gynnwys dyniaethau digidol, i gasglu, dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o dystiolaeth, ac i gyfleu a chyflwyno eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn dehongli a dwyn ynghyd gwybodaeth er mwyn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes a llywio eu dealltwriaeth o'r byd ymhellach. Drwy feddwl yn feirniadol am eu canfyddiadau, mae dysgwyr yn dod i gasgliadau gwybodus, ond maent hefyd yn deall mai dim ond casgliadau rhannol neu amhendant a geir weithiau ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Mae dysgwyr yn myfyrio'n ofalus er mwyn gwella eu methodoleg ac ehangu neu ddyfnhau eu hymholiad. Bydd dysgwyr hefyd yn deall mai ymgais i ddeall y cyflwr dynol yw'r ymholi hwn, yn ogystal â phroses. Yn wir, mae'r broses ymholi yn cynnig cyfleoedd i hunanfyfyrio sy'n ychwanegu ystyr at eu bywydau eu hunain ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o'u lle yn y byd.

# Dysgu

## Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn helpu dysgwyr i ennill:

- soffistigeiddrwydd cynyddol o ran dealltwriaeth gysyniadol, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i restr o ffeithiau a mynd i'r afael â'r syniadau hynny sy'n sail i ddisgyblaethau'r Dyniaethau, a'r modd y mae'r rhain yn cysylltu â'i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau
- dyfnder gwybodaeth cynyddol, a nodweddir gan y gallu i gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth flaenorol, i feithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig, ac i ddatrys yr achosion o wrthdaro a all godi pan ddaw gwahanol safbwyntiau ynghyd
- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol, gan gynnwys defnydd o eirfa bwnc-benodol
- annibyniaeth gynyddol a gallu cynyddol i hunanreoli.

## Cam cynnydd 1

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ofyn cwestiynau syml a chynnig atebion posibl yn seiliedig ar brofiadau blaenorol.

Gallaf ddechrau cofnodi fy arsylwadau mewn ffyrdd syml a chyfleu fy nghanfyddiadau.

Rwyf wedi dangos chwilfrydedd am y byd o'm cwmpas.

## Cam cynnydd 2

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ofyn amrywiaeth o gwestiynau fel rhan o ymholiadau, ac ymateb iddynt.

Gallaf wneud awgrymiadau ar gyfer ymholiadau posibl.

Gallaf wneud a chofnodi fy arsylwadau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Gallaf gasglu a chofnodi gwybodaeth a data o ffynonellau penodol er mwyn ateb cwestiynau penodol.

Gallaf ddidoli a grwpio tystiolaeth, gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf mewn perthynas ag ymholiad.

Gallaf roi esboniadau syml am fy nghanfyddiadau.



Gallaf ddod i gasgliadau syml.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymholiadau, gan ganolbwyntio ar fy ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau a thystiolaeth, gan gynnwys ffynonellau gweledol, ffisegol a llafar a ddarparwyd ar fy nghyfer.

Rwyf wedi cael amrywiaeth o gyfleoedd i gydweithio ag eraill er mwyn archwilio ac ymgymryd â gwaith ymchwil sylfaenol, gan gynnwys gwaith maes ac ymweliadau, ac i ymchwilio i amgylcheddau neu faterion lleol.

## Cam cynnydd 3

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm profiadau i fframio ymholiadau priodol.

Gallaf lunio syniadau, gwneud rhagfynegiadau, a chynllunio sawl gwahanol ffordd o fynd i'r afael â sefyllfa neu dasg benodol, yn ogystal ag arbrofi ag amrywiaeth o opsiynau wrth roi'r syniadau hyn ar waith.

Gallaf archwilio'r gwahaniaethau rhwng ffeithiau, barn a chredoau.

Gallaf ganfod a chasglu amrywiaeth o dystiolaeth er mwyn cefnogi fy ymholiad, gan ddangos rhywfaint o annibyniaeth.

Gallaf gyflwyno fy nghanfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio dulliau priodol.

Gallaf werthuso arwyddocâd a defnyddioldeb y dystiolaeth rwy'n ei harchwilio.

Gallaf ddehongli data a gwybodaeth a'u defnyddio i lywio fy nghasgliadau, gan roi rhesymau.

Gallaf lunio a chyflwyno casgliadau ar gyfer fy nghanfyddiadau, a gallaf ddisgrifio penderfyniad neu gasgliad a ategir gan dystiolaeth sy'n seiliedig ar y broses ymholi a gynhaliwyd gennyf.

Gallaf werthuso a myfyrio ar fy ymholiad, gan ddisgrifio'r camau rwyf wedi'u cymryd, a dod o hyd i feysydd i'w gwella.

Rwyf wedi cymryd rhan weithgar mewn ymholiadau, yn annibynnol ac ar y cyd.

Rwyf wedi cynnal ymholiadau sy'n canolbwyntio ar themâu rhyngddisgyblaethol.

Rwyf wedi profi ymholiadau sy'n canolbwyntio ar fy ardal leol, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol.

Rwyf wedi profi ymholiadau sy'n canolbwyntio ar fy nghredoau, gwerthoedd a bydolygon fy hun, ynghyd â rhai pobl eraill.

Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau a thystiolaeth, gan gynnwys ffynonellau ysgrifenedig, gweledol, ffisegol a llafar sy'n deillio o'm gwaith ymchwil.

Rwyf wedi profi cyfleoedd i ymgymryd â gwaith ymchwil sylfaenol yn fy ardal leol a thu hwnt.

## Cam cynnydd 4

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf lunio cwestiynau penagored a chymhleth, ac ymateb iddynt.

Gallaf ystyried amrywiaeth o strategaethau hysbys er mwyn cynnal ymholiad a dethol yn annibynnol y dull gweithredu mwyaf effeithiol.

Gallaf ddod o hyd i a dewis amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol yn annibynnol, a gallaf dybio'r ystyr er mwyn llunio casgliadau rhesymegol.

Gallaf ddethol y dulliau ymchwil priodol.

Gallaf gasglu amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol.

Gallaf gyflwyno fy nghanfyddiadau a data, gan ddefnyddio dulliau cynyddol soffistigedig.

Gallaf ddadansoddi fy nghanfyddiadau, gan ddisgrifio patrymau ac egluro perthnasau ar draws setiau data.

Gallaf ddisgrifio'r penderfyniad rwyf wedi'i wneud neu'r casgliad rwyf wedi dod iddo.

Gallaf ddeall y gall eraill ddod i wahanol gasgliadau hyd yn oed wrth ddefnyddio'r un dystiolaeth.

Gallaf werthuso defnyddioldeb y dystiolaeth a dadansoddi ei dibynadwyedd.

Gallaf gyfeirio at y ffynonellau rwyf wedi'u defnyddio i ddod i'm casgliadau.

Gallaf gynnal gwerthusiad effeithiol o'r broses ymholi a ddefnyddiwyd, ac awgrymu rhai gwelliannau.

Gallaf ddeall fod yr holl bethau uchod yn elfennau gofynnol o fewn proses ymholi, a bod modd eu cymhwyso at amrywiaeth o gwestiynau sy'n ymwneud â'r Dyniaethau.

Gallaf adnabod ac egluro rhai gwahaniaethau rhwng y broses ymholi yng ngwahanol ddisgyblaethau'r Dyniaethau.

Rwyf wedi cynnal ymholiadau yn annibynnol ac ar y cyd yn y Dyniaethau.

Rwyf wedi cael y cyfle i fyfyrio ar y modd y mae fy ymholiad yn ychwanegu gwerth i'm bywyd fy hun a'r modd y mae'n cyfrannu at fy ymdeimlad o'm lle yn y byd.

Rwyf wedi cynnal ymholiadau sy'n canolbwyntio ar gwestiynau sy'n ymwneud â meysydd pwnc penodol yn y Dyniaethau, yn ogystal â themâu a chwestiynau rhyngddisgyblaethol.

Rwyf wedi datblygu ac wedi arwain fy ymholiadau fy hun sy'n canolbwyntio ar fy ardal leol, Cymru a'r byd ehangach, nawr ac yn y gorffennol.

Rwyf wedi datblygu ac wedi arwain fy ymholiadau fy hun sy'n canolbwyntio ar fy nghredoau, gwerthoedd a bydolygon fy hun, ynghyd â rhai pobl eraill.

## Cam cynnydd 5

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf lunio cwestiynau penagored, cymhleth, ac ymateb yn annibynnol iddynt.

Gallaf ddethol yn annibynnol y dulliau ymchwil priodol a'r math priodol o dystiolaeth, gan ddibynnu ar gyd-destun disgyblaeth yr ymholiad.

Gallaf gasglu amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys data meintiol ac ansoddol.

Gallaf ddethol yn annibynnol y dull priodol o gyflwyno fy nghanfyddiadau a'm casgliadau, a chyfeirnodi fy ngwaith yn briodol.

Gallaf gyfleu canlyniadau fy ymholiad, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n briodol i'r pwnc dan sylw, y diben a'r gynulleidfa.

Gallaf ddehongli tystiolaeth, tybio, a dod i gasgliadau, gan gyfosod amrywiaeth o dystiolaeth.

Gallaf werthuso defnyddioldeb a dibynadwyedd tystiolaeth ansoddol a meintiol, gan ystyried ei tharddiad, cynnwys, diben, cyd-destun a chyfyngiadau.

Gallaf ddeall effaith ffynonellau o awdurdod a dadansoddi sut y cânt eu dehongli a'u defnyddio.

Gallaf lunio a chyfiawnhau ymatebion a barnau cydlynol sy'n gytbwys ac sy'n ystyried amrywiaeth o safbwyntiau.

Gallaf werthuso'n annibynnol lwyddiant fy ymholiadau, awgrymu gwelliannau a mireinio fy methodoleg ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol.

Gallaf fyfyrio mewn ffordd ystyrlon er mwyn cynnal gwaith ymchwil pellach neu ehangu'r ymholiad.

Gallaf egluro'r nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng ymholiadau yn y meysydd pwnc sy'n rhan o'r Dyniaethau.

Rwyf wedi ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddatblygu ymholiadau sy'n canolbwyntio ar fy ardal leol, Cymru a'r byd ehangach mewn un neu fwy o ddisgyblaethau'r Dyniaethau.

Rwyf wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys y rhai o'm gwaith ymchwil fy hun, er mwyn ychwanegu dyfnder i'm hymholiadau.

Rwyf wedi cael y cyfle i hunanfyfyrio, gan ystyried y modd y gall fy ymholiad ychwanegu gwerth i'm bywyd fy hun a'r modd y gall gyfrannu at fy ymdeimlad o'm lle yn y byd.

## Pan fydd y dysgwyr yn mynd i'r afael ag ymholiadau disgyblaeth-penodol, dylid ychwanegu'r canlynol at Gam cynnydd 5.

### Daearyddiaeth

Gallaf ragfynegi deilliannau posibl gwaith ymchwil daearyddol.

Gallaf gasglu data sylfaenol ac eilaidd meintiol ac ansoddol yn gywir.

Gallaf ddehongli a chyflwyno data ar ffurf graffigol neu gartograffig.

Gallaf ddod i gasgliadau ar sail data daearyddol, gan ddefnyddio sgiliau ystadegol lle y bo'n briodol.

### Hanes

Gallaf ddeall natur oddrychol ac anghyflawn tystiolaeth hanesyddol.

Gallaf ddadansoddi a gwerthuso dibynadwyedd, defnyddioldeb a dilysrwydd tystiolaeth hanesyddol sylfaenol ac eilaidd yng nghyd-destun yr ymholiad penodol.

Gallaf gyfiawnhau fy nghasgliadau a'u hategu'n llawn, gan gydnabod cyfyngiadau barnau am y gorffennol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.

### Addysg grefyddol

Gallaf fynd i'r afael ag ymholiad athronyddol gan ystyried amrywiaeth, cymhlethdod a lluosogrwydd bydolygon crefyddol ac anghrefyddol o'r byd.

Gallaf ddeall bod cwestiynau Eithaf yn gymhleth, ac mai atebion rhannol ac amhendant a geir yn aml.

Gallaf werthfawrogi ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod, a bydolygon crefyddol ac anghrefyddol, uniaethu â nhw a'u gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio fy nghasgliadau rhesymegol fy hun.

Gallaf arsylwi ar fathau o fynegiant crefyddol ac ymchwilio iddynt, a gallaf gynnal gwerthusiad beirniadol o'r modd y mae agweddau ar grefydd a chred yn effeithio arnaf i, ar unigolion eraill, ar gymdeithas leol ac ar gymdeithas byd-eang.

### Astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol

Gallaf gynllunio a dilyn methodolegau astudiaethau cymdeithasol neu astudiaethau busnes priodol, gan ddefnyddio dulliau ymchwil cymdeithasol sylfaenol ac eilaidd lle y bo'n briodol.

Gallaf gasglu, coladu a dadansoddi data sylfaenol gan ddefnyddio technegau samplu priodol.

Rwyf wedi ystyried fy nghyfrifoldebau egwyddorol fel ymchwilydd astudiaethau cymdeithasol ac astudiaethau busnes, a gweithredu arnynt.

# Cynllunio ar gyfer dysgu

## Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd. Mae datblygu meddwl ymchwilgar a chael profiad o ymholiadau yn caniatáu i'r dysgwyr ymchwilio ac ystyried pob agwedd ar y Dyniaethau.

**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar archwilio gwahanol ddehongliadau.
- Bydd tystiolaeth eilaidd a ddefnyddir mewn ymholiadau yn dangos amrywiol safbwyntiau, dehongliadau a chynrychioliadau.

**Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar gydberthnasau dynol a'r effaith ar y byd naturiol.

**Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae cymdeithasau yn amrywiol ac yn lluosog.
- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar newid a pharhad.

**Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.**

- Drwy ymholi, mae dysgwyr yn meithrin eu dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth.

## Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Celf, cerddoriaeth, theatr, llenyddiaeth fel tystiolaeth ar gyfer ymholiadau ac fel canolbwynt iddynt.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Natur ymholiad fel y mae'n berthnasol i Wyddoniaeth a Thechnoleg.

### Iechyd a Lles

- Defnyddio methodoleg y Dyniaethau i ystyried agweddau ar iechyd a lles megis iechyd meddwl, iechyd corfforol ac iechyd emosiynol.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Llenyddiaeth fel tystiolaeth ar gyfer ymholiadau ac fel canolbwynt iddynt.

### Mathemateg a Rhifedd

- Defnyddio data ansoddol fel tystiolaeth ar gyfer ymholiadau.
- Casglu data sylfaenol.
- Dulliau samplu a thechnegau ystadegol sy'n gysylltiedig â dadansoddi data.
- Cynrychioli data ar ffurf graff.
- Dehongli amrywiaeth o graffiau.
- Didoli a dosbarthu.
- Adnabod tueddiadau ac anomaleddau.

# Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Fel rhan o'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr ystyried cysyniadau cwestiynu, tystiolaeth, gwerthuso, dilysrwydd, dibynadwyedd, tuedd, moeseg a barn.

## Cam cynnydd 1

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o ysgogiadau sy'n anelu at danio eu brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu
- amrywiaeth o gyfleoedd parhaus i archwilio a darganfod drwy chwarae
- amrywiaeth o gyfleoedd i ymholi a dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, gan gynnwys dysgu ffisegol a digidol
- defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau gweledol, llafar, ysgrifenedig a ffisegol
- ymholiadau sy'n canolbwyntio ar ardal leol dysgwyr, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- archwilio, arsylwi a chwestiynu
- gwneud a chofnodi arsylwadau a chanfyddiadau, gan ddefnyddio dulliau digidol a dulliau eraill.

## Cam cynnydd 2

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o ysgogiadau sy'n anelu at danio brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu
- amrywiaeth o gyfleoedd parhaus i archwilio a darganfod drwy chwarae
- amrywiaeth o gyfleoedd i ymholi a dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, gan gynnwys dysgu ffisegol a digidol
- defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau gweledol, llafar, ysgrifenedig a ffisegol
- mynd i'r afael ag ymholiadau, yn unigol ac ar y cyd
- mynd i'r afael â phrosesau cwestiynu athronyddol
- ymholiadau sy'n canolbwyntio ar ardal leol dysgwyr, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- archwilio, arsylwi a chwestiynu
- casglu, didoli a grwpio gwahanol fathau o dystiolaeth

- gwneud a chofnodi arsylwadau a chanfyddiadau, gan ddefnyddio dulliau digidol a dulliau eraill
- dod i gasgliad syml a’i egluro
- cynnal ymholiadau sy’n ymwneud ag amrywiaeth o themâu rhyngddisgyblaethol
- archwilio cwestiynau athronyddol am fywyd.

## Cam cynnydd 3

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- amrywiaeth o ysgogiadau sy’n anelu at danio eu brwdfrydedd a’u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu
- amrywiaeth o gyfleoedd i ymholi a dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, gan gynnwys dysgu ffisegol a digidol
- defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau gweledol, llafar, ysgrifenedig a ffisegol
- mynd i’r afael ag ymholiadau, yn unigol ac ar y cyd
- mynd i’r afael â phrosesau cwestiynu athronyddol
- ymholiadau sy’n canolbwyntio ar ardal leol dysgwyr, Cymru a’r byd ehangach yn y gorffennol a’r presennol.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- y fethodoleg a ddefnyddir mewn ymholiadau sy’n ymwneud â’r Dyniaethau a’r modd y gall hyn fod yn wahanol ar gyfer gwahanol ddisgyblaethau
- y gwahaniaeth rhwng ffeithiau, barn a chredoau, a’r modd y mae hyn yn cyfrannu at berthnasedd tystiolaeth a’r defnydd a wneir ohoni.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- gynnal ymholiadau sy’n ymwneud â themâu disgyblaethol a rhyng-ddisgyblaethol
- dethol dulliau ymholi sy’n briodol ar gyfer yr ymholiad penodol
- arsylwi ar wybodaeth flaenorol a’i defnyddio er mwyn creu cwestiynau priodol
- casglu tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau
- dehongli canfyddiadau er mwyn dod i gasgliad neu ffurfio barn
- nodi perthnasedd yr wybodaeth a gasglwyd
- trefnu a chyflwyno canfyddiadau yn briodol, gan ddefnyddio technegau digidol lle y bo’n briodol
- myfyrio ar ymholiadau, gofyn cwestiynau am y broses ddysgu, ac edrych ymlaen hefyd i weld beth fydd cam nesaf yr ymholiad
- myfyrio ar y defnydd a wneir o adnoddau digidol fel rhan o ymholiadau, a gwerthuso’r defnydd hwnnw.

## Cam cynnydd 4

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o ysgogiadau sy'n anelu at danio eu brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu
- amrywiaeth o gyfleoedd i ymholi a dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, gan gynnwys dysgu ffisegol a digidol
- defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau gweledol, llafar, ysgrifenedig a ffisegol
- mynd i'r afael ag ymholiadau, yn unigol ac ar y cyd
- mynd i'r afael â phrosesau cwestiynu athronyddol
- ymholiadau sy'n canolbwyntio ar ardal leol dysgwyr, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol
- cyfleoedd i hunanfyfyrio wrth iddynt ystyried y modd y gall eu hymholiad ychwanegu gwerth at eu bywyd, a'r modd y gall gyfrannu at eu hymdeimlad o'u lle yn y byd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- methodolegau priodol ar gyfer casglu data a thystiolaeth
- y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng dulliau ymholi ym mhob maes pwnc.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- gynnal ymholiadau sy'n canolbwyntio ar gwestiynau a materion rhyngddisgyblaethol yn ogystal â rhai pwnc-benodol
- arsylwi ar wybodaeth flaenorol a'i defnyddio er mwyn creu cwestiynau priodol
- casglu tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn deillio o ddysgu yn yr awyr agored, gwaith ymchwil sylfaenol ac eilaidd
- nodi perthnasedd yr wybodaeth a gasglwyd i gyd-destun penodol yr ymholiad
- defnyddio amrywiol ddulliau i gyflwyno tystiolaeth o ymholiadau, gan gynnwys defnyddio technegau digidol lle y bo'n briodol
- dehongli, cynnal dadansoddiad beirniadol a gwerthuso amrywiaeth eang o dystiolaeth ysgrifenedig, weledol, ffisegol a llafar, gan gynnwys tystiolaeth ffeithiol, athronyddol a dehongliadol
- dehongli canfyddiadau er mwyn dod i gasgliad y mae modd ei gyfiawnhau, cyflwyno'r casgliad hwnnw a'i ategu
- myfyrio ar a gwerthuso effeithiolrwydd ymholiadau
- myfyrio ar y ffordd y defnyddiwyd adnoddau digidol, a'i gwerthuso.

## Cam cynnydd 5

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- amrywiaeth o ysgogiadau sy'n anelu at danio eu brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ddychmygu a bod yn chwilfrydig, ac i archwilio, darganfod a chwestiynu
- amrywiaeth o gyfleoedd i ymholi a dysgu yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, gan gynnwys dysgu ffisegol a digidol
- defnyddio amrywiaeth o wahanol ffynonellau gweledol, llafar, ysgrifenedig a ffisegol
- mynd i'r afael ag ymholiadau, yn unigol ac ar y cyd
- mynd i'r afael â phrosesau cwestiynu athronyddol
- ymholiadau sy'n canolbwyntio ar ardal leol dysgwyr, Cymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r presennol
- cyfleoedd i hunanfyfyrio wrth iddynt ystyried y modd y gall eu hymholiad ychwanegu gwerth at eu bywyd, a'r modd y gall gyfrannu at eu hymdeimlad o'u lle yn y byd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- methodolegau priodol ar gyfer casglu data a thystiolaeth
- y nodweddion tebyg a'r gwahaniaethau rhwng dulliau ymholi ym mhob maes pwnc.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- gynnal ymholiadau sy'n canolbwyntio ar gwestiynau a materion rhyngddisgyblaethol yn ogystal â rhai pwnc-benodol
- arsylwi ar wybodaeth flaenorol a'i defnyddio er mwyn creu cwestiynau priodol
- casglu tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau yn deillio o ddysgu yn yr awyr agored, gwaith ymchwil sylfaenol ac eilaidd
- nodi perthnasedd yr wybodaeth a gasglwyd i gyd-destun penodol yr ymholiad
- defnyddio amrywiol ddulliau i gyflwyno tystiolaeth o ymholiadau, gan gynnwys defnyddio technegau digidol lle y bo'n briodol
- dehongli, cynnal dadansoddiad beirniadol a gwerthuso amrywiaeth eang o dystiolaeth ysgrifenedig, weledol, ffisegol a llafar, gan gynnwys tystiolaeth ffeithiol, athronyddol a dehongliadol
- dehongli canfyddiadau er mwyn dod i gasgliad y mae modd ei gyfiawnhau, cyflwyno'r casgliad hwnnw a'i ategu
- myfyrio ar effeithiolrwydd ymholiadau a'u gwerthuso
- myfyrio ar y ffordd y defnyddiwyd adnoddau digidol a'i gwerthuso.

**Yn ychwanegol at yr uchod yng Ngham cynnydd 5, fel rhan o’u hymholiadau disgyblaeth-penodol, dylid rhoi’r cyfle i ddysgwyr cynnal y canlynol.**

### Daearyddiaeth

- Ymholiadau sy’n gysylltiedig â digwyddiadau a themâu amgylcheddol a daearyddol, a fydd yn cynnwys gwaith maes a dysgu y tu allan i’r ystafell ddosbarth, defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol, casglu data meintiol ac ansoddol, a dadansoddi data rhifyddol mewn modd ystadegol.

### Hanes

- Ymholiadau hanesyddol a fydd yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o’r defnydd o dystiolaeth ysgrifenedig, weledol a ffisegol (gan gynnwys tystiolaeth uniongyrchol neu sylfaenol, yn ogystal â ffynonellau eilaidd), ynghyd â gwerth tystiolaeth o’r fath, a hynny er mwyn egluro sut a pham y caiff dehongliadau hanesyddol eu llunio.

### Addysg grefyddol

- Ymholiadau sy’n archwilio cwestiynau athronyddol cymhleth ynghylch ystyr a diben bywyd. Bydd hyn yn cynnwys mynd i’r afael â chwestiynau Eithaf sy’n deillio o’r byd o’u cwmpas, eu profiadau bywyd personol ac agweddau ar grefydd, ynghyd â thrwy ddefnydd o ffynonellau doethineb ac athroniaeth.

### Astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol

- Ymholiadau sy’n gysylltiedig â themâu busnes ac economaidd, gan ddefnyddio mathau o gyfryngau, data, astudiaethau achos a gwaith ymchwil i’r farchnad.
- Ymholiadau sy’n archwilio materion cymdeithasol cyfoes a dadleuol, barn a phersbectifau pobl ar faterion cymdeithasol, a’r ffordd y mae pobl yn cymryd rhan mewn cymdeithas ac yn gweithredu’n gymdeithasol.




## YR HYN SY'N BWYSIG YN Y DYNIAETHAU

**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.**

Mae dysgwyr yng Nghymru byth a beunydd yn ceisio gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas, byd y maent yn ei brofi drwy sawl persbectif. Mae'r Dyniaethau yn eu hannog i adolygu'n feirniadol y ffyrdd y mae digwyddiadau a phrofiadau'r byd hwnnw'n cael eu cynrychioli a'u dehongli, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn llunio eu persbectifau gwybodus eu hunain.

Mae dysgwyr yn deall sut y gall amrywiol ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a'u dehongliadau personol, ac ar ganfyddiadau a dehongliadau eraill. Trwy hyn cânt feithrin gwerthfawrogiad o sut y caiff naratifau a chynrychioliadau eu llunio, ac archwilio sut a pham y gall dehongliadau fod yn wahanol i'w gilydd. Wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o amrywiaeth o ddehongliadau a chynrychioliadau, byddant mewn sefyllfa well i werthuso eu dilysrwydd ac i feithrin dealltwriaeth fwy cyfannol o ddigwyddiadau, profiadau a'r byd naturiol. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr yng Nghymru i feithrin hunanymwybyddiaeth wrth iddynt greu eu safbwyntiau gwybodus eu hunain.

# Dysgu

## Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn helpu dysgwyr i ennill:

- soffistigeiddrwydd cynyddol o ran dealltwriaeth gysyniadol, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i restr o ffeithiau a mynd i'r afael â'r syniadau hynny sy'n sail i ddisgyblaethau'r Dyniaethau, a'r modd y mae'r rhain yn cysylltu â'i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau
- dyfnder gwybodaeth cynyddol, a nodweddir gan y gallu i gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth flaenorol, i feithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig, ac i ddatrys yr achosion o wrthdaro a all godi pan ddaw gwahanol safbwyntiau ynghyd
- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol, gan gynnwys defnydd o eirfa bwnc-benodol
- annibyniaeth gynyddol a gallu cynyddol i hunanreoli.

## Cam cynnydd 1

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf gyfleu fy syniadau am fy mhrofiadau fy hun.

Gallaf gydnabod y gall fy nheimladau, fy ngweithredoedd a'm barnau personol fod yn wahanol i deimladau, gweithredoedd a barnau personol pobl eraill.

Gallaf ddeall fod digwyddiadau personol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn arwyddocaol i mi.

Gallaf ffurfio a mynegi fy marn am faterion cyfarwydd a chydnabod bod fy marn yn werthfawr i mi.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i drafod fy marnau am bethau rwyf wedi'u profi gyda phobl eraill.

## Cam cynnydd 2

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf gydnabod safbwyntiau pobl eraill am ddigwyddiadau neu brofiadau cyfarwydd.

Gallaf gydnabod na fydd popeth yn aros yr un fath ac y gall amser achosi newid barn.

Gallaf ddeall fod pobl eraill yn egluro pethau mewn gwahanol ffyrdd, a gallaf ystyried rhinweddau'r safbwyntiau a'r esboniadau gwahanol hyn.

Gallaf ddisgrifio fy nheimladau, fy ngweithredoedd a’m barnau ac egluro’r modd y maent yn wahanol i deimladau, gweithredoedd a barnau pobl eraill.

Gallaf lunio barn am rywbeth sy’n bwysig i mi gan ystyried fy syniadau fy hun a syniadau pobl eraill.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i drafod fy marn a’m syniadau â phobl eraill.

## Cam cynnydd 3

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf roi tystiolaeth ar gyfer dadl neu safbwynt a chyflwyno gwrthddadleuon.

Rwyf wedi gallu dod i gasgliad am farnau, safbwyntiau a dehongliadau pobl o ffynonellau a thystiolaeth.

Gallaf gydnabod fod gan bobl wahanol farnau am arwyddocâd pobl, digwyddiadau a phrofiadau yn y gorffennol a’r presennol.

Gallaf gydnabod, derbyn a deall fod gan bobl wahanol farnau a safbwyntiau am faterion, a gallaf gymharu gwahanol ddehongliadau o’r un mater.

Gallaf ailadrodd y dystiolaeth a ddefnyddir gan bobl i ddehongli digwyddiadau a materion mewn gwahanol ffyrdd.

Rwyf wedi gallu llunio, mynegi a thrafod fy marn ar faterion, ar ôl ystyried tystiolaeth a safbwyntiau pobl eraill.

Rwyf wedi trafod fy ymatebion fy hun ac eraill i gwestiynau am fywyd, profiadau a’r byd, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gwestiynau Eithaf, ac rwyf wedi trafod y materion hyn gyda phobl nad ydynt bob amser yn rhannu’r un farn â mi.

Rwy’n deall y gall safbwyntiau a barnau pobl newid dros amser.

Gallaf egluro’r modd y cafodd rhai agweddau ar y gorffennol eu cynrychioli a’u dehongli mewn gwahanol ffyrdd.

## Cam cynnydd 4

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf egluro’r rhesymau a all fod gan bobl neu y gall pobl eu defnyddio i egluro digwyddiadau a materion o bwys mewn gwahanol ffyrdd.

Gallaf ddeall fod amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar ddehongliadau.

Gallaf egluro rhai rhesymau pam y mae gan bobl wahanol farnau am arwyddocâd pobl, digwyddiadau a phrofiadau yn y gorffennol a’r presennol, a gallaf lunio fy marn fy hun am eu harwyddocâd.

Gallaf werthuso a dod i gasgliad am ddehongliadau a safbwyntiau o amrywiaeth o ffynonellau a thystiolaeth.

Gallaf ddefnyddio amrywiaeth o ddehongliadau er mwyn llunio persbectif personol rhesymegol.

Gallaf fynegi, cyfiawnhau a thrafod fy marnau personol mewn trafodaethau ac ar bapur.

Gallaf werthfawrogi fod fy hunaniaeth, fy mhrofiadau a'm credoau yn dylanwadu ar fy nehongliadau.

Gallaf ddeall y gall dehongliadau, gan gynnwys fy rhai i, newid dros amser, yn enwedig o ystyried tystiolaeth newydd neu o ystyried y mater o bersbectif gwahanol.

Gallaf weld fod rhai dehongliadau a barnau yn fwy dilys nag eraill.

Gallaf egluro'r modd y gall dehongliadau ddylanwadu ar weithredoedd pobl, ar draddodiadau ac ar ffurfiau o fynegiant.

## Cam cynnydd 5

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf dderbyn bod cwestiynau am fywyd, profiadau a'r byd yn gymhleth ac mai ymatebion rhannol ac amhenodol a geir yn aml, a gallaf drafod hyn.

Gallaf ddadansoddi effeithiau gwahanol persbectifau mewn ymateb i gwestiynau am fywyd, profiadau a'r byd ar fy mywyd fy hun a bywydau pobl eraill.

Gallaf egluro a dadansoddi amrywiaeth o resymau pam y mae gan bobl wahanol farnau am arwyddocâd pobl, digwyddiadau a phrofiadau yn y gorffennol a'r presennol, a gallaf lunio, amddiffyn a chyfiawnhau fy marnau fy hun ar eu harwyddocâd.

Gallaf werthuso'n feirniadol ddilysrwydd dehongliadau drwy ystyried y modd y mae lle a chred yn eu llywio ac yn dylanwadu arnynt, a'r modd y gallant newid dros amser.

Rwyf wedi ymchwilio i'r hyn sy'n dylanwadu ar fy nehongliadau ac yn eu llywio, a gallaf egluro'r modd y mae cyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol yn dylanwadu ar fy safbwyntiau.

Gallaf werthfawrogi'r lensys amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio i weld y byd a chydnabod cyfyngiadau fy mhersbectif personol.

Rwyf wedi dechrau herio fy ngwerthoedd a'm persbectifau personol.

Gallaf werthuso hygrededd a dilysrwydd amrywiaeth o bersbectifau a defnyddio'r gwerthusiad hwn er mwyn helpu i ddatblygu a chyfiawnhau fy marn gwybodus a chytbwys fy hun am fywyd, digwyddiadau a phrofiadau.

Gallaf integreiddio persbectifau newydd neu ddiwygiedig i'm ffordd o feddwl.



Gallaf ddod i gasgliad am ddehongliadau cynnil o ffynonellau a thystiolaeth.

Rwyf wedi archwilio'r modd y mae dehongliadau a safbwyntiau pobl wedi arwain at weithredoedd penodol.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i lunio, mynegi a thrafod barn personol am amrywiaeth o faterion o bwys ar draws y Dyniaethau.

Gallaf lunio, cyfiawnhau ac ategu fy nehongliadau personol.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i drafod, dadansoddi a gwerthuso'r dehongliadau a gynigir gan eraill.

Rwyf wedi archwilio cymhlethdod materion lleol, cenedlaethol a byd-eang, a mynd i'r afael â phersbectifau lluosog mewn perthynas â'r materion hyn.

Rwyf wedi defnyddio gwahanol persbectifau i archwilio materion.

Rwyf wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol dros ystod o bynciau llosg cyfoes a dadleuol.

**Pan fydd y dysgwyr yn mynd i'r afael ag ymholiadau disgyblaeth-penodol, dylid ychwanegu'r canlynol at Gam cynnydd 5.**

**Daearyddiaeth**

Gallaf ddeall a disgrifio'r modd y mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar ddehongliadau daearyddol.

Gallaf egluro'r modd y gall dehongliadau o le, tirweddau, amgylcheddau a diwylliannau newid dros amser.

Gallaf ddeall sut y mae dehongliadau pobl o le, tirweddau, amgylcheddau a diwylliannau yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.

Gallaf fynegi a chyfiawnhau fy safbwyntiau am amrywiaeth o leoedd, tirweddau, amgylcheddau a diwylliannau yng Nghymru a'r byd ehangach, a deall y gall fy safbwyntiau newid dros amser.

**Hanes**

Gallaf egluro sut a pham y mae dehongliadau o ddigwyddiadau hanesyddol wedi newid dros amser ac egluro pam y mae haneswyr yn llunio gwahanol ddehongliadau o ddigwyddiadau.

Gallaf lunio, mynegi ac ategu fy nehongliadau personol o ddigwyddiadau hanesyddol.

Gallaf ddeall sut y gall fy hunaniaeth, fy mhrofiadau, fy safbwyntiau a'm credoau effeithio ar fy nehongliadau personol a'm dealltwriaeth o ddigwyddiadau hanesyddol.

Gallaf addasu neu newid fy nehongliadau o ddigwyddiadau hanesyddol yng ngoleuni tystiolaeth newydd.

**Addysg grefyddol**

Gallaf gynnal gwerthusiad beirniadol o agweddau penodol ar grefydd a bydolygon, gan ystyried gwahanol ddehongliadau o ddysgeidiaethau crefyddol a'u heffaith arnaf i, ar unigolion eraill, ar gymdeithas leol ac ar gymdeithas fyd-eang.

Gallaf ddadansoddi, dehongli a gwerthuso haenau o ystyr mewn mynegiad crefyddol, e.e. symbolaeth, pererindod, arferion, defodau, seremonïau, llenyddiaeth, celf, dawns a cherddoriaeth.

Rwyf wedi gallu llunio, mynegi ac ategu fy marn ar amrywiaeth o gwestiynau Eithaf.

Gallaf fynegi a chyfiawnhau fy nheimladau ag uniondeb ac aeddfedrwydd, gan ddangos yn glir sut mae'r hyn rwyf wedi'i ddysgu wedi effeithio ar fy nghredoau a'm gwerthoedd.

**Astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol**

Gallaf ddeall sut y gall ideolegau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ddylanwadu ar fy nehongliadau personol ac ar ddehongliadau pobl eraill o rôl a swyddogaeth busnes mewn cymdeithas.

Gallaf ddeall fod amrywiaeth o ddehongliadau o faterion cymdeithasol yn llywio'r modd y mae cymdeithas yn cael ei strwythuro.

Rwyf wedi mynd i'r afael ag amrywiaeth o safbwyntiau a phersbectifau gwahanol ar faterion cymdeithasol, gan ddefnyddio'r mewnwelediadau hyn i gryfhau fy mhenderfyniadau a'm barnau.

# Cynllunio ar gyfer dysgu

## Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae’r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig ar draws Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda’i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy’n fwy holistaidd.

**Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i’r byd, i’w orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol, drostynt eu hunain.**

- Deall y gall dehongliadau a safbwyntiau ddatblygu o ymholiadau penodol.
- Dehongliadau a gyflwynir gan ffynonellau a thystiolaeth benodol.

**Mae’r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.**

- Dehongliadau a safbwyntiau ar y gydberthynas rhwng pobl a’r byd naturiol, e.e. newid yn yr hinsawdd.

**Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.**

- Dehongliadau hanesyddol o bobl a digwyddiadau.
- Dehongliadau sy’n gysylltiedig ag ideolegau gwleidyddol.
- Dehongliadau sy’n gysylltiedig â chrefyddau a bydolygon.

**Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.**

- Safbwynt unigolyn o’i rôl a’i gyfrifoldeb personol fel dinesydd.
- Gwahanol ddehongliadau o’r heriau a’r cyfleoedd allweddol sy’n wynebu dynoliaeth.

## Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Mae'r celfyddydau mynegiannol yn gweithredu fel cyfryngau ar gyfer mynegi dehongliadau a safbwyntiau.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Dehongliadau o ddarganfyddiadau gwyddonol a'u heffaith ar y byd.
- Canfyddiadau o'r byd naturiol.

### Iechyd a Lles

- Sut mae pobl yn canfod ac yn dehongli digwyddiadau a phrofiadau mewn gwahanol ffyrdd.
- Sut mae dinasyddiaeth yn gysylltiedig â dylanwadau cymdeithasol a sut mae dylanwadau cymdeithasol yn effeithio ar ddinasyddiaeth.
- Sut mae gwerthoedd a normau unigolion yn creu hunaniaeth gyfunol a gwerthoedd cyfunol.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Llenyddiaeth fel ffordd o fynegi dehongliadau.
- Hunaniaeth ac iaith.

### Mathemateg a Rhifedd

- Dehongli data, h.y. tueddiadau economaidd.

# Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Fel rhan o'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr ystyried cysyniadau gan gynnwys canfod ystyr, cwestiynau Eithaf a chwestiynau athronyddol, cynrychioliadau, persbectifau, dehongliadau hanesyddol, arwyddocâd, dilysrwydd a llunio barnau.

## Cam cynnydd 1

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn eu cymuned leol er mwyn datblygu eu persbectif personol ar eu hardal leol
- ysgogiadau sy'n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig am eu hardal leol, i ymwneud â hi a'i harchwilio
- amrywiaeth o gyfleoedd i lunio a mynegi barnau
- amrywiaeth o gyfleoedd i glywed a thrafod barnau amgen
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â dehongliadau o faterion, e.e. drwy ymwneud â siaradwyr gwadd a thrwy ymweld â lleoliadau o ddiddordeb
- cael gafael ar ddehongliadau a phersbectifau drwy amrywiaeth o gyfryngau ffisegol a digidol
- amrywiaeth o straeon symbolaidd, arferion, arteffactau, celf, dawns, drama, cerddoriaeth a bwyd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- beth yw barn, a chydnabod bod ganddynt hwy farnau a bod gan bobl eraill farnau.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- drafod a mynegi eu barnau am eu profiadau neu faterion cyfarwydd
- cydnabod bod eu barnau, a barnau pobl eraill, yn werthfawr
- defnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau i gyfleu arsylwadau, meddyliau a theimladau.

## Cam cynnydd 2

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn eu cymuned leol er mwyn datblygu eu persbectif personol ar eu hardal leol
- ysgogiadau sy'n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig am faterion cymhleth a dadleuol, i fynd i'r afael â nhw ac i'w harchwilio er mwyn gwneud synnwyr o'r byd
- amrywiaeth o gyfleoedd i lunio a mynegi barnau
- amrywiaeth o gyfleoedd i glywed a thrafod barnau amgen
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â dehongliadau o faterion, e.e. drwy ymwneud â siaradwyr gwadd a thrwy ymweld â lleoliadau o ddiddordeb

- cael gafael ar ddehongliadau a phersbectifau drwy amrywiaeth o gyfryngau ffisegol a digidol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â chwestiynau Eithaf
- amrywiaeth o straeon symbolaidd, arferion, arteffactau, celf, dawns, drama, cerddoriaeth a bwyd.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- gynnig eu syniadau eu hunain a chreu cysylltiadau
- archwilio, darganfod a thrafod materion a digwyddiadau o fewn disgyblaethau'r Dyniaethau ac ar draws y disgyblaethau hynny
- llunio a mynegi eu barn eu hunain ar faterion
- cyfleu eu harsylwadau, meddyliau a theimladau gan ddefnyddio geiriau, arwyddion neu symbolau
- cydnabod bod gan bobl wahanol farnau a safbwyntiau ac y gallant fod yn wahanol i'w barnau a'u safbwyntiau personol.

## Cam cynnydd 3

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- cyfleoedd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn eu cymuned leol er mwyn datblygu eu persbectif personol ar eu hardal leol
- ysgogiadau sy'n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig am faterion cymhleth a dadleuol, i fynd i'r afael â nhw ac i'w harchwilio er mwyn gwneud synnwyr o'r byd
- amrywiaeth o gyfleoedd i lunio a mynegi barnau
- amrywiaeth o gyfleoedd i glywed a thrafod barnau amgen
- trafodaeth gydweithredol am amrywiaeth eang o safbwyntiau a dehongliadau amrywiol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â dehongliadau o faterion, e.e. drwy ymwneud â siaradwyr gwadd a thrwy ymweld â lleoliadau o ddiddordeb
- cael gafael ar ddehongliadau a phersbectifau drwy amrywiaeth o gyfryngau ffisegol a digidol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â chwestiynau Eithaf
- amrywiaeth o straeon symbolaidd, arferion, arteffactau, celf, dawns, drama, cerddoriaeth a bwyd.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- bod gan bobl wahanol farnau ac ailadrodd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r barnau hyn
- y modd y gall ffynonellau a thystiolaeth ddarparu dehongliadau
- y modd y defnyddir ffynonellau a thystiolaeth i lunio a chyfiawnhau dehongliadau pobl.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- archwilio materion lleol, cenedlaethol a byd-eang, a mynd i’r afael â phersbectifau lluosog mewn perthynas â’r materion hyn
- mynd i’r afael ag amrywiaeth o faterion a chymharu gwahanol ddehongliadau o’r un digwyddiad neu fater, ac ystyried y modd y mae gan bobl farnau gwahanol am arwyddocâd pobl, digwyddiadau neu newidiadau
- llunio, mynegi a thrafod barnau
- mynd i’r afael â dehongliadau a gyflwynir mewn ffynonellau, a defnyddio’r dehongliadau hyn i ategu eu dehongliadau personol
- archwilio haenau o ystyr o fewn cynrychioliadau symbolaidd.

## Cam cynnydd 4

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i fynd i’r afael ag amrywiaeth o faterion yn eu cymuned leol er mwyn datblygu eu persbectif personol ar eu hardal leol
- ysgogiadau sy’n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig am faterion cymhleth a dadleuol, i fynd i’r afael â nhw ac i’w harchwilio er mwyn gwneud synnwyr o’r byd
- amrywiaeth o gyfleoedd i lunio a mynegi barnau
- amrywiaeth o gyfleoedd i glywed a thrafod barnau amgen
- trafodaeth gydweithredol am amrywiaeth eang o safbwyntiau a dehongliadau amrywiol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i’r afael â dehongliadau o faterion, e.e. drwy ymwneud â siaradwyr gwadd a thrwy ymweld â lleoliadau o ddiddordeb
- cael gafael ar ddehongliadau a phersbectifau drwy amrywiaeth o gyfryngau ffisegol a digidol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i’r afael â chwestiynau Eithaf
- amrywiaeth o straeon symbolaidd, arferion, arteffactau, celf, dawns, drama, cerddoriaeth a bwyd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- yr hyn sy’n gwneud dehongliad yn ddilys
- y modd y caiff dehongliadau eu llywio a’u ffurfio
- y modd y mae’r broses o ddethol tystiolaeth yn dylanwadu ar eu dehongliadau a’u barnau personol.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- archwilio cymhlethdod materion lleol, cenedlaethol a byd-eang, a mynd i’r afael â phersbectifau lluosog mewn perthynas â’r materion hyn
- archwilio gwahanol ddehongliadau o bobl, cymdeithasau, cyfnodau amser a digwyddiadau; rôl busnes; bydolygon crefyddol ac anghrefyddol, credoau, gwerthoedd, ffynonellau a thestunau cysegredig; lleoedd, tirweddau, diwylliannau ac amgylcheddau

- llunio, mynegi a thrafod barnau personol am amrywiaeth o faterion ar draws y Dyniaethau
- manteisio ar amrywiaeth o ddehongliadau a barnau er mwyn llunio persbectif personol rhesymegol
- defnyddio gwahanol persbectifau i archwilio materion
- mynd i'r afael â'r dehongliadau a geir mewn amrywiaeth o ffynonellau, a'u defnyddio er mwyn ategu neu wrthbrofi eu dehongliadau a'u hymatebion personol
- archwilio'r modd y mae gan bobl wahanol ddehongliadau mewn perthynas ag arwyddocâd digwyddiadau, pobl, newidiadau a phrofiadau
- archwilio haenau o ystyr o fewn cynrychioliadau symbolaidd.

## Cam cynnydd 5

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn eu cymuned leol er mwyn datblygu eu persbectif personol ar eu hardal leol
- ysgogiadau sy'n tanio eu brwdfrydedd ac yn eu hysbrydoli i fod yn chwilfrydig am faterion cymhleth a dadleuol, i fynd i'r afael â nhw ac i'w harchwilio er mwyn gwneud synnwyr o'r byd
- amrywiaeth o gyfleoedd i lunio a mynegi barnau
- amrywiaeth o gyfleoedd i glywed a thrafod barnau amgen
- trafodaeth gydweithredol am amrywiaeth eang o safbwyntiau a dehongliadau amrywiol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â dehongliadau o faterion, e.e. drwy ymwneud â siaradwyr gwadd a thrwy ymweld â lleoliadau o ddiddordeb
- cael gafael ar ddehongliadau a phersbectifau drwy amrywiaeth o gyfryngau ffisegol a digidol
- amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â chwestiynau Eithaf
- amrywiaeth o straeon symbolaidd, arferion, arteffactau, celf, dawns, drama, cerddoriaeth a bwyd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- yr ystod o ffactorau sy'n cyfrannu at ddilysrwydd dehongliadau
- y modd y caiff dehongliadau eu llywio a'u ffurfio
- y modd y mae'r broses ddethol a barnau am ddilysrwydd tystiolaeth yn dylanwadu ar eu dehongliadau a'u barnau personol.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- archwilio cymhlethdod materion lleol, cenedlaethol a byd-eang a mynd i'r afael â phersbectifau lluosog mewn perthynas â'r materion hyn
- archwilio ystod eang o wahanol ddehongliadau o bobl, cymdeithasau, cyfnodau amser a digwyddiadau; rôl busnes; bydolygon, credoau, gwerthoedd, ffynonellau a thestunau cysegredig crefyddol ac anghrefyddol; lleoedd, tirweddau, diwylliannau ac amgylcheddau

- ymchwilio i a deall yr hyn sy'n dylanwadu ar eu dehongliadau a'u barnau personol ac yn eu llywio, a manteisio ar amrywiaeth o ddehongliadau a barnau er mwyn llunio persbectif personol rhesymegol
- archwilio sut a pham y caiff dehongliadau eu llywio a'u ffurfio a sut y gallant newid dros amser
- archwilio sut a pham y mae gan bobl wahanol ddehongliadau mewn perthynas ag arwyddocâd digwyddiadau, pobl, newidiadau a phrofiadau
- gwerthuso dilysrwydd a hygrededd dehongliadau drwy drafod y modd y caiff dehongliadau eu llywio a'r modd y gallant newid dros amser
- archwilio'r modd y mae dehongliadau a safbwyntiau pobl eraill wedi effeithio ar eu gweithredoedd
- llunio, mynegi a thrafod barnau personol ar amrywiaeth o faterion ar draws y Dyniaethau
- trafod, dadansoddi a gwerthuso'r dehongliadau a gynigir gan eraill
- defnyddio gwahanol persbectifau i archwilio materion o bwys
- archwilio persbectifau lluosog a gweledigaethau amgen ar gyfer y dyfodol
- mynd i'r afael â'r dehongliadau a geir mewn amrywiaeth eang o ffynonellau, a'u defnyddio er mwyn cefnogi ac amddiffyn eu dehongliadau a'u hymatebion personol.

**Wrth gynllunio dysgu disgyblaeth-penodol, dylai'r canlynol gael eu hychwanegu at yr uchod yng Ngham cynnydd 5.**

**Daearyddiaeth**

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am wahanol ddehongliadau o themâu daearyddol
- sut y gall dehongliadau amrywio gan ddibynnu ar bethau gan gynnwys diwylliant, statws cymdeithasol-economaidd, oedran, rhywedd, addysg, profiadau teithio, unigolion
- sut mae cynrychioliadau o le, diwylliannau ac amgylcheddau yn newid dros amser, e.e. mewn daearyddiaeth ddiwylliannol, sut y caiff lle, amgylcheddau a diwylliannau eu cynrychioli drwy gerddoriaeth, llenyddiaeth, ffilmiau, ac ati
- sut mae canfyddiadau pobl yn dylanwadu ar y ffordd y maent yn rhyngweithio â lleoedd, amgylcheddau a diwylliannau
- arwyddocâd gwahanol safbwyntiau a chanfyddiadau o ran deall newidiadau mewn amgylcheddau ffisegol a dynol ar bob graddfa o Gymru i'r byd ehangach.

### Hanes

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- sut y cafodd pobl a digwyddiadau'r gorffennol yng Nghymru a'r byd ehangach eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd
- sut a pham y mae haneswyr wedi llunio eu dehongliadau
- sut a pham y mae haneswyr yn llunio gwahanol ddehongliadau o'r un digwyddiad neu berson
- sut mae gwahanol safbwyntiau a dehongliadau wedi effeithio ar ddigwyddiadau mewn hanes.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- gymhwyso dulliau gwerthuso priodol wrth ystyried dilysrwydd dehongliadau hanesyddol.

### Addysg grefyddol

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am ganfyddiadau, dehongliadau a chynrychioliadau o fydolygon, credoau ac arferion, symbolaeth, pererindod, arferion, defodau, seremonïau, llenyddiaeth, celf, traddodiadau, dawns a cherddoriaeth crefyddol ac anghrefyddol
- am ddehongli a gwerthuso testunau, ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod a thystiolaeth arall.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- gyfleu credoau, syniadau, gwerthoedd a phrofiadau personol mewn ffordd glir a chydlynus ond gan barchu hawliau eraill i fod yn wahanol.

### Astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am ideolegau a phersbectifau gwleidyddol, economaidd a busnes
- y cyfraniadau a wnaed gan unigolion busnes yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a ledled y byd yn y gorffennol a'r presennol
- sut mae penderfyniadau economaidd busnesau a diwydiannau wedi effeithio ar brofiadau a phersbectifau
- am ddehongliadau o faterion cymdeithasol ac anghydraddoldeb cymdeithasol
- safbwyntiau a dehongliadau o gymdeithas drwy 'lensys' hunaniaeth, amlddiwylliant, rhywedd a rhywioldeb.




## YR HYN SY’N BWYSIG
## YN Y DYNIAETHAU

**Mae’r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.**

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol, a deall sut a pham mae’n newid. Yn ei dro, bydd hwn yn helpu dysgwyr i adnabod beth sy’n gwneud lle yn wahanol ac i ddatblygu ymwybyddiaeth o’r rhyng-gysylltiadau sydd rhwng pobl a’u hamgylchedd. O ganlyniad, mae dysgwyr mewn sefyllfa well i wneud cysylltiadau rhwng y gorffennol a’r presennol ac i ddychmygu dyfodol posibl.

Drwy ddeall amrywiaeth o brosesau ffisegol, a’u hachosion a’u heffeithiau, bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi sut mae lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn newid yng Nghymru a’r byd ehangach. Byddant hefyd yn meithrin eu dealltwriaeth o’r ffordd y mae gweithredoedd dynol yn y gorffennol a’r presennol yn effeithio ar y byd naturiol a sut mae’r byd naturiol yn effeithio ar fodau dynol. Bydd hyn yn dwysáu ymwybyddiaeth dysgwyr o’r modd y mae gweithredoedd dynol yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn annog dysgwyr yng Nghymru, fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, i ddeall eu heffaith nhw eu hunain ar y byd naturiol.

Bydd dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o gredoau ac athroniaethau am y byd naturiol, a sut y maent yn dylanwadu ar y modd y mae’r byd â’i bobl yn rhyngweithio. Byddant yn dysgu hefyd ystyried sut y gall profiad o’r byd naturiol gyfrannu at eu datblygiad ysbrydol a’u lles, ac ennyn ynddynt ymdeimlad o le ac ymdeimlad o berthyn, fel sy’n cael ei ymgorffori yn y gair *cynefin*.

# Dysgu

## Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw’r sail ar gyfer datblygu’r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn helpu dysgwyr i ennill:

- soffistigeiddrwydd gwell o ran dealltwriaeth gysyniadol, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i restr o ffeithiau a mynd i’r afael â’r syniadau hynny sy’n sail i ddisgyblaethau’r Dyniaethau, a’r modd y mae’r rhain yn cysylltu â’i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau
- gwybodaeth ddyfnach, a nodweddir gan y gallu i gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth flaenorol, i feithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig, ac i ddatrys yr achosion o wrthdaro a all godi pan ddaw gwahanol safbwyntiau ynghyd
- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol, gan gynnwys defnydd o eirfa bwnc-benodol
- annibyniaeth gynyddol a gallu cynyddol i hunanreoli.

## Cam cynnydd 1

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf gydnabod ble mae lleoedd a sut y maent yn wahanol i’w gilydd ac yn debyg i’w gilydd.

Gallaf gyfleu fy nheimladau am y byd naturiol.

## Cam cynnydd 2

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddisgrifio nodweddion ffisegol penodol lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yng Nghymru a’r byd ehangach.

Gallaf adnabod rhai credoau crefyddol ac anghrefyddol am y byd naturiol a’r modd y gallai hyn ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â’r byd.

Gallaf adnabod rhai gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol.

Gallaf ddisgrifio’r modd y mae gweithredoedd pobl a’r byd naturiol yn effeithio ar ei gilydd, a hynny yn y gorffennol a’r presennol.

## Cam cynnydd 3

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddisgrifio a lleoli lleoedd, amgylcheddau a thirweddau, gan gynnwys nodweddion a thirffurfiau nodedig, gan ddefnyddio sgiliau mapio lle y bo hynny'n briodol.

Gallaf ddisgrifio patrymau dosbarthu nodweddion yn y byd naturiol a dechrau rhoi rhesymau dros y patrymau hyn.

Gallaf ddangos dealltwriaeth o achosion ac effeithiau y digwyddiadau a phrosesau ffisegol sy'n llywio lleoedd, amgylcheddau, tirweddau a phobl.

Gallaf ddisgrifio'r modd y mae gweithredoedd dynol wedi arwain at barhad a newid yn y byd naturiol yn ystod gwahanol gyfnodau hanes.

Gallaf ddisgrifio'r modd y mae prosesau ffisegol wedi effeithio ar gymdeithasau dynol mewn hanes a'r modd y maent wedi arwain at newid a pharhad.

Gallaf ddangos dealltwriaeth o'r cysyniad o gynaliadwyedd.

Gallaf ddisgrifio amrywiaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol am y byd naturiol.

Gallaf ddisgrifio rhai arferion crefyddol ac anghrefyddol sy'n gysylltiedig â gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol.

Gallaf ddisgrifio'r modd y gall credoau effeithio ar weithredoedd dynol yn y byd naturiol.

Gallaf gyfleu fy safbwyntiau a'm teimladau am y byd naturiol a'r rhan rwy'n ei chwarae yn y byd hwnnw.

## Cam cynnydd 4

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf egluro nodweddion cymhleth lleoedd, amgylcheddau a thirweddau ar amrywiaeth o raddfeydd, gan ddefnyddio sgiliau map lle y bo hynny'n briodol.

Gallaf ddisgrifio dosbarthiad a phatrymau cyfnewidiol dros amser mewn perthynas â lleoedd, gofodau ac amgylcheddau, a'r cysylltiadau sydd rhyngddynt.

Gallaf egluro achosion ac effeithiau newid ar leoedd, amgylcheddau, tirweddau a phobl, dros amser, gan ystyried rhyng-gysylltiadau rhwng ffactorau.

Gallaf egluro patrymau parhad a newid yn y byd naturiol yn ystod gwahanol gyfnodau hanes.

Gallaf egluro arwyddocâd effaith prosesau ffisegol ar gymdeithasau dynol yn y presennol a'r gorffennol.

Gallaf ddeall y cyfrifoldeb sydd ar bobl i greu byd naturiol cynaliadwy.

Gallaf archwilio ystod eang o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol am y byd naturiol, a'r cyfrifoldeb sydd gan y ddynoliaeth i'w warchod.

Gallaf ddisgrifio amrywiaeth o arferion crefyddol ac anghrefyddol sy'n gysylltiedig â gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol.

Gallaf egluro rhai bydolygon crefyddol ac anghrefyddol am natur bywyd a marwolaeth, a chredoau am fywyd ar ôl marwolaeth a'r cysyniad o Realiti Eithaf.

## Cam cynnydd 5

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf roi disgrifiadau ac esboniadau cynhwysfawr o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, gan gynnwys nodweddion a thirffurfiau nodedig, a chymhwyso'r wybodaeth hon at amgylcheddau anghyfarwydd.

Gallaf greu mapiau, a dethol a rhoi ar waith amrywiaeth o sgiliau mapio cymhleth yn briodol er mwyn canfod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn gywir, gan gynnwys defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol digidol soffistigedig.

Gallaf esbonio patrymau dosbarthu nodedig nodweddion yn y byd naturiol, a hynny ar wahanol raddfeydd.

Gallaf ddethol a gwerthuso addasrwydd y dulliau digidol a'r dulliau eraill a ddefnyddir i ganfod lleoedd, amgylcheddau, tirweddau a phatrymau dosbarthu gofodol.

Gallaf werthuso cost amgylcheddol gweithgarwch busnes ac awgrymu strategaethau o'r modd y gall gwahanol fusnesau ymateb i faterion amgylcheddol.

Gallaf egluro'n gynhwysfawr amrywiaeth eang o brosesau ffisegol sydd wedi cyfrannu at ffurfio'r byd naturiol.

Gallaf egluro a gwerthuso'n feirniadol y cysylltiadau rhwng achosion ac effeithiau newid ar leoedd, amgylcheddau, tirweddau a phobl.

Gallaf werthuso'n feirniadol gynaliadwyedd strategaethau i leihau risg ac effaith prosesau ffisegol ar bobl a'u hamgylchedd.

Gallaf werthuso ac egluro patrymau parhad a newid yn y berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd yn y presennol a'r gorffennol, a'r effaith a gaiff y naill ar y llall dros ystod o gyd-destunau ac ar amrywiaeth o raddfeydd, a gallaf awgrymu strategaethau posibl i leihau'r effeithiau hyn.

Gallaf ddeall ac egluro'r modd y gall amgylcheddau fod o dan fygythiad.

Gallaf ddeall ac egluro canlyniadau byw mewn ffordd anghynaliadwy ac awgrymu enghreifftiau posibl o ddyfodol cynaliadwy.

Gallaf werthuso'n feirniadol ystod o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol am natur y byd naturiol, a'r cyfrifoldeb sydd gan y ddynoliaeth i'w warchod.

Gallaf werthuso amrywiaeth o arferion crefyddol ac anghrefyddol sy’n gysylltiedig â gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol.

Gallaf egluro a gwerthuso ystod o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol sylweddol am y cysyniadau o Realiti Eithaf, natur bywyd a marwolaeth, a chredoau am fywyd ar ôl marwolaeth.

# Cynllunio ar gyfer dysgu

## Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

**Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng pobl a'r byd naturiol.

**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.**

- Dehongliadau o newidiadau i'r byd naturiol.
- Dehongliadau o gyfrifoldeb dynol tuag at y byd naturiol.

**Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.**

- Effaith gymharol gwahanol gymdeithasau ar wahanol adegau ar y byd naturiol.
- Sut mae'r byd naturiol wedi effeithio ar esblygiad cymdeithasau dynol ac wedi cyfrannu at newid.

**Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.**

- Yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.
- Rôl a chyfrifoldeb unigolion wrth ddiogelu'r amgylchedd.

## Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Y byd naturiol fel ysgogiad ar gyfer y Celfyddydau Mynegiannol.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Rôl gwyddoniaeth wrth egluro'r byd o'n cwmpas a sut y cafodd ei ffurfio.
- Effaith datblygiadau gwyddonol a thechnolegol ar y byd naturiol.
- Pethau byw a'u lle yn y byd naturiol.

### Iechyd a Lles

- Cyfraniad y byd naturiol at ein hiechyd a'n lles.
- Ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd a lles.
- Cynhyrchu bwyd a chynaliadwyedd.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Y byd naturiol fel ysgogiad ar gyfer llenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol.
- Empathi a sensitifrwydd diwylliannol.

### Mathemateg a Rhifedd

- Defnyddio offer priodol i fesur yn gywir.
- Graddfa.
- Amser a threfn gronolegol.

# Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Fel rhan o’r datganiad hwn o’r hyn sy’n bwysig, dylai dysgwyr ystyried cysyniadau sy’n gysylltiedig â lle, gofod, yr amgylchedd, prosesau ffisegol, arwyddocâd, achos ac effaith, a newid a pharhad.

## Cam cynnydd 1

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- dysgu yn yr awyr agored, sy’n cynnwys archwilio a phrofiadau uniongyrchol o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, er mwyn deall sut mae’r byd naturiol yn gweithio (dylai hyn gynnwys ardal leol y dysgwr ei hun)
- cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a gwerthfawrogiad ohono
- cyfleoedd i brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod, ac i fyfyrio ar y byd naturiol a’u cysylltiad ag ef.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- adnabod nodweddion penodol lleoedd, amgylcheddau a thirweddau drwy archwiliadau uniongyrchol
- cyfleu eu teimladau a’u syniadau am nodweddion lleoedd cyfarwydd
- adnabod newid o fewn lleoedd cyfarwydd ar wahanol adegau o’r flwyddyn
- adnabod rhai o’r effeithiau y mae pobl yn eu cael ar leoedd, amgylcheddau a thirweddau
- mynegi eu teimladau tuag at y byd naturiol.

## Cam cynnydd 2

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- dysgu yn yr awyr agored, sy’n cynnwys archwilio a phrofiadau uniongyrchol o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, er mwyn deall sut mae’r byd naturiol yn gweithio (dylai hyn gynnwys ardal leol y dysgwr ei hun)
- cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a gwerthfawrogiad ohono
- cyfleoedd i brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod, ac i fyfyrio ar y byd naturiol a’u cysylltiad ag ef.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- ganfod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau
- cydnabod nodweddion ffisegol penodol amgylcheddau, ac adnabod y nodweddion tebyg a’r gwahaniaethau rhyngddynt
- cydnabod bod lleoedd yn newid dros amser ac awgrymu rhai rhesymau dros hyn
- dangos ymwybyddiaeth o rai bydolygon crefyddol ac anghrefyddol am y byd naturiol, gan gynnwys am darddiadau’r byd naturiol

- disgrifio'r modd y mae credoau pobl yn dylanwadu ar y ffordd y maent yn ymddwyn tuag at y byd
- disgrifio rhai o'r effeithiau y mae pobl fel defnyddwyr a chynhyrchwyr yn eu cael ar leoedd, amgylcheddau a thirweddau
- disgrifio'r modd y mae'r byd naturiol wedi effeithio ar bobl a'u hamgylcheddau yn y gorffennol a'r presennol
- mynegi eu teimladau tuag at y byd naturiol.

## Cam cynnydd 3

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- dysgu yn yr awyr agored, sy'n cynnwys archwilio a phrofiadau uniongyrchol o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, er mwyn deall sut mae'r byd naturiol yn gweithio (dylai hyn gynnwys ardal leol y dysgwr ei hun)
- cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a gwerthfawrogiad ohono
- cyfleoedd i brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod, ac i fyfyrio ar y byd naturiol a'u cysylltiad ag ef.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- ddangos dealltwriaeth o nodweddion ffisegol lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yng Nghymru a'r byd ehangach
- defnyddio mapiau a diagramau â nodiadau arnynt, lle y bo'n briodol
- creu mapiau syml a defnyddio amrywiaeth o sgiliau mapio er mwyn canfod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn gywir, gan ddefnyddio dulliau digidol a dulliau eraill
- disgrifio dosbarthiad a phatrymau cyfnewidiol dros amser mewn perthynas â lleoedd, gofodau ac amgylcheddau, gan ddefnyddio sgiliau mapio priodol, rhai digidol ac eraill
- adnabod digwyddiadau arwyddocaol yn y gorffennol a disgrifio'r modd y maent wedi newid lleoedd, amgylcheddau a thirweddau
- adnabod sut mae'r byd naturiol wedi effeithio ar bobl yn y gorffennol a'r presennol mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol
- egluro'r modd y mae prosesau ffisegol wedi cyfrannu at ffurfio tirweddau ffisegol
- disgrifio ystyr cynaliadwyedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau, megis y modd y gall ein gweithredoedd ni fygwth amgylcheddau os na fyddwn yn byw mewn modd cynaliadwy, yng Nghymru a'r byd ehangach
- disgrifio ystod o gredoau crefyddol ac anghrefyddol am y byd naturiol a'r modd y gallai'r rhain ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn ffurfio credoau ac yn rhyngweithio â'r byd
- disgrifio'r credoau crefyddol ac anghrefyddol am y rhyng-gysylltiad rhwng pobl a'r amgylchedd ac am gyfrifoldeb dynol am y byd naturiol
- cyfleu eu teimladau a'u safbwyntiau am y ffordd y maent yn rhyngweithio â'r byd naturiol.

## Cam cynnydd 4

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- dysgu yn yr awyr agored, sy’n cynnwys archwilio a phrofiadau uniongyrchol o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, er mwyn deall sut mae’r byd naturiol yn gweithio (dylai hyn gynnwys ardal leol y dysgwr ei hun)
- cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a gwerthfawrogiad ohono
- cyfleoedd i brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod, ac i fyfyrio ar y byd naturiol a’u cysylltiad ag ef.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am ystod o themâu a chysyniadau, gan gynnwys newid amaethyddol a diwydiannol, newid hinsawdd, prynwriaeth, cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol, cyflogaeth, natur, peryglon a thrychinebau naturiol, mudo, mythau, chwedlau a straeon, pererindod, llygredd, poblogaeth, prinder adnoddau, lleoedd cysegredig, aneddiadau, masnach, rhyfel a gwrthdaro
- am effaith busnesau a weithredoedd pobl, yn eu rôl fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, ar y byd naturiol
- am ddylanwad grwpiau a sefydliadau gwleidyddol ar y byd naturiol
- achosion ac effeithiau y prosesau ffisegol sy’n llywio lleoedd, amgylcheddau a thirweddau
- achosion ac effeithiau newid i leoedd, amgylcheddau, tirweddau a phobl dros amser, gan gynnwys ffactorau economaidd, gwleidyddol, technolegol a chymdeithasol
- bod ystod o brosesau ffisegol yn rhyngweithio er mwyn datblygu tirweddau penodol ar amrywiaeth o raddfeydd
- am gynaliadwyedd yng nghyd-destun strategaethau i leihau risg ac effaith prosesau ffisegol ar bobl a’u hamgylchedd
- am amrywiaeth o ffactorau sydd wedi cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd yng Nghymru a’r byd ehangach, ac sy’n parhau i gael effeithiau o’r fath.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- roi disgrifiadau manwl o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, gan gynnwys nodweddion a thirffurfiau nodedig, a nodi’r mathau o gymunedau dynol a natur y cymunedau hynny
- creu a defnyddio amrywiaeth o fapiau, a rhoi sgiliau mapio ar waith er mwyn canfod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn gywir, a hynny drwy ddulliau digidol a dulliau eraill, gan gynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol
- disgrifio ac egluro patrymau a rhesymau dros newidiadau o ran dosbarthiad gofodol aneddiadau a nodweddion, megis mudo, poblogaeth neu ddiwydianeiddio
- egluro amrywiaeth o arferion crefyddol ac anghrefyddol sy’n gysylltiedig â gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol
- disgrifio rhai bydolygon crefyddol ac anghrefyddol am gysyniadau Realiti Eithaf, natur bywyd a marwolaeth, a chredoau am fywyd ar ôl marwolaeth

- disgrifio bydolygon crefyddol ac anghrefyddol am newid, achos ac effaith, a'r rhyng-gysylltiad rhwng pobl a'r byd naturiol
- egluro'r modd y mae ystod o fydolygon yn llywio barn am gynaliadwyedd y byd, gan gynnyws bydolygon crefyddol ac anghrefyddol
- archwilio ystod o gredoau, moesegau ac athroniaethau am y byd naturiol a'r modd y maent yn dylanwadu ar y modd y mae pobl a'r byd yn rhyngweithio
- mynegi eu profiadau a'u gwerthfawrogiad o ryngweithio â'r byd naturiol a'r effaith y mae hyn wedi'i chael arnynt
- defnyddio mapiau a diagramau â nodiadau arnynt
- archwilio amrywiaeth o amgylcheddau lleol a chael cyfleoedd i feithrin eu chwilfrydedd ynghylch yr amgylcheddau hynny a'u gwerthfawrogiad ohonynt.

## Cam cynnydd 5

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- dysgu yn yr awyr agored, sy'n cynnwys archwilio a phrofiadau uniongyrchol o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, er mwyn deall sut mae'r byd naturiol yn gweithio (dylai hyn gynnwys ardal leol y dysgwr ei hun)
- cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd ynghylch y byd naturiol a gwerthfawrogiad ohono
- cyfleoedd i brofi ymdeimlad o barchedig ofn a rhyfeddod, ac i fyfyrio ar y byd naturiol a'u cysylltiad ag ef.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am ystod o themâu a chysyniadau, gan gynnwys newid amaethyddol a diwydiannol, newid hinsawdd, prynwriaeth, cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol, cyflogaeth, natur, peryglon a thrychinebau naturiol, mudo, mythau, chwedlau a straeon, pererindod, llygredd, poblogaeth, prinder adnoddau, lleoedd cysegredig, aneddiadau, masnach, rhyfel a gwrthdaro
- am effaith busnesau a gweithredoedd pobl, yn eu rôl fel cynhyrchwyr a defnyddwyr, ar y byd naturiol
- am ddylanwad grwpiau a sefydliadau gwleidyddol ar y byd naturiol
- cydsyniad cynaliadwyedd yng nghyd-destun strategaethau i leihau risg ac effaith prosesau ffisegol ar bobl a'u hamgylchedd, megis sut y gall llywodraethau, busnesau a sefydliadau eraill ymateb i faterion amgylcheddol
- am amrywiaeth o gredoau, athrawiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol sy'n gysylltiedig â gofodau, lleoedd a ffenomena arwyddocaol yn y byd naturiol
- am fydolygon crefyddol ac anghrefyddol am newid, ac am achos ac effaith, yng nghyd-destun y byd naturiol, a all hyn gynnwys syniadau am rhyng-gysylltedd a tharddiad dibynnol

- am effeithiau cadarnhaol a negyddol pobl ar y byd naturiol yn y gorffennol a’r presennol, yng Nghymru a’r byd ehangach
- am effeithiau y byd naturiol ar bobl, yn y gorffennol a’r presennol, yng Nghymru a’r byd ehangach.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- roi disgrifiadau ac esboniadau cynhwysfawr o leoedd, amgylcheddau a thirweddau, gan gynnwys nodweddion a thirffurfiau nodedig, a nodi mathau o gymunedau dynol a natur y cymunedau hynny
- creu, defnyddio a gwerthuso priodolrwydd amrywiaeth o fapiau cymhleth, a rhoi eu sgiliau mapio ar waith er mwyn canfod lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn gywir, a hynny drwy ddulliau sy’n cynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol digidol soffistigedig
- gwerthuso addasrwydd y dulliau digidol a’r dulliau eraill a ddefnyddir i ganfod patrymau dosbarthu gofodol
- egluro achosion patrymau dosbarthu nodedig nodweddion yn y byd naturiol, a hynny ar wahanol raddfeydd
- disgrifio dosbarthiad a phatrymau cyfnewidiol lleoedd, gofodau ac amgylcheddau dros amser a’r cysylltiadau rhyngddynt
- disgrifio ac egluro datblygiad amrywiaeth o nodweddion ffisegol, amgylcheddau a thirweddau yng Nghymru a’r byd ehangach
- egluro bod amrywiaeth o brosesau ffisegol yn rhyngweithio er mwyn llywio tirffurfiau penodol ar amrywiaeth o wahanol raddfeydd
- meithrin dealltwriaeth feirniadol o effaith gweithredoedd pobl ar amrywiaeth o leoedd, amgylcheddau a thirweddau
- gwerthuso’n feirniadol ystod o strategaethau i leihau risg ac effaith prosesau ffisegol ar bobl a’u hamgylchedd
- egluro sut y gall gweithredoedd pobl fygwth amgylcheddau os na fyddwn yn byw mewn modd cynaliadwy
- gwerthuso’n feirniadol ystod o ffactorau sydd wedi cael effaith ar yr amgylchedd yng Nghymru a’r byd ehangach ac sy’n parhau i gael effeithiau, megis newid yn yr hinsawdd a chanlyniadau byw mewn modd anghynaliadwy
- gwerthuso achosion ac effeithiau newid cadarnhaol a negyddol ar leoedd, amgylcheddau, tirweddau a phobl dros amser, gan gynnwys ffactorau economaidd, busnes, gwleidyddol, technolegol a chymdeithasol, gan feithrin dealltwriaeth o’u cysylltiad â chynaliadwyedd
- gwerthuso amrywiaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol o’r byd am gysyniadau Realiti Eithaf, natur bywyd a marwolaeth, a chredoau am fywyd ar ôl marwolaeth
- gwerthuso amrywiaeth o gredoau, moesegau ac athroniaethau crefyddol ac anghrefyddol am newid, am achos ac effaith, a’r rhyng-gysylltiad rhwng profiad dynol, ymddygiad dynol a’r byd naturiol, gan ystyried sut y maent yn dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn rhyngweithio ag ef
- egluro’r modd y mae amrywiaeth o fydolygon yn llywio barnau am gynaliadwyedd y byd, gan gynnwys bydolygon crefyddol ac anghrefyddol

- egluro ac asesu arwyddocâd newidiadau a digwyddiadau hanesyddol ar y byd naturiol
- archwilio amrywiaeth o amgylcheddau a chael cyfleoedd i feithrin eu chwilfrydedd ynghylch yr amgylcheddau hynny a’u gwerthfawrogiad ohonynt
- mynegi eu profiadau o ryngweithio â’r byd naturiol a’r effaith y mae hyn wedi’i chael arnynt.




## YR HYN SY'N BWYSIG YN Y DYNIAETHAU

**Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maent yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.**

Gall gwethfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a *chynefin* ddylanwadu'n emosiynol ac yn ysbrydol ar ddysgwyr, a helpu i greu ymdeimlad o hunan ac o berthyn. Drwy ddeall eu hunain, mae dysgwyr yn meithrin eu hunaniaeth eu hunain ac ymwybyddiaeth o sut y gallant, fel unigolion, ddylanwadu ar y cymunedau y maent yn byw ynddynt. O ganlyniad, daw dysgwyr i ddeall y gall y dewisiadau y mae pob un ohonom yn eu gwneud, yn unigol ac ar y cyd, gael effeithiau sylweddol.

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o natur gymhleth, luosol ac amrywiol cymdeithasau yng Nghymru a'r byd ehangach. Dros amser, mae'r cymdeithasau hyn wedi esblygu, gan brofi parhad a newid sydd wedi effeithio ar eu bywydau nhw a phobl eraill, ac sy'n parhau i wneud hynny. Mae'r esblygiad hwn yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng amryw o ffactorau, gan gynnwys gweithredoedd a chredoau pobl, a grymoedd ffisegol. Mae'r Dyniaethau yn meithrin dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r grymoedd sydd wedi dylanwadu ar gymdeithasau.

Mae'r Dyniaethau yn annog dealltwriaeth feirniadol o'r modd y caiff amrywiol gymdeithasau yng Nghymru a'r byd ehangach eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain. Caiff cymdeithasau eu nodweddu gan ystod o normau a gwerthoedd diwylliannol, economaidd, cyfreithiol a gwleidyddol. Maent hefyd yn ddeinamig, gan sbarduno newidiadau ac ymateb iddynt, ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang. Bydd dysgwyr yn archwilio'r cysylltiadau rhwng y cymdeithasau hyn yn y gorffennol a'r presennol. Cânt eu hannog hefyd i archwilio a meithrin dealltwriaeth oddefgar ac empathetig o'r amrywiol gredoau, gwerthoedd, traddodiadau a moesegau sy'n sail i gymdeithas ddynol ac sy'n dylanwadu arni.

# Dysgu

## Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn helpu dysgwyr i ennill:

- soffistigeiddrwydd gwell o ran dealltwriaeth gysyniadol, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i restr o ffeithiau a mynd i'r afael â'r syniadau hynny sy'n sail i ddisgyblaethau'r Dyniaethau, a'r modd y mae'r rhain yn cysylltu â'i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau
- gwybodaeth ddyfnach, a nodweddir gan y gallu i gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth flaenorol, i feithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig, ac i ddatrys yr achosion o wrthdaro a all godi pan ddaw gwahanol safbwyntiau ynghyd
- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol, gan gynnwys defnydd o eirfa bwnc-benodol
- annibyniaeth gynyddol a gallu cynyddol i hunanreoli.

## Cam cynnydd 1

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddilyniannu digwyddiadau a ddigwyddodd dros gyfnod byr o amser er mwyn dangos fy mod yn deall bod rhai pethau yn newid dros amser.

Gallaf adnabod amseroedd, digwyddiadau a thraddodiadau arbennig yn fy nghymuned a'r byd ehangach.

Gallaf adnabod digwyddiadau sy'n arwyddocaol i mi ac sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Gallaf ddangos ymwybyddiaeth o bwy ydwyf ac fy mod yn debyg ac yn wahanol i eraill.

Gallaf sôn am beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng pobl yn fy nghymuned.

Gallaf ddangos ymwybyddiaeth fy mod yn rhan o wahanol gymunedau.

## Cam cynnydd 2

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddilyniannu digwyddiadau a deall y gellir rhannu'r gorffennol yn gyfnodau amser.

Gallaf adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng bywydau pobl yn y gorffennol a'r presennol.

Gallaf adnabod agweddau ar fy nghymuned, a’r modd y gall rhai ohonynt fod wedi bod yn wahanol yn y gorffennol.

Gallaf adnabod rhai achosion a chanlyniadau digwyddiadau a newidiadau yn y gorffennol a’r presennol.

Gallaf adnabod rhai ffactorau sy’n cyfrannu at fy hunaniaeth, a’r ffyrdd rwy’n debyg ac yn wahanol i eraill.

Gallaf ddisgrifio amseroedd, digwyddiadau, traddodiadau a phobl arbennig yn fy nghymuned a’r byd ehangach, a gallaf egluro eu bwysigrwydd.

Gallaf ddeall fod cymdeithasau yng Nghymru a’r byd ehangach yn cynnwys amrywiol grwpiau o bobl.

Gallaf ddangos ymwybyddiaeth o wahanol gredoau pobl.

Gallaf gydnabod pwysigrwydd y gwahanol reolau, rolau a chyfrifoldebau yn yr amrywiol gymunedau rwy’n perthyn iddynt.

## Cam cynnydd 3

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddefnyddio llinellau amser ar raddfa i roi trefn ar ddigwyddiadau, a’u defnyddio i ddisgrifio sut mae cymdeithasau wedi newid neu wedi aros yr un peth dros amser yng Nghymru a’r byd ehangach.

Gallaf ddefnyddio termau cyffredin i ddisgrifio cyfnodau amser a threigl amser.

Gallaf gysylltu a rhoi trefn ar achosion neu ganlyniadau lluosog sy’n gysylltiedig â digwyddiadau arwyddocaol.

Gallaf ddangos y gall canlyniadau penderfyniadau a digwyddiadau fod yn gadarnhaol ac yn negyddol.

Rwy’n ymwybodol o’m hunaniaeth ac yn parchu’r ffaith bod gan eraill wahanol hunaniaeth.

Gallaf adnabod rhai ffactorau sy’n cyfrannu at fy hunaniaeth a gwerthfawrogi’r ffyrdd rwy’n debyg ac yn wahanol i eraill.

Gallaf egluro amseroedd, digwyddiadau a thraddodiadau arbennig yn fy nghymuned a’r byd ehangach a chyfleu fy nheimladau amdanynt.

Gallaf ddeall fod gwahanol brofiadau, crefyddau, bydolygon, credoau ac arferion yn cyfrannu at gymdeithasau amrywiol yng Nghymru a’r byd ehangach.

Gallaf ddeall yr amrywiaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau sy’n bodoli y tu hwnt i’m profiad personol, a gwerthfawrogi pwysigrwydd iaith, credoau a gwerthoedd yn y broses o ffurfio hunaniaethau diwylliannol.



Gallaf ymateb yn sensitif i syniadau am gymunedau a diwylliannau.

## Cam cynnydd 4

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddefnyddio fy nealltwriaeth o gronoleg i egluro a dadansoddi'r modd y mae gwahanol gymdeithasau wedi newid neu wedi aros yr un peth dros amser, a hynny yng Nghymru a'r byd ehangach.

Gallaf adnabod trobwyntiau arwyddocaol sy'n dylanwadu ar newid mewn cymdeithas ac egluro sut y gallant gael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar fywydau pobl.

Gallaf gategoreiddio ac egluro achosion a chanlyniadau digwyddiadau yn y gorffennol, gan gydnabod natur gymhleth a dadleuol esboniadau.

Gallaf egluro ffyrdd y caiff fy hunaniaeth bersonol a hunaniaeth pobl eraill eu mynegi.

Gallaf egluro'r effaith y gall gweithredoedd a phenderfyniadau'r bobl hynny mewn awdurdod a grym ei chael ar unigolion ac ar fywydau pobl eraill.

Gallaf ddeall fod tensiynau o fewn cymunedau a chymdeithasau, a gallaf ymateb yn sensitif wrth drafod y materion dadleuol hyn.

Gallaf egluro a gwerthuso cyfraniadau pobl at gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach.

Gallaf ddeall fod ymddygiad a pherthnasau pobl yn y gorffennol yn dylanwadu ar amrywiaeth ddiwylliannol.

Gallaf egluro ffyrdd y gall amrywiol gymunedau gyd-fyw er budd pawb.

Gallaf greu cysylltiadau a chymariaethau ystyrlon rhwng cymdeithasau.

## Cam cynnydd 5

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddefnyddio fy nealltwriaeth fanwl o natur a graddau newid a pharhad dros gyfnod estynedig o amser i ddadansoddi'n feirniadol y ffordd y mae diwylliannau wedi addasu ac wedi newid.

Gallaf gymharu a chyferbynnu trobwyntiau arwyddocaol, gan ddefnyddio amrywiol feini prawf sy'n ystyried yr effeithiau cadarnhaol a negyddol ar fywydau pobl.

Gallaf ddadansoddi ac egluro'r modd y mae amrywiol ffactorau achosol yn rhyng-gysylltiedig, dros amrywiaeth o raddfeydd amser, a'r modd y gellir dadlau ynghylch arwyddocâd y ffactorau hyn.

Gallaf ddadansoddi ac egluro arwyddocâd a chanlyniadau newidiadau mewn amrywiaeth o gymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol.

Gallaf egluro natur gymhleth fy hunaniaeth bersonol a hunaniaeth pobl eraill, y modd y cânt eu ffurfio a’r effaith a gânt ar ymddygiad pobl.

Gallaf ddadansoddi’n feirniadol ystod o nodweddion tebyg a gwahaniaethau cymhleth rhwng amrywiol gymdeithasau yn y gorffennol a’r presennol, gan gynnwys lleoliad daearyddol, diwylliannol, crefyddol, gwleidyddol, bydolygon ac economaidd.

Gallaf werthuso arwyddocâd y perthnasau rhwng amrywiaeth eang o gymdeithasau, eu cysylltiadau a’u cyd-ddibyniaethau.

Gallaf egluro achosion a natur anghydraddoldebau rhwng cymdeithasau ac o fewn cymdeithasau.

# Cynllunio ar gyfer dysgu

## Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

**Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar y ffordd y mae cymdeithasau yn amrywiol ac yn lluosog.
- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar nodweddion tebyg a gwahaniaethau cymdeithasol.
- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar newid a pharhad.

**Mae digwyddiadau a phrofiadau yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.**

- Dehongliadau hanesyddol.
- Dehongliadau sy'n gysylltiedig ag ideolegau gwleidyddol.
- Dehongliadau sy'n gysylltiedig â chrefyddau a bydolygon.

**Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.**

- Effaith gymharol gwahanol gymdeithasau ar wahanol adegau ar y byd naturiol.
- Sut mae'r byd naturiol wedi effeithio ar esblygiad cymdeithasau dynol ac wedi cyfrannu at newid.

**Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.**

- Cyfiawnder a thegwch mewn cymdeithasau.
- Datblygiad economaidd cymdeithasau.
- Strwythurau gwleidyddol mewn cymdeithasau.
- Natur dinasyddiaeth.
- Rolau a chyfrifoldebau cymdeithasol.

## Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Pwysigrwydd y celfyddydau mynegiannol wrth lywio diwylliant a chymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol.
- Ystyried y celfyddydau o amrywiol adegau, diwylliannau a chymdeithasau.
- Ystyried ein diwylliant ni a diwylliannau eraill.
- Rôl y celfyddydau mynegiannol fel cyfrwng ar gyfer mynegi dehongliadau a chynrychioliadau.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Rôl technoleg ddigidol mewn cymdeithasau modern.
- Dylanwad gwyddoniaeth a thechnoleg ar economïau gwahanol gymdeithasau yn y presennol a'r gorffennol.
- Dylanwad dyfeisiadau a darganfyddiadau ar esblygiad cymdeithasau dynol.

### Iechyd a Lles

- Gwerthoedd a normau cymdeithasol mewn cymdeithasau.
- Dylanwadau cymdeithasol ar unigolion.
- Sut mae pobl yn canfod ac yn dehongli digwyddiadau a phrofiadau mewn gwahanol ffyrdd.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Llenyddiaeth o amrywiaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau.
- Dylanwad llenyddiaeth wrth lywio diwylliant mewn cymdeithasau.

### Mathemateg a Rhifedd

- Data i ddangos gwahaniaethau ac anghydraddoldebau cymdeithasol.

# Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Fel rhan o'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig, dylid cynnig cyfleoedd i ddysgwyr archwilio cysyniadau, gan gynnwys cronoleg, newid a pharhad, amrywiaeth, achos ac effaith, rhyng-gysylltedd, cymuned, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a llywodraethu.

## Cam cynnydd 1

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i archwilio ac arsylwi ar agweddau ar y cymunedau y maent yn rhan ohonynt, megis eu hystafell ddosbarth, ysgol, teulu ac ardal leol, a hynny drwy straeon, dathliadau, gwrthrychau, digwyddiadau a thraddodiadau yn eu cymunedau, ac i gyfleu eu teimladau amdanynt
- cyfleoedd i archwilio a gwerthfawrogi dathliadau, traddodiadau a ffyrdd o fyw allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach
- dysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i ymweld ag amgueddfeydd; safleoedd hanesyddol; mannau o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol; nodweddion neu safleoedd daearyddol; a busnesau neu fanwerthwyr.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- ddefnyddio llinellau amser syml i ddilyniannu digwyddiadau sy'n gyfarwydd iddynt dros raddfa amser fer, a defnyddio geiriau allweddol priodol i amcangyfrif, mesur a disgrifio treigl amser
- adnabod eu hunain a phobl gyfarwydd
- archwilio ac arsylwi ar agweddau ar eu cymuned a'u hardal leol
- dwyn i gof a chyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn eu bywydau
- adnabod rhai o'r ffyrdd yr oedd bywydau plant a phobl ifanc yn y gorffennol yn wahanol i'w bywydau nhw.

## Cam cynnydd 2

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i archwilio ac arsylwi ar agweddau ar y cymunedau y maent yn rhan ohonynt, megis eu hystafell ddosbarth, ysgol, teulu ac ardal leol, a hynny drwy straeon, dathliadau, gwrthrychau, digwyddiadau a thraddodiadau, ac i gyfleu eu teimladau amdanynt
- cyfleoedd i archwilio a gwerthfawrogi dathliadau, traddodiadau a ffyrdd o fyw allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gymryd rhan mewn ymweliadau rhithwir ac i gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl mewn cymuned fyd-eang
- dysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i ymweld ag amgueddfeydd; safleoedd hanesyddol; mannau o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol; nodweddion neu safleoedd daearyddol; a busnesau neu fanwerthwyr.

### Dylai dysgwyr wybod:

- bod gan rai cyfnodau penodol o hanes nodweddion penodol
- yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y ffordd yr oedd ac y mae pobl yn byw mewn gwahanol leoedd ac ar wahanol adegau, gan gynnwys dealltwriaeth benodol o'r modd y gallai bywydau plant a phobl ifanc yn y gorffennol fod wedi bod yn wahanol i fywydau plant a phobl ifanc heddiw.

### Dylai dysgwyr allu a gwybod sut i:

- ddangos ymwybyddiaeth o amser ac o newid dros amser, a defnyddio termau cyffredin ar gyfer treigl amser
- dilyniannu digwyddiadau a deall y gellir rhannu'r gorffennol yn gyfnodau amser
- dwyn i gof a chyfleu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn eu bywydau nhw neu ym mywydau pobl eraill
- cymharu a chyferbynnu agweddau ar eu bywydau nhw â chyfnod yn y gorffennol neu bobl mewn gwahanol leoliad.

## Cam cynnydd 3

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i archwilio ac ymgysylltu â'u cymunedau a thu hwnt, drwy straeon, dathliadau, gwrthrychau, digwyddiadau a thraddodiadau, a chyfleu eu teimladau amdanynt
- cyfleoedd i archwilio ac ymwneud â dathliadau, traddodiadau a ffyrdd o fyw allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gymryd rhan mewn ymweliadau rhithwir ac i gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl mewn cymuned fyd-eang
- dysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i ymweld ag amgueddfeydd; safleoedd hanesyddol; mannau o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol; nodweddion neu safleoedd daearyddol; a busnesau neu fanwerthwyr.

### Dylai dysgwyr wybod:

- am hanes ac amrywiaeth y cymunedau y maent yn rhan ohonynt
- bod cymdeithasau yn amrywiol ac yn newid dros amser, ac y gall y newidiadau hyn fod yn gadarnhaol ac yn negyddol ar gyfer gwahanol grwpiau ac mewn gwahanol sefyllfaoedd
- bod cymdeithasau wedi cael eu trefnu a'u harwain mewn gwahanol ffyrdd ac yn parhau i fod felly
- sut mae bywydau pobl yn wahanol o fewn cymdeithasau, ac mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau, ac yn gallu rhoi rhesymau dros y gwahaniaethau hyn
- am y ffyrdd y gall amrywiol gymunedau gyd-fyw er budd pawb
- am y ffyrdd y caiff ymrwymiad a hunaniaeth eu mynegi
- am sut mae busnesau ac economïau wedi cael eu llywio ac wedi newid dros amser, ac am yr effaith y maent wedi'i chael ar gymdeithasau

- prif achosion ac effeithiau newidiadau mewn cymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol
- am amrywiaeth o unigolion a grwpiau o bobl, rhai enwog a rhai llai amlwg, sydd wedi cael effaith ar gymdeithasau
- nad oes gan bawb yr un credoau ac y gall hyn achosi gwrthdaro ac anghytuno.

**Dylai dysgwyr allu a gwybod sut i:**

- ddatblygu map cronolegol o'r gorffennol a chreu cysylltiadau a chyferbyniadau rhwng nodweddion penodol gwahanol gyfnodau
- cydnabod effaith gwahanol grefyddau a bydolygon ar gymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol
- ymateb yn sensitif i syniadau am gymunedau a diwylliannau.

## Cam cynnydd 4

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- cyfleoedd i archwilio ac ymgysylltu â'u cymunedau a thu hwnt, drwy straeon, dathliadau, gwrthrychau, digwyddiadau a thraddodiadau, a chyfleu eu teimladau amdanynt
- cyfleoedd i archwilio ac ymwneud â dathliadau, traddodiadau a ffyrdd o fyw allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gymryd rhan mewn ymweliadau rhithwir ac i gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl mewn cymuned fyd-eang
- dysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i ymweld ag amgueddfeydd; safleoedd hanesyddol; mannau o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol; nodweddion neu safleoedd daearyddol; a busnesau neu fanwerthwyr.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am hanes ac amrywiaeth y cymunedau a'r cymdeithasau y maent yn rhan ohonynt
- yr amrywiol ffyrdd a ddefnyddir ac a ddefnyddiwyd i drefnu a llywodraethu cymdeithasau
- cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol gyfnodau o amser er mwyn gallu creu map cronolegol o'r gorffennol
- sut a pham y mae cymdeithasau a bywydau pobl wedi newid neu wedi aros yr un peth, a gallu esbonio a llunio barn am effaith newid a pharhad
- am natur amrywiol crefyddau a bydolygon, credoau, arferion a thraddodiadau mewn gwahanol gymdeithasau, a'u heffaith
- sut a pham mae bywydau pobl yn wahanol o fewn cymdeithasau, ac mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau, gan gynnwys pwyslais ar fywydau, profiadau a chredoau pobl gyffredin mewn amrywiaeth o wahanol gymdeithasau ar wahanol adegau
- am achosion, effeithiau a natur ystod o newidiadau mewn cymdeithasau
- am yr ystod o ffyrdd y gall amrywiol gymunedau gyd-fyw'n gydweithredol er budd pawb
- am ffyrdd y mynegir ymrwymiad a hunaniaeth

- am bobl a grwpiau o bobl sydd wedi cael effaith ar gymdeithasau
- am natur amrywiol cymdeithasau, gan gynnwys am eu credoau, arferion a thraddodiadau; sefydliadau diwylliannol; ethnigrwydd; cydraddoldeb ac anghydraddoldeb; cyfiawnder; crefydd a bydolygon; hawliau; mudo; poblogaeth; ffigyrau crefyddol, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, busnes, cymunedol ac elusennol o bob rhyw a chyfeiriadedd; ideolegau, sefydliadau a strwythurau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd
- am natur a hyd a lled newid dros amser, gan gynnwys am newidiadau mewn systemau ac arweinyddiaeth gwleidyddol, ynghyd â democratiaeth a datganoli; newidiadau mewn amaethyddiaeth a diwydiant; arloesi a datblygiadau technolegol; goresgyniad, protest a gwrthryfel; heddwch a gwrthdaro; newidiadau mewn poblogaeth a mudo; masnach.

**Dylai dysgwyr allu:**

- disgrifio ac egluro nodweddion ystod o wahanol gymdeithasau, gan gynnwys yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt, a hynny yn y gorffennol a'r presennol, yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a rhannau eraill o'r byd
- ymateb yn sensitif ac yn graff i syniadau am gymunedau a diwylliannau, gan gynnwys undod a lluosogrwydd o fewn ac ar draws crefyddau, bydolygon a gwleidyddiaeth.

## Cam cynnydd 5

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- cyfleoedd i archwilio ac ymgysylltu â'u cymunedau a thu hwnt, drwy straeon, dathliadau, gwrthrychau, digwyddiadau a thraddodiadau, a chyfleu eu teimladau amdanynt
- cyfleoedd i archwilio ac ymwneud â dathliadau, traddodiadau a ffyrdd o fyw allweddol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i ddefnyddio technoleg ddigidol i gymryd rhan mewn ymweliadau rhithwir ac i gyfathrebu ag amrywiaeth o bobl mewn cymuned fyd-eang
- dysgu yn yr awyr agored a chyfleoedd i ymweld ag amgueddfeydd; safleoedd hanesyddol; mannau o arwyddocâd gwleidyddol, crefyddol neu ysbrydol; nodweddion neu safleoedd daearyddol; a busnesau neu fanwerthwyr.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am hanes ac amrywiaeth y cymunedau y maent yn rhan ohonynt
- am y ffyrdd y caiff ymrwymiad a hunaniaeth eu mynegi o fewn amrywiaeth eang o gymdeithasau a diwylliannau
- yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng cymdeithasau yn y gorffennol a'r presennol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a rhannau eraill o'r byd
- sut a pham mae bywydau pobl yn wahanol mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau, gan sicrhau pwyslais ar fywydau, profiadau a chredoau pobl gyffredin mewn amrywiaeth o wahanol  gymdeithasau ar wahanol adegau, gan gynnwys y rheini a gafodd eu tangynrychioli'n draddodiadol yn astudiaethau'r Dyniaethau

- am natur amrywiol cymdeithasau, gan gynnwys am eu credoau, arferion a thraddodiadau; sefydliadau diwylliannol; ethnigrwydd; cydraddoldeb ac anghydraddoldeb; cyfiawnder; crefydd a bydolygon; hawliau; mudo; poblogaeth; ffigyrau crefyddol, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, busnes, cymunedol ac elusennol o bob rhyw a chyfeiriadedd; ideolegau, sefydliadau a strwythurau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd
- am natur a hyd a lled newid dros amser, gan gynnwys am newidiadau mewn systemau ac arweinyddiaeth gwleidyddol, ynghyd â democratiaeth a datganoli; newidiadau mewn amaethyddiaeth a diwydiant; arloesi a datblygiadau technolegol; goresgyniad, protest a gwrthryfel; heddwch a gwrthdaro; newidiadau mewn poblogaeth a mudo; masnach.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- ddefnyddio map neu fframwaith cronolegol cynyddol fanwl er mwyn creu cysylltiadau a chymariaethau ystyrlon rhwng nodweddion gwahanol gyfnodau o amser, a fydd yn galluogi dysgwyr i adnabod deinamig parhad a newid dros gyfnodau o amrywiol hyd, ac i gysylltu patrymau a thueddiadau â phrosesau hanesyddol mwy o faint
- dadansoddi a gwerthuso achosion a chanlyniadau penderfyniadau a digwyddiadau, a newid a pharhad, gan gynnwys ffactorau economaidd, gwleidyddol, technolegol, bydolygon crefyddol ac anghrefyddol, a ffactorau diwylliannol a chymdeithasol
- dadansoddi’n feirniadol ystod o ffyrdd y gall amrywiol gymunedau gyd-fyw’n gydweithredol er budd pawb
- ymateb yn sensitif ac yn graff i fydolygon crefyddol ac anghrefyddol am gymdeithas, cymunedau a diwylliannau, a deall sut y gellir eu dehongli yn ystod gwahanol gyfnodau mewn gwahanol ddiwylliannau a lleoedd.




## YR HYN SY'N BWYSIG YN Y DYNIAETHAU

**Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon, egwyddorol a chynaliadwy.**

Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o'u rolau fel dinasyddion a phwysigrwydd creu dyfodol cyfiawn a chynaliadwy iddynt hwy eu hunain a'u cymunedau mewn byd rhyng-gysylltiedig. Mae'n annog dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol, gwybodus a chyfrifol sy'n gallu uniaethu â'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang a chyfrannu atynt, nawr ac yn eu bywydau yn y dyfodol.

Bydd y Dyniaethau yn gwahodd dysgwyr i uniaethu a mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol sy'n eu hwynebu nhw eu hunain, eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Daw dysgwyr hefyd i ddeall cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, cyfiawnder, rhyng-gysylltedd ac awdurdod, a sylweddoli arwyddocâd byw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol, ac arwyddocâd cyfrannu at y gymdeithas honno. Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth nid yn unig o'u hawliau nhw eu hunain, ond hefyd o hawliau, anghenion, pryderon a theimladau pobl eraill wrth greu byd cynaliadwy a rhyng-gysylltiedig.

Bydd cwestiynu a gwerthuso ymatebion sydd eisoes yn bodoli i heriau a chyfleoedd yn helpu dysgwyr i ddatblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Byddant yn gallu ystyried effaith eu gweithredoedd wrth iddynt wneud dewisiadau ac arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu cyfiawnhau eu penderfyniadau wrth weithredu mewn ffordd gymdeithasol, wleidyddol, economaidd ac entrepreneuraidd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion gofalgar a chyfranogol o'u cymunedau lleol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a diogelu'r amgylchedd. Ar ben hyn oll, drwy ymateb i heriau, a manteisio ar gyfleoedd i i weithredu'n gymdeithasol a chynaliadwy, byddant yn creu ystyr a diben yn eu bywydau eu hunain.

# Dysgu

## Egwyddorion cynnydd

Egwyddorion cynnydd yw'r sail ar gyfer datblygu'r deilliannau cyflawniad a dylent lywio dilyniant y dysgu o fewn y maes dysgu a phrofiad.

Bydd y maes dysgu a phrofiad hwn yn helpu dysgwyr i ennill:

- soffistigeiddrwydd gwell o ran dealltwriaeth gysyniadol, a fydd yn caniatáu i ddysgwyr weld y tu hwnt i restr o ffeithiau a mynd i'r afael â'r syniadau hynny sy'n sail i ddisgyblaethau'r Dyniaethau, a'r modd y mae'r rhain yn cysylltu â'i gilydd mewn gwahanol gyd-destunau
- gwybodaeth ddyfnach, a nodweddir gan y gallu i gysylltu dysgu newydd â gwybodaeth flaenorol, i feithrin dealltwriaeth fwy soffistigedig, ac i ddatrys yr achosion o wrthdaro a all godi pan ddaw gwahanol safbwyntiau ynghyd
- y gallu i weithio gyda nifer gynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig
- defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol, gan gynnwys defnydd o eirfa bwnc-benodol
- annibyniaeth gynyddol a gallu cynyddol i hunanreoli.

## Cam cynnydd 1

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf adnabod moesau a rheolau sylfaenol mewn cymunedau cyfarwydd.

Gallaf gydnabod bod gan fy ngweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill ganlyniadau.

Gallaf ddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd rwyf i, fy nheulu a'm ffrindiau yn eu hwynebu.

Gallaf ofalu am yr amgylchedd a phobl eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd.

## Cam cynnydd 2

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddisgrifio moesau a rheolau sylfaenol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Gallaf ddisgrifio effeithiau cadarnhaol a negyddol fy ngweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill.

Gallaf sôn am yr heriau a'r cyfleoedd rwyf i, pobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn eu hwynebu, a disgrifio'r modd y mae pobl yn ymateb iddynt.

Gallaf ddeall y gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau.

Gallaf adnabod rhai o'r ffyrdd rwyf i ac eraill yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar yr amgylchedd ac ar amrywiaeth o gymunedau.

Gallaf gydnabod y modd y gall ymateb i heriau a chyfleoedd fod o fudd i mi ac i eraill.

Rwyf wedi meithrin agweddau a sgiliau blaengar wrth ymateb i amrywiaeth o heriau a chyfleoedd.

Rwyf wedi bod yn rhan o grŵp sy'n dangos cyfrifoldeb cymdeithasol yn fy nghymuned leol er mwyn gwneud newid cadarnhaol.

## Cam cynnydd 3

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf gydnabod bod gan bobl yr un hawliau â'i gilydd, ond na chaiff rhai eu trin yn gyfartal a bod yna sefydliadau sy'n ymgyrchu ar eu rhan.

Gallaf ddeall y modd y mae safbwyntiau pobl yn dylanwadu ar eu hymddygiad, eu gweithredoedd a'u penderfyniadau.

Gallaf ddeall canlyniadau fy ngweithredoedd, a gweithredoedd pobl eraill, a'r modd y maent yn effeithio ar faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Gallaf adnabod y modd y gall heriau a chyfleoedd gysylltu gwahanol bobl a gwledydd.

Gallaf ddeall achosion ac effeithiau heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ynghyd â'r ymatebion iddynt.

Gallaf ddisgrifio effaith bosibl fy ngweithredoedd arnaf i fy hun ac ar genedlaethau'r dyfodol.

Rwyf wedi cynllunio ac wedi ymgymryd â rôl weithgar fel dinesydd cyfrifol, mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn fy nghymuned leol, yng Nghymru neu yn y byd ehangach.

Rwyf wedi bod yn rhan o grŵp sy'n dangos cyfrifoldeb cymdeithasol yn fy nghymuned leol, neu yng Nghymru, er mwyn gwneud newid cadarnhaol.

## Cam cynnydd 4

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddeall achosion a chanlyniadau anghyfiawnder ac anghydraddoldeb.

Gallaf egluro effeithiau penderfyniadau a wneir ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang ar bobl a'r amgylchedd.

Gallaf egluro'r modd y gall gwahanol gredoau a phrofiadau ddylanwadu ar benderfyniadau moesol ac egwyddorol.

Gallaf egluro'r cysylltiadau sydd rhwng yr heriau a'r cyfleoedd a wynebwyd gan bobl yng Nghymru a'r byd ehangach yn y gorffennol a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol.

Gallaf egluro pwysigrwydd materion a mudiadau hawliau dynol cyfoes yng Nghymru a'r byd ehangach, a phwysigrwydd unigolion, sefydliadau a chymdeithasau wrth ddiogelu neu atal hawliau pobl.

Rwyf wedi adnabod cyfleoedd i weithredu, eu cynllunio a'u cymryd fel dinesydd cyfrifol yn fy nghymuned leol, neu yng Nghymru neu'r byd ehangach, er mwyn gwneud newid cadarnhaol, a hynny'n unigol neu ar y cyd.

Gallaf asesu effaith a gwerthuso effeithiolrwydd fy ngweithredoedd arnaf i fy hun ac ar genedlaethau'r dyfodol, gan awgrymu gwelliannau.

Gallaf ddeall bod gweithredu cymdeithasol o fudd o ran hunanddatblygiad, yn ogystal â bod o fudd i bobl eraill.

## Cam cynnydd 5

### Deilliannau cyflawniad

Gallaf ddadansoddi achosion sylfaenol anghyfiawnder ac anghydraddoldeb a'r modd y mae llywodraethau a sefydliadau anllywodraethol yn ymateb iddynt.

Gallaf ddefnyddio lensys disgyblaethol wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan bobl yng Nghymru a'r byd ehangach.

Gallaf werthuso safbwyntiau pobl eraill a'u hymatebion i heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, gan ddeall yr effaith y gallant ei chael ar benderfyniadau moesol ac egwyddorol.

Gallaf gyfosod amrywiaeth o ymatebion i heriau a chyfleoedd cymhleth er mwyn dod i gasgliad annibynnol, cydlynol a gadarnhawyd.

Gallaf werthuso achosion sylfaenol materion a mudiadau hawliau dynol cyfoes yng Nghymru a'r byd ehangach, a'r amrywiol ffactorau sy'n tanseilio neu'n ategu hawliau pobl.

Gallaf ddefnyddio'r sgiliau sydd eu hangen i gyfrannu'n effeithiol i'r byd gwaith a'm llwybr gyrfa disgwyliedig yn y dyfodol.

Rwyf wedi cymryd rhan weithredol wrth godi ymwybyddiaeth o heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

Gallaf adnabod, cynllunio, gweithredu a gwerthuso'r rôl rwy'n ei chwarae fel dinesydd cyfrifol yn fy nghymuned leol a'm cymuned ehangach, yng Nghymru ac yn y byd ehangach, gan wneud hynny'n annibynnol neu ar y cyd.

Gallaf werthuso effaith ac effeithiolrwydd fy ngweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, adnabod cryfderau a gwendidau penodol, a chynllunio gwelliannau strategol.

Gallaf gynnal gwerthusiad beirniadol o’r modd y gall fy nghredoau a’m gweithredoedd fy hun gyfrannu at fy rôl fel dinesydd egwyddorol, gwybodus, a’r modd y mae o fudd i mi ac i’m hunanddatblygiad.

# Cynllunio ar gyfer dysgu

## Cysylltiadau o fewn y maes dysgu a phrofiad hwn

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

**Mae datblygu meddwl ymholgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, i'w orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol, drostynt eu hunain.**

- Ymholiadau sy'n canolbwyntio ar feithrin dealltwriaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth.

**Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.**

- Barn unigolyn am ei rôl a'i gyfrifoldeb personol fel dinesydd.
- Gwahanol ddehongliadau o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu dynoliaeth.

**Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae dylanwad prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol arno.**

- Yr heriau amgylcheddol sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.
- Rôl a chyfrifoldeb unigolyn wrth ddiogelu'r amgylchedd.
- Effaith gweithredoedd ar yr amgylchedd.

**Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.**

- Cyfiawnder a thegwch mewn cymdeithasau.
- Datblygiad economaidd cymdeithasau.
- Strwythurau gwleidyddol mewn cymdeithasau.
- Natur dinasyddiaeth.
- Rolau a chyfrifoldebau cymdeithasol.
- Effaith gweithredoedd ar gymdeithas.

## Cysylltiadau â meysydd dysgu a phrofiad eraill

Mae'r adran hon yn awgrymu lle gellid cyfoethogi dysgu drwy wneud cysylltiadau rhwng y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae hefyd yn awgrymu ymhle gellid ystyried gwahanol elfennau o ddysgu gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu sy'n fwy holistaidd.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Ffyrdd o fynegi a chynrychioli'r themâu o hawliau, parch, cydraddoldeb a chyfiawnder drwy Gelfyddydau Mynegiannol.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Yr heriau gwyddonol, technolegol a digidol sy'n wynebu'r ddynoliaeth.
- Datrysiadau gwyddonol a thechnolegol posibl i'r heriau sy'n wynebu'r ddynoliaeth.
- Rhyngddibyniaeth ddigidol.
- Yr economi ddigidol.

### Iechyd a Lles

- Pwysigrwydd gwneud penderfyniadau er mwyn ategu ymatebion egwyddorol a chynaliadwy i heriau a chyfleoedd.
- Cydnabod ymddygiad priodol mewn gwahanol sefyllfaoedd.
- Ymateb yn sensitif i anghenion eraill.
- Meithrin perthnasau i ategu dinasyddiaeth.
- Dylanwadau cymdeithasol a dinasyddiaeth.
- Deall hawliau, parch a thegwch.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Trafod materion cymdeithasol.

### Mathemateg a Rhifedd

- Rôl economaidd unigolyn, gan gynnwys llythrennedd ariannol.

# Profiadau, gwybodaeth a sgiliau

Fel rhan o'r datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig, dylai dysgwyr ystyried cysyniadau gan gynnwys cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; dinasyddiaeth; grym ac awdurdod; rhyng-gysylltedd; cyfiawnder a chydraddoldeb; hawliau; a chamau gweithredu a chyfrifoldeb cymdeithasol.

## Cam cynnydd 1

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i drafod ac ymwneud â heriau a chyfleoedd yn eu hardal leol, yng Nghymru neu'r byd ehangach
- cyfleoedd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cyfleoedd i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd y blaned
- cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o empathi gyda phobl ar raddfa leol, genedlaethol neu fyd-eang
- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau, sefydliadau a busnesau lleol.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am gysyniadau da a drwg a theg ac annheg, o fewn cyd-destun cyfarwydd
- y gall gweithredoedd pobl eraill effeithio arnynt ac y gall eu gweithredoedd nhw hefyd effeithio ar bobl eraill
- am rai o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nhw a'u cymunedau.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- gymryd rhan mewn gweithredoedd a digwyddiadau mewn ymateb i heriau a chyfleoedd, yn eu hamgylchedd uniongyrchol.

## Cam cynnydd 2

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i drafod ac ymwneud â heriau a chyfleoedd yn eu hardal leol, yng Nghymru neu'r byd ehangach
- cyfleoedd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cyfleoedd i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd y blaned
- cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o empathi gyda phobl ar raddfa leol, genedlaethol neu fyd-eang

- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau, sefydliadau a busnesau lleol
- cyfleoedd i fod yn flaengar a meithrin sgiliau entrepreneuraidd.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- y rheolau, y rolau a'r cyfrifoldebau o fewn yr amrywiol gymunedau y maent yn perthyn iddynt
- beth sy'n dda ac yn ddrwg ac ystyr tegwch mewn amrywiaeth o gyd-destunau
- y gall eu gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill gael effaith gadarnhaol a negyddol ar bobl eraill a'r amgylchedd
- bod gweithredoedd pobl a grwpiau yn y gorffennol wedi arwain at newidiadau mewn bywydau pobl
- am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nhw, Cymru a'r byd ehangach
- y gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau, a'r modd y gall anghenion lywio hawliau dynol
- fod gan blant hawliau a bod y rhain wedi eu diogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- pwysigrwydd parchu hawliau pobl eraill
- am ymatebion cynaliadwy ac anghynaliadwy i heriau a chyfleoedd, gan gynnwys y modd y gall masnachu egwyddorol a gwaith sefydliadau ac elusennau gael effaith arnynt hwy eu hunain ac ar gymunedau, a'r modd y mae pobl yn difrodi neu'n gwella'r amgylchedd mewn gwahanol ffyrdd.

**Dylai dysgwyr allu a gwybod sut i:**

- feithrin agweddau a sgiliau blaengar drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau yn eu cymuned leol
- cymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn eu hamgylchedd lleol.

## Cam cynnydd 3

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- cyfleoedd i drafod ac ymateb i heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cyfleoedd i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd y blaned
- cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o empathi gyda phobl ar raddfa leol, genedlaethol neu fyd-eang, ac i ddeall effeithiau anghydraddoldeb ac anghyfiawnder
- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau, sefydliadau a busnesau fel rhan o'r broses o gynllunio a chymryd camau gweithredu cymdeithasol

- archwilio grwpiau, sefydliadau a busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r ffyrdd y maent yn achosi ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd a wynebir gan eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i fod yn flaengar a meithrin sgiliau entrepreneuraidd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- am gysyniadau tegwch a chydraddoldeb
- y gwahaniaeth rhwng dymuniadau, anghenion a hawliau, a'r modd y gall anghenion lywio hawliau dynol
- fod gan blant hawliau a bod y rhain wedi eu diogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- pwysigrwydd parchu hawliau pobl eraill
- am yr heriau i hawliau dynol ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang yn y presennol a'r gorffennol
- am waith sefydliadau sy'n ymgyrchu dros gydraddoldeb i bawb a thros hawliau dynol
- effaith eu gweithredoedd eu hunain a gweithredoedd pobl eraill, a'u canlyniadau lleol, cenedlaethol a byd-eang posib, megis y modd y gall gweithredoedd defnyddwyr effeithio ar yr amgylchedd ac ansawdd bywyd pobl
- am eu cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd, gan gynnwys y modd y mae eu ffordd o fyw a ffordd o fyw pobl eraill yn effeithio ar y blaned ac ar bobl eraill
- am ddylanwad safbwyntiau pobl ar eu hymddygiad, eu gweithredoedd a'u penderfyniadau
- am y modd y gall yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru a'r byd ehangach fod yn gysylltiedig â phobl a lleoedd eraill
- am achosion heriau a chyfleoedd yn y gorffennol a'r presennol, a'r rhai a ragwelir yn y dyfodol
- am arwyddocâd heriau a chyfleoedd yn y gorffennol a'r presennol
- am y gwahanol ffyrdd y gwnaed newidiadau cymdeithasol yn y gorffennol
- am ganlyniadau y ffyrdd cynaliadwy ac anghynaliadwy y mae pobl yn ymateb i heriau a chyfleoedd, gan gynnwys manteision ac anfanteision masnachu egwyddorol a gwaith sefydliadau ac elusennau
- am gynaliadwyedd cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol, a phwysigrwydd perthnasau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- am rai credoau, dysgeidiaethau ac arferion sy'n dylanwadu ar weithredu cymdeithasol.

### Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:

- feithrin agweddau a sgiliau blaengar drwy gynllunio a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn eu cymuned leol
- cynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang.

## Cam cynnydd 4

### Mae angen i ddysgwyr brofi:

- cyfleoedd i drafod ac ymateb i heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cyfleoedd i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd y blaned
- cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o empathi gyda phobl ar raddfa leol, genedlaethol neu fyd-eang, ac i ddeall effeithiau anghydraddoldeb ac anghyfiawnder (o Gam cynnydd 3 ymlaen)
- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau, sefydliadau a busnesau fel rhan o'r broses o gynllunio a chymryd camau gweithredu cymdeithasol
- archwilio grwpiau, sefydliadau a busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r ffyrdd y maent yn achosi ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd a wynebir gan eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i fod yn flaengar a meithrin sgiliau entrepreneuraidd.

### Mae angen i ddysgwyr wybod:

- y gwahanol gyd-destunau lle y gall anghydraddoldeb fodoli, megis cyd-destunau rhywedd, rhywioldeb a hil
- y gwahaniaeth rhwng anghyfiawnder ac anghydraddoldeb
- am achosion a chanlyniadau anghyfiawnder ac anghydraddoldeb
- pwysigrwydd amrywiaeth a'r ffaith na ddylai amrywiaeth arwain at anghyfiawnder nac anghydraddoldeb
- am hawliau dynol, gan gynnwys bod gan blant hawliau a bod y rhain wedi eu diogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- pwysigrwydd parchu hawliau pobl eraill
- am yr heriau i hawliau dynol ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang yn y presennol a'r gorffennol
- am ystod o ffyrdd y gwnaed newidiadau cymdeithasol yn y gorffennol, a'r modd y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar fywyd pobl
- y rhyng-gysylltiadau rhwng yr heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nhw, Cymru a'r byd ehangach
- y gall barnau a safbwyntiau egwyddorol a moesol ddylanwadu ar achosion a chanlyniadau heriau a chyfleoedd yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- am rym ac awdurdod sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol lleol, cenedlaethol a byd-eang, megis mewn materion amgylcheddol ac wrth ddiogelu neu atal hawliau dynol
- am ddefnyddio a chamddefnyddio grym, gan gynnwys gwrthdaro, democratiaeth, yr anghydbwysedd grym rhwng gwledydd cyfoethog a gwledydd tlawd, arwyddocâd sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol

- am economïau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol cyfnewidiol, gan gynnwys sut gall technoleg gael effaith economaidd
- am eu rôl a'u cyfrifoldeb amgylcheddol nhw eu hunain a phobl eraill yn y broses o greu dyfodol cynaliadwy
- am rai credoau, dysgeidiaethau ac arferion sy'n dylanwadau ar weithredu cymdeithasol.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- ddefnyddio eu hagweddau a'u sgiliau blaengar drwy gynllunio a chymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau
- cynllunio, cymryd rhan mewn a gwerthuso eu gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

## Cam cynnydd 5

**Mae angen i ddysgwyr brofi:**

- cyfleoedd i drafod ac ymateb i heriau a chyfleoedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yng Nghymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i gynllunio a chymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol mewn ymateb i heriau a chyfleoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- cyfleoedd i ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch wrth ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd y blaned
- cyfleoedd i feithrin ymdeimlad o empathi gyda phobl ar raddfa leol, genedlaethol neu fyd-eang, ac i ddeall effeithiau anghydraddoldeb ac anghyfiawnder
- cyfleoedd i ymwneud â grwpiau, sefydliadau a busnesau fel rhan o'r broses o gynllunio a chymryd camau gweithredu cymdeithasol
- archwilio grwpiau, sefydliadau a busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r ffyrdd y maent yn achosi ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd a wynebir gan eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach
- cyfleoedd i fod yn flaengar a meithrin sgiliau entrepreneuraidd.

**Mae angen i ddysgwyr wybod:**

- am achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb a'u perthynas â pholisïau, grym a systemau
- y gwahanol safbwyntiau ar dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfianwder
- am ganlyniadau mentrau cenedlaethol a rhyngwladol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb
- am achosion sylfaenol enghreifftiau o dreisio hawliau dynol a hawliau plant yn y gorffennol ac yn y presennol, a'r ffactorau gwleidyddol, cyfreithiol, cymdeithasol-ddiwylliannol, crefyddol ac economaidd sy'n ategu neu'n tanseilio hawliau dynol yng Nghymru a'r byd ehangach

- am hawliau dynol, gan gynnwys bod gan blant hawliau a bod y rhain wedi eu diogelu yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- am yr heriau i hawliau dynol ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang yn y gorffennol a'r presennol
- am achosion a natur yr heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nhw, Cymru a'r byd ehangach
- y cysylltiadau rhwng yr heriau a chyfleoedd cymhleth yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol a wynebwyd, ac a wynebir, ganddynt eu hunain, Cymru a'r byd ehangach
- am yr ystod o ffyrdd y gwnaed newidiadau cymdeithasol yn y gorffennol, a'r modd y mae'r rhain wedi cael effeithiau arwyddocaol ar gymdeithasau a chymunedau
- pwysigrwydd rôl unigolion, gan gynnwys nhw eu hunain, a rôl grwpiau, gan gynnwys llywodraethau, busnesau a sefydliadau anllywodraethol, yn y gwaith o greu dyfodol cynaliadwy
- y modd y gall unigolion, grwpiau a sefydliadau gydweithio wrth ymateb i heriau a chyfleoedd
- y modd y gall ehangu grym a dylanwad gwledydd neu sefydliadau effeithio ar ddiwylliannau, agweddau a phrofiadau'r rheini dan sylw
- y modd y gallant gyfrannu at y byd gwaith a'r economi
- y modd y mae moesau, moesegau, crefydd a bydolygon yn effeithio ar ymatebion i heriau a chyfleoedd, ac ar gamau gweithredu cymdeithasol.

**Mae angen i ddysgwyr allu a gwybod sut i:**

- ddefnyddio eu hagweddau a'u sgiliau blaengar drwy gynllunio a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, a gwerthuso effeithiolrwydd eu rôl nhw eu hunain
- defnyddio eu llythrennedd cymdeithasol a gwleidyddol i feithrin dealltwriaeth gydwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau tuag at eraill a thuag at yr amgylchedd
- dangos sensitifrwydd tuag at bersbectifau gwahanol a normau diwylliannol.

# GEIRFA

| Gair/ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| **Arwyddocâd** | Arwyddocâd rhywbeth yw'r farn a lunnir am ei bwysigrwydd. |
| **Athronyddol** | Yn ymwneud ag astudio neu'n ymroi i astudio natur sylfaenol gwybodaeth, realiti a bodolaeth. |
| **Bydolwg** | Athroniaeth benodol bywyd neu gysyniad y byd. Yn y Dyniaethau, gall bydolygon gynnwys athroniaethau hanesyddol, gwleidyddol a chymdeithasol, yn ogystal â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Gall bydolygon fod yn sefydliadol neu'n bersonol. Gall ffordd unigolyn o ddeall a byw yn y byd ei hun dynnu oddi ar un neu fwy o fydolygon sefydliadol. |
| **Cwestiynau Eithaf** | Y cwestiynau penagored mwyaf oll lle ceir amrywiaeth o ymatebion posibl. Mae cwestiynau Eithaf yn archwilio cyflwr dynol. |
| **Cyfiawnder cymdeithasol** | Cyfiawnder o ran dosbarthiad cyfoeth, cyfleoedd a breintiau mewn cymdeithas. |
| **Cynaliadwyedd** | Diwallu ein hanghenion ein hunain ac anghenion pobl yn y presennol, heb roi gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn y fantol. Mae'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd yn agweddau ar gynaliadwyedd. |
| ***Cynefin*** | Dyma'r man y teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod. Nid dim ond man yn yr ystyr ffisegol neu ddaearyddol ydyw, serch hynny: dyma'r lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio ac sy'n parhau i ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno. |
| **Cynrychioliad** | Disgrifiad neu bortread o rywun neu rywbeth mewn ffordd benodol. |
| **Dehongliad** | Esboniad neu ffordd o egluro rhywbeth. Barn unigolyn sy'n seiliedig ar y dystiolaeth maent wedi ei gweld. |
| **Dilysrwydd** | I ba raddau y mae rhywbeth yn gadarn, yn rhesymol ac y mae sail dda iddo. |

| Gair/ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| **Dyniaethau digidol** | Y defnydd o dechnoleg i ymglymu gyda'r Dyniaethau. |
| **Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod** | Ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod yw'r ffynonellau amrywiol y mae pobl yn eu defnyddio wrth geisio deall rhywbeth neu wneud penderfyniadau am beth i'w wneud mewn bywyd. Gallai'r rhain gynnwys testunau allweddol, dysgeidiaethau, arweinwyr, ysgolion meddwl, athronwyr, ysgolheigion a gwyddonwyr. |
| **Gofod** | Y lleoliadau, patrymau, dosbarthiadau a chysylltiadau o ffenomena a grëir gan weithgarwch dynol ar draws wyneb y ddaear.<br>Diffiniad amgen: Gofod yw arwyneb tri dimensiwn y ddaear. O fewn y Dyniaethau, mae hyn yn ein helpu i ddeall amrywiaeth gyfoethog amgylcheddau, pobl, diwylliannau ac economïau sy'n bodoli gyda'i gilydd ar wyneb y ddaear. |
| **Gweithredu'n gymdeithasol** | Mae gweithredu'n gymdeithasol yn ymwneud ag unigolyn neu grŵp o bobl yn cymryd camau bwriadol sy'n arwain at newid, neu y bwriedir iddo arwain at newid. |
| **Ideoleg** | System o syniadau a delfrydau, neu gyfres o gredoau a nodweddiadau o unigolyn neu grŵp gymdeithasol, sy'n sail i theori neu bolisi economaidd neu wleidyddol. |
| **Lensys** | Y ffyrdd amrywiol mae pobl yn gweld neu ddeall rhywbeth. Yng nghyd-destun hwn, mae'r disgyblaethau sy'n rhan o'r Dyniaethau yn cynnig gwahanol ffyrdd o weld y profiad dynol. |
| **Lle** | Lle yw safle, pwynt neu ardal o le; lleoliad. |
| **Lluosogol** | Cyflwr neu system lle mae dau neu fwy o wladwriaethau, grwpiau, egwyddorion, ffynonellau awdurdod, credoau, egwyddorion, barn neu safbwyntiau yn cydfodoli. |
| **Moesegol** | Yn ymwneud ag egwyddorion moesol sy'n ddylanwadu ar ymddygiad person, a'u gweithredoedd a'r dewisiadau maent yn eu gwneud. |
| **Persbectif** | Agwedd tuag at rywbeth neu ffordd o ystyried rhywbeth; safbwynt. |
| **System gwybodaeth ddaearyddol** | System wybodaeth ddaearyddol a gynlluniwyd i ddal, storio, ymdrin, ddadansoddi, rheoli a chyflwyno data gofodol neu ddaearyddol. |

| Gair/ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| **Ysbrydolrwydd** | Yn ymwneud â’r ysbryd dynol a’r hyn sydd y tu hwnt i’r bwrlwm. Mae’n creu ystyr a phwrpas mewn bywyd. Gall ysbrydolrwydd gynnwys crefydd, ond nid yw o reidrwydd yn gwneud hynny. Mae datblygiad ysbrydol yn arwain at dwf mewn ymwybyddiaeth o’i hunan mewn perthynas ag eraill. |

© Hawlfraint y Goron 2019 WG35002

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: adborth

## Cyflwyniad

Rydym yn croesawu eich adborth ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

Bydd y cyfnod adborth yn dechrau ar 30 Ebrill ac yn gorffen ar 19 Gorffennaf 2019. Byddwn yn edrych ar yr adborth a ddaeth i law ac yn ymateb i themâu'r adborth ar ôl y cyfnod hwnnw.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n helpu i wneud gwaith mireinio pellach ar y canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022, cyn eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Yma, mae cwestiynau cyffredinol a chwestiynau manylach i chi roi adborth arnynt.

Os ydych yn gweithio ym myd addysg neu yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg, efallai yr hoffech ymateb i'r cwestiynau manylach sy'n ymdrin â'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu, a dysgu proffesiynol. Mae'r cwestiynau hyn yn dechrau'n gyffredinol ac yn mynd yn fwy penodol wrth fynd ymlaen.

**Rydym yn argymell eich bod yn darllen y canlynol cyn ymateb:**

- **Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022**
- **Y maes/meysydd dysgu a phrofiad yr ydych eisiau rhoi adborth arnynt**
- **Cynigion ar gyfer asesu fel sail i ddatblygu canllawiau statudol.**

Bydd pob adborth a gyhoeddir yn ddienw. Mae cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn bwysig i ni. Mae ein **polisi preifatrwydd** ar y wefan  yn esbonio sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth.

Os oes angen cymorth, e-bostiwch **CwricwlwmiGymru2022@llyw.cymru**

## Cynulleidfa

Mae'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i ddeall eich perthynas chi â'r canllawiau drafft ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022.

**Ydych chi'n gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydy** | | **Nac ydy** | |

**Os 'ydy', pa sefydliad yr ydych yn gweithio ynddo? (Os 'nac ydy', parhewch isod)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Cynradd) | | Sefydliad addysg uwch | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Uwchradd) | | DAwdurdodau esgobaethol | |
| Ysgol cyfrwng Cymraeg (Arbennig) | | Consortia rhanbarthol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Cynradd) | | Awdurdod lleol | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Uwchradd) | | Darparwr hyfforddiant preifat | |
| Ysgol cyfrwng Saesneg (Arbennig) | | Trydydd sector | |
| Ysgol ddwyieithog (Cynradd) | | Llywodraeth | |
| Ysgol ddwyieithog (Uwchradd) | | Dysgu oedolion yn y gymuned | |
| gol ganol cyfrwng Cymraeg | | Sefydliad dyfarnu | |
| ol ganol cyfrwng Saesneg | | Undeb addysgu | |
| Uned cyfeirio disgyblion | | Corff rheoleiddio (gan gynnwys Arolygiaeth) | |
| Ysgol arbennig | | Corff llywodraethu | |
| Lleoliad a ariennir nas cynhelir | | Arall (nodwch): | |
| Coleg addysg bellach | | | |

**Beth yw eich prif rôl?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth (cynradd ac uwchradd) | | Canghellor/Is-ganghellor | |
| Athro | | Darlithydd | |
| Ymarferydd | | Arloeswr | |
| Athro newydd gymhwyso | | Llywodraethwr | |
| Cynorthwyydd addysgu | | Cynghorydd Herio | |
| Uwch arweinydd | | Swyddog gwella ysgol | |
| Athro cyflenwi | | Arolygydd | |
| Pennaeth/Dirprwy bennaeth | | Arall (nodwch): | |

**Os nad ydych yn gweithio ym myd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi ddarparu adborth?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant neu ofalwr | | Cyflogwr | |
| Oedolyn 18+ (nid rhiant na gofalwr) | | Prentis | |
| Plentyn neu berson ifanc (dan 18) | | Arall (rhowch fanylion): | |
| Myfyrwyr/academaidd | | | |

**Ydych chi'n rhoi adborth ar ran grŵp neu sefydliad?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydy** | | **Nac ydy** | |

Os 'ydy, nodwch hynny.

## Adran A - Cwestiynau cyffredinol

**A1. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu plant a phobl ifanc i ddod yn:**

- **ddysgwyr galluog, uchelgeisiol**
- **unigolion iach, hyderus**
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus**
- **cyfranwyr mentrus, creadigol?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A2. Gan edrych ar y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, i ba raddau y maent yn crynhoi'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc, yn eich barn chi?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau:<br>: | | | | |

**A3. Yn eich barn chi, a fyddai modd gwella *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022*?**

| **Oes** | | **Nac oes** | |
|---|---|---|---|

**Os felly, sut y gellid eu gwella?**

**A4. I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn helpu lleoliadau ac ysgolion i nodi cryfderau a chyflawniadau dysgwyr a'r meysydd i'w gwella er mwyn iddynt allu helpu dysgwyr i wneud cynnydd drwy nodi'r camau nesaf?**

| Arbennig o gefnogol | Cefnogol iawn | Cefnogol | Gweddol gefnogol | Ddim yn gefnogol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

| |
|---|
| |

**A5. Mewn perthynas ag adrodd i rieni a gofalwr, rhannwch eich barn gyda ni ar:**

- **rôl dysgwyr wrth gyfrannu at y broses adrodd**
- **rôl rhieni/gofalwyr yn y broses adrodd**
- **yr wybodaeth y byddech am ei chynnwys.**

## Adran B – Cwestiynau manylach

**B1. Pa mor ddefnyddiol fyddai *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* i chi wrth ddatblygu cwricwlwm ar gyfer eich dysgwyr?**

| Arbennig o ddefnyddiol | Defnyddiol iawn | Defnyddiol | Gweddol ddefnyddiol | Ddim yn ddefnyddiol o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B2. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael amrywiaeth eang o brofiadau dysgu?**

**Efallai y byddwch am ystyried y dysgu ar draws y disgyblaethau a'r pynciau gwahanol sy'n rhan o faes dysgu a phrofiad.**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B3. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc i arbenigo mewn disgyblaeth neu bwnc penodol o 14 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B4. Nod *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yw helpu ymarferwyr ac athrawon i ddylunio cwricwlwm sy'n benodol i blant a phobl ifanc. I ba raddau y bydd hyblygrwydd a chefnogaeth ar gael i ymarferwyr ac athrawon wneud hyn?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B5. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau yn y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol) a themâu trawsbynciol eraill (e.e. y dimensiwn Cymreig a phersbectif rhyngwladol, sgiliau ehangach, gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith, addysg cydberthynas a rhywioldeb)?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B6. Sut y gellid mireinio'r fframweithiau trawsgwricwlaidd (*Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol*) er mwyn helpu i feithrin llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ym mhob rhan o'r cwricwlwm newydd?**

**B7. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd canllawiau'r *meysydd dysgu a phrofiad* yn helpu plant yn ystod blynyddoedd y Cyfnod Sylfaen?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B8. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn helpu ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ar gyflymder priodol i'w datblygiad o fewn y maes dysgu a phrofiad rhwng 3 ac 16 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B9. Yn eich barn chi, i ba raddau y bydd *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* yn darparu sail er mwyn helpu pobl ifanc i wneud cynnydd ar ôl 16 oed?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B10. Dylid rhoi blaenoriaeth i asesiadau ffurfiannol yn y cwricwlwm newydd. I ba raddau y mae'r cynigion asesu yn hyrwyddo'r egwyddor hon?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**B11. Mae'r cynigion asesu yn cynnig dull cymedroli ehangach – gan gefnogi deialog proffesiynol o ran natur cynnydd, dewis gweithgareddau dysgu ac asesu priodol, yn ogystal â sicrhau dealltwriaeth gyffredin o enghreifftiau o gyflawniad yng nghyd-destun y deilliannau cyflawniad.**

**Sut y byddech yn rhagweld y byddai eich lleoliad / ysgol yn rhoi'r dull hwn ar waith? Yn eich barn chi, pa gymorth pellach y byddai ei angen?**

**B12. Pa faterion ymarferol sy'n effeithio ar leoliadau ac ysgolion y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt os caiff y cynigion asesu eu rhoi ar waith?**

**B13. Yn eich barn chi, pa oblygiadau sy'n deillio o *canllawiau drafft Cwricwlwm i Gymru 2022* o ran eich anghenion *datblygiad proffesiynol* chi a'ch cydweithwyr mewn perthynas â'r canlynol:**

- **yr effaith ar arfer addysgegol**
- **goblygiadau cynllunio ar gyfer cwricwlwm wedi'i lywio gan ddibenion**
- **gofynion dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig ag addysgeg**
- **datblygu trefniadau cydweithredu yn yr ysgol a rhwng ysgolion**
- **meysydd dysgu proffesiynol penodol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad**
- **cyfleoedd i ddulliau ymholi proffesiynol ategu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd?**

**B14. Pa heriau a chyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â rhoi egwyddorion y cynigion asesu drafft ar waith?**

## Adran C – Penodol: Meysydd dysgu a phrofiad

**C1. Os hoffech ddarparu adborth penodol yn ymwneud ag un neu fwy o feysydd dysgu a phrofiad penodol, gwnewch ddetholiad ac ychwanegwch eich sylwadau isod.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Celfyddydau Mynegiannol | | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | |
| Dyniaethau | | Mathemateg a Rhifedd | |
| Iechyd a Lles | | Gwyddoniaeth a Technoleg | |

**Sylwadau (os dewiswch mwy nag un maes dysgu a phrofiad nodwch bod sylwad)**

**C2. I ba raddau y mae'r camau cynnydd ym *Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd* yn cyfleu'r galluoedd a nodir yn yr egwyddorion cynnydd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C3. I ba raddau y mae'r adrannau dysgu ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin sgiliau trawsieithu?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C4. I ba raddau y mae'r canllawiau ym *Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu* yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu'r broses o gaffael a dysgu ieithoedd?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**C5. I ba raddau y mae'r canllawiau *Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles* yn cefnogi dull gweithredu ysgol gyfan mewn perthynas â sicrhau iechyd a lles?**

| Arbennig o dda | Da iawn | Da | Gweddol dda | Ddim yn dda |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Sylwadau: | | | | |

**A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach neu roi adborth ar unrhyw beth arall?**

**Dychwelyd erbyn 19 Gorffennaf 2019**

**Ebost:** CwricwlwmiGymru2022@llyw.cymru

**Anfonwch at:**
**Adborth Cwricwlwm i Gymru 2022**
**Is-adran Cwricwlwm ac Asesu**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Monitro Tymor yr Hydref 2018 i Dymor y Gwanwyn 2019**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **C1** | **C2** | **C3** | **C4** | **C5** | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Safonau** | **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | | |
| **Hydref 2018** | | | | | | | | |
| **Ardudwy** | | | | | | 03/12/18 | 07/02/19 | **Digonol** |

| **Ysgolion Cynradd** | **C1** | **C2** | **C3** | **C4** | **C5** | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Safonau** | **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | | |
| **Hydref 2018** | | | | | | | | |
| **Yr Hendre** | | | | | | 01/10/18 | 03/12/18 | **Da** |
| **Dolbadarn** | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | 15/10/18 | 17/12/18 | **Rhagorol** |
| **Bro Llifon** | | | | | | 05/11/18 | 10/01/19 | **Da** |
| **Edmwnd Prys** | Da | Da | Da | Da | Da | 12/11/18 | 17/01/19 | **Da** |
| **Llangybi** | | | | | | 03/12/18 | 07/02/19 | **Da** |

| **Ysgolion Arbennig** | **C1** | **C2** | **C3** | **C4** | **C5** | **Dyddiad Arolygiad** | **Adroddiad Estyn** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Safonau** | **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | | | |
| | | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor yr Hydref 2018 cafodd 5 ysgol gynradd, 1 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 5 ysgol gynradd yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd ac 0 arbennig yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, ddiwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn: Tymor yr Hydref 2018**

**Ysgol Dolbadarn Hydref (2018)** **Gofal,cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol iawn trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus a thrwy wersi addysg grefyddol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r disgyblion fagu arferion ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion i'w gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd lluosog i ddisgyblion leisio'u barn trwy amrywiol fforymau, yn arbennig wrth gyfrannu syniadau am yr hyn y maent am ei ddysgu. Trwy wneud hyn, mae'r staff yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr cydwybodol sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn rhoi bri ar ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion cyfrifol wrth eu hannog i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill a chodi arian at elusennau yn rheolaidd.

**Ysgol yr Hendre** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r gefnogaeth i'r disgyblion mwyaf bregus yn nodwedd gref o ddarpariaeth yr ysgol. Maent yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yn effeithiol iawn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cynllun magwraeth i'r disgyblion sy'n mynychu sesiynau yn yr 'Hafan' o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb i anghenion plant a rhieni sydd wedi profi profedigaeth yn sensitif iawn drwy gynnig sesiynau cefnogi wythnosol am gyfnod penodedig.
Mae'r gefnogaeth i'r plant ag anghenion meddygol a synhwyrol yn gryfder yn y ddarpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r gofal gan y cymorthyddion i blant ag anghenion clyw a golwg. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ffordd mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion a'u teuluoedd yn effeithiol. Mae'r cyswllt cryf sy'n bodoli gyda'r heddlu yn cyfrannu'n werthfawr tuag at ddealltwriaeth disgyblion o beryglon cyffuriau a bod yn ddiogel ar-lein.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a moesol disgyblion trwy drefnu cyfleoedd iddynt fyfyrio mewn sesiynau cydaddoli. Mae'r staff yn annog a meithrin plant i gyfathrebu eu teimladau yn llwyddiannus. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i adnabod y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd o fewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol. Enghraifft o hyn oedd trafodaeth dreiddgar rhwng dau ddisgybl ym Mlwyddyn 4 yn ystod myfyrdod yn y gwasanaeth dosbarth. Roedd un yn teimlo i'r byw'r anghyfiawnder a'r diffyg cydraddoldeb mewn gwledydd sy'n datblygu pan nad oes masnach deg yn bodoli. Fodd bynnag, mae datblygiad addysg grefyddol yn anghyson ar draws yr ysgol ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael digon o brofiadau pwrpasol.

**Ysgol Bro Llifon (Tach 2018)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da gofal, cymorth ac arweiniad y staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. O ganlyniad, teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol. Mae medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd cadarn. Maent yn dysgu am faterion moesegol fel masnach deg a sut gallant chwarae rhan i sicrhau byd tecach. Mae'r cynllun 'Bydis Buarth' sy'n annog disgyblion i gynnal a gofalu am ei gilydd yn ystod adegau egwyl yn cyfrannu'n ardderchog at sicrhau cymuned gynhwysol a chyfartal.

Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Fe drefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn trwy gynghorau amrywiol. Mae'r arweinwyr a'r staff yn ystyried eu barn o ddifri, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion ac yn meithrin synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill ynddynt.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ynglŷn ag amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

**Ysgol Edmwnd Prys (Tach 2018) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae llais y disgybl yn ganolog i waith ac ethos yr ysgol, sy'n annog disgyblion hyderus a theyrngar. Mae'r naws deuluol yn hyrwyddo parch a chwrteisi ymysg y disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn ymhyfrydu yn eu gweithgareddau dyddiol a'r gymyned ehangach. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gydweithio effeithiol er lles pob disgybl, er mwyn iddynt gyflawni ar eu gorau'n gyson.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, trwy gydaddoli rheolaidd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio'n dawel. Mae sesiynau 'meddylfryd iach' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion drafod materion pwysig, gan gynnwys hawliau dynol, tegwch a chyfiawnder.

**Ysgol Llangybi (Rhag 2018) Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n meithrin medrau personol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Trwy'r cwricwlwm, arferion dyddiol, amser cylch a chyd-addoli, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o werthoedd fel gonestrwydd, goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol.

Caiff disgyblion gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r agweddau hyn. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cymunedol ac ymweliadau lleol fel Pont y Merched a Garn Bentyrch. Mae hyn yn hyrwyddo eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn llwyddiannus.

**Ysgol Ardudwy Harlech (Rhag 2018) Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Ceir darpariaeth briodol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Gwneir hyn trwy wasanaethau'r ysgol, siaradwyr gwadd a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol addas a chynhwysfawr. Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Er enghraifft, mae llysgenhadon ifanc yr ysgol wedi cymryd rhan mewn gorymdaith yn Harlech gyda'r aelod seneddol lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol yn y gymuned. Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol ag unigolion ac asiantaethau allanol sydd yn cyfrannu i'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, er enghraifft y Groes Goch, y gwasanaeth tân ac elusen i'r digartref. Mae swyddog cymunedol yr heddlu yn ymweld yn gyson er mwyn trafod a holi ynghylch â materion sydd o ddiddordeb i'r disgyblion.

**Enw'r Ysgol: YSGOL EDMWND PRYS GELLILYDAN**

| Addysg Grefyddol |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:
Y CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau sylfaenol yn hyderus. Mae'r pwyslais cynyddol ar sgiliau, medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn ysgogi gweithgareddau amrywiol ac annibynnol mewn addysg grefyddol ac mae mwynhad y disgyblion yn y gweithgareddau yma yn amlwg.
Mae llawer yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol ac yn datrys problemau'n effeithiol trwy ddefnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol.
Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa crefyddol a chystrawen gynyddol gywir yn y Gymraeg. Gall llawer sgwrsio'n naturiol a rhugl am eu gwaith o oed cynnar. Mae'r lleiafrif nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn caffael y Gymraeg yn gyflym ac yn llwyddiannus.
Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol.
O edrych ar samplau gwaith a llyfrau'r disgyblion gwelir amrywiaeth o gyflwyniadau sy'n adlewyrchu'r sgiliau perthnasol. Rhoddir brofiadau amrywiol a heriol i'r disgyblion hynaf tra bod sgiliau darllen a chofnodi y Cyfnod Sylfaen yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Fframwaith Genedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol.
Datblygir gallu bron pob disgybl i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd llawer o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae llawer yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hwy gan gynnig eu barn eu hunain. Oherwydd natur y themau mae lleiafrif iawn o'r disgyblion yn dechrau cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol. Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain oherwydd natur y themau mae tua y rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol. mae y rhan fwyaf yn cyflawni Lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol yn CA2.
Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf eirfa bynciol dda. Maent yn cyfrannu'n ddeallus i drafodaethau dosbarth gan fynegi barn yn glir am y gwaith thema a'r gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).Gwneir defnydd effeithiol iawn o TGch i gofnodi gwaith addysg grefyddol ar draws yr ysgol.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: dda**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, agweddau cadarnhaol at eu dysgu.Mae gan bron pob disgybl ddiddordeb mawr yn y maes Addysg grefyddol.Mae'r rhan fwyaf yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac mae'r cydweithio llwyddiannus hwn yn nodwedd gref ymhob dosbarth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae'r disgyblion hŷn yn derbyn arweiniad ar sut i gefnogi'r disgyblion iau, gan weithredu hyn yn gydwybodol. Mae hwn yn arfer gwerthfawr ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at ymddygiad synhwyrol bron pob un disgybl. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth glir o bwysigrwydd trin pawb gyda pharch a chwrteisi. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, sy'n debyg neu'n wahanol iddyn nhw. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal.
Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd yn y dosbarthiadau ac maent yn cyfrannu at ddatblygu agweddau bositif tuag at rannu problemau ac i deimlo empathi tuag at ei gilydd. Maent hefyd yn hyrwyddo sgiliau trafod, gwrando ac ymateb i eraill yn dda iawn. Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae llawer yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.
Mae cyswllt agos rhwng yr ysgol âg elusennau dyngarol megis Ambiwlans Awyr, Plant mewn Angen, Macmillan ayyb. Mae hyn yn datblygu empathi a goddefgarwch ac yn sicrhau bod pob disgybl yn meddwl am eraill.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: dda**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae'r ysgol wedi cynllunio'n briodol ar gyfer cyflwyno'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Oherwydd hyn mae safonau addysg grefyddol yn dda ar draws yr ysgol.

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd o 'Pobl, Credoau a chwestiynau Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-7 oed yng Nghymru' pan yn cynllunio unedau o waith.
- Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod .
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Ceir disgwyliadau uchel gan yr athrawes a chynhaliaeth gyson.
- Rhoddir bri ar waith dosbarth mewn gwasanaethau ysgol ac arddangosfeydd dosbarth.
- Gwneir defnydd helaeth o wefannau megis HWB a Purple Mash fel adnoddau rhyngweithiol.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen
**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o o leiaf dwy awr bob pythefnos ar gyfer Addysg Grefyddol yn Cyfnod Allweddol 2
- Mae athrawon Ysgol Edmwnd Prys ac Ysgol Bro Cynfal wedi treulio cyfnodau yn cynllunio ar y cyd ac mae y ddwy ysgol yn dilyn yr un themau/testunau er mwyn sicrhau cysondeb.

- Mae cynlluniau hir, canolig a byr yn weithredol mewn Addysg Grefyddol ac fe rhennir adnoddau/ymweliadau rhwng y ddwy ysgol erbyn hyn.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Fel canlyniad i hyfforddiant eang, archebu adnoddau cyfoethog sydd yn dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o'r maes y mae'r ddarpariaeth yn dda  ar draws y cyfnod.
- Mae dulliau asesu manwl yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn INCERTs yn ddiweddar sydd yn sicrhau asesu manwl o'r maes Addysg grefyddol o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant. Mae'r ysgol wedi bod ar ymweliad i Eglwys Maentwrog er mwyn creu llyfryn i ymwelwyr.

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: dda**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:
Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar. Mae llais y disgybl yn ganolog i waith ac ethos yr ysgol, sy'n annog disgyblion hyderus a theyrngar. Mae'r naws deuluol yn hyrwyddo parch a chwrteisi ymysg y disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, maent yn ymhyfrydu yn eu gweithgareddau dyddiol a'r gymyned ehangach. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gydweithio effeithiol er lles pob disgybl, er mwyn iddynt gyflawni ar eu gorau'n gyson.. Cynllunnir gwersi addysg grefyddol i sicrhau fod gwerthoedd sicr fydd yn sefydlu credoau ysbrydol a moesol yn cael eu datblygu. Trafodir gwerthoedd a chredoau y disgyblion eu hunain gan hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn meithrin gwerthoedd cyffredin sylfaenol, fel gonestrwydd, tegwch a chyfiawnder.
Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus, trwy gydaddoli rheolaidd a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio yn dawel
Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth  ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad. Nid oes unrhyw blentyn wedi ei dynnu allan o addoli ar y  cyd yn yr ysgol.
Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gyfrannu at fywyd a gwaith yr ysgol, y gymuned leol a'r byd ehangach.
Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Rhoddir cyfleoedd i bob disgybl gymryd rhan naill ai'n gyhoeddus neu trwy fyfyrio.
Mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.
Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad.
Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau.
Cynhelir gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig yn y gymuned. Mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn yr eglwys a'r capel lleol. Mae gweithgareddau cymunedol yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol.
Cyflwynir gwasanaethau bob mis gan aelodau  'Agor y Llyfr'-mae'r cyflwyniadau yn fywiog ac yn gwella dealltwriaeth holl disgyblion yr ysgol o storiau amrywiol  y Beibl gan gyfrannu at ddatblygiad ysbrydol a moesol. Cyflwynir y cyflwyniadau yn y Saesneg sydd yn helpu sgiliau ieithyddol ail –iaith y disgyblion hefyd.
Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant a'u bod yn ymateb i'n trefniadau diogelu ac yn cydymffurfio â nhw, ac yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch.

| |
|---|
| Mae gan yr ysgol bolisiau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Amddiffyn Plant yr AALl a chydweithredir gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob achos.<br>Mae holl bolisïau yn ymwneud ag Amddiffyn Plant Diogelu yn cael ei adolygu'n flynyddol.<br>Mae holl aelodau staff yr ysgol yn ymwybodol o weithdrefnau 'Amddiffyn Plant' yr ysgol.Cynhelir hyfforddiant lefel 1 o leiaf unwaith bob blwyddyn.<br>Mae'r ysgol yn cwblhau adroddiad blynyddol Amddiffyn Plant bob blwyddyn ac yn ei anfon i'r person dynodedig yn yr awdurdod (Delyth Griffith).<br>Mae'r plant yn cael eu holi'n flynyddol ar ffurf holiadur os ydynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Roedd pob plentyn bl 3-5 yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel (Gwanwyn 2018)<br>Mae'r ysgol wedi ymateb i radicaleiddio drwy fabwysiadu polisi radicaleiddio a thrwy hyfforddiant Channel i holl staff yr ysgol.<br>Mae trefniadau recriwtio, disgyblu ac adrodd i sicrhau addasrwydd staff a gwirfoddolwyr yn bodloni gofynion cyfreithiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn:** dda | | | | |

| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau:<br>Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar ddatblygu'r disgyblion, hyd eithaf eu gallu, mewn awyrgylch hapus, gynhaliol Gymreig. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol iawn gan bennaeth cynorthwyol dawnus a chadarn. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn gweithredu cyfundrefn sydd yn dosbarthu cyfrifoldebau yn ddeallus i'r staff-sydd yn sicrhau fod gan arweinydd pwnc megis addysg grefyddol y ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, trwy ddefnyddio heriau i ysgogi creadigrwydd disgyblion o fewn themâu diddorol megis thema Iddewon yn ddiweddar. Caiff cynlluniau gwaith eu monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod yr hyn a addysgir yn bwrpasol a chreadigol. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr a chyfredol yn eu lle. Mae arweinwyr y ddwy ysgol, sydd yn y clwstwr, yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd i ymdrin â chynlluniau ac arferion gwella ansawdd yn effeithiol. Maent yn cynnwys craffu ar waith ac arsylwi gwersi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn rheolaidd, gan ddilyn amserlen fonitro flynyddol. Mae gweithdrefnau effeithiol i ddatblygu staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac arbenigedd staff. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn:** dda |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| Datblygu medrau ysgrifennu ymestynnol y disgyblion yn effeithiol i adlewyrchu eu gwir alluoedd-gan gynnwys mewn Addysg Grefyddol | **I'w cynnwys yn y CGY 2019-20** | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Herio'r disgyblion mwyaf galluog i berfformio ar eu gorau'n gyson drwy sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio trwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol. | **I'w cynnwys yn y CGY 2019-20** | | |
| Cyfoethogi'r adnoddau yn yr ardal allanol yn y cyfnod sylfaen i ddatblygu medrau'r disgyblion ymhellach | Gwneud cais am grant gan Ernest Cook Trust er mwyn datblygu yr ardal tu allan ymhellach. | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Iona Wyn Jones** |
| **Llofnod y pennaeth** | I W Jones |
| **Dyddiad:** | 08.01.19 |

**Hunan Arfarniad Addysg Grefyddol Ionawr 2019**

**Ysgol Dolbadarn, Llanberis, Gwynedd**

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

- Mae'r safonau Addysg grefyddol yn rhagorol o fewn yr ysgol. Mae arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau ac arolwg Estyn Hydref 2018 yn adlewyrchu ac wedi adnabod hynny.
- Mae bron pob disgybl yn dangos cynnydd dros y flwyddyn yn y maes ac mae cofnodion asesu, targedu a thracio yn dangos cynnydd da iawn neu well ymhob dosbarth.
- Mae'r rhan fwyaf o'r Asesu ar Gyfer Dysgu a wna'r disgyblion ynghyd a'r cynllun cywiro a ddefnyddir gan yr athrawon wth ymateb i waith disgyblion yn golygu bod y disgyblion yn ymwybodol o safon eu gwaith a'r hyn sydd ei angen i'w wella. Disgyblion yn adfyfyrio yn effeithiol ar eu dysgu eu hunain.
- Mae'r holl ddisgyblion yn adnabod Meini Prawf Llwyddiant sy'n ymwneud ac Addysg Grefyddol sydd wedi arwain at godi safonau. Hyn yn weladwy yn llyfrau'r disgyblion - disgyblion llawer iawn fwy hunangynhaliol.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r athrawon yn defnyddio cynllun Peniarth. Mae'r llyfrau a'r storiâu wedi eu rhannu rhwng y themâu. Yn ogystal maent yn cael straeon amrywiol o'r Beibl ynghyd â thrafod Sikkiaid wrth astudio Seremoni Enwi a thrafod Islam wrth astudio y testun Gwnewch y pethau bychain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi holi Pam fod Iesu Grist wedi marw yn Stori'r Pasg ac mae bron bob un wedi cynnig syniad sut allwn gadw Llanberis yn daclus wrth drafod y llyfr 'Planed Harri', Trafodwyd Iddewiaeth a'r Ŵyl Pesach ac mae pob disgybl yn deall cynnwys y plât seder. Mae llawer wedi Trafod Masnach deg yn llwyddiannus. Mae bron bob un o'r plant yn gallu rhoi cynnig ar syniadau i ysgrifennu gweddi Diolch. Rydym yn cael ymweliadau rheolaidd drwy gynllun 'Efe' a daeth y parch Carol Roberts i gynnal seremoni bedyddio a dangoswyd arteffactau crefyddol. Cafwyd ymweliadau ar eglwys a'r capel gan gynnwys gweithdai gan Mrs Susan Williams a'r Parchedig John Pritchard.

Yng CA2 mae'r disgyblion yn cael cyfnodau rheolaidd i ofyn cwestiynau am grefydd e.e Pam fod pobl yn mynd ar bererindod? Beth yw cristion? Beth yw heddwch? Maent yn defnyddio eu profiadau eu hunain ac eraill i ganfod atebion e.e Parchedig John Pritchard/ Y we a llyfrau o bob math. Mae'r plant wedi astudio pererindod sy'n perthyn i wahanol grefyddau yn ogystal â disgrifio eu pererindod delfrydol hwy eu hunain e.e lan y môr neu goedwig.
Mynegi barn a chwestiynau effeithiol gan y rhan fwyaf o'r disgyblion. Teimlwyd fod y gwaith o geisio deall beth fyddai arferion a defodau crefyddol y Cristion yn heriol ac yn diwallu anghenion unigol pob plentyn. Cafwyd gwaith cynhwysfawr gan bron pob disgybl. Defnyddiwyd ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol ar gyfer y gweithgareddau. Defnyddiwyd amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau amrywiol. Drwy dasgau amrywiol wrth drafod y cwestiwn 'Sut a pham mae gwahanol grefyddau'n diolch' mae rhan fwyaf o'r plant wedi deall pwrpas y gwyliau Eid ul Fitr/ Gwyl Sukkot/ Gwyl Diolchgarwch.
Mae bron pob disgybl wedi deall pwysigrwydd y gwyliau i ddilynwyr a mae bron bob un wedi deall effaith gwyliau ar ffordd o fyw. Mae'r mwyafrif wedi deall pwysigrwydd rhai rheolau o'r Beibl, Torah a'r Quran i ddilynwyr.

**Medrau Llythrennedd -Siarad a Gwrando**

•Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyfathrebu'n rhwydd am Addysg Grefyddol yn y ddwy iaith yn ôl oedran a gallu ac mae eu sgiliau trafod erbyn diwedd CA2 yn dda iawn . Mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn hyderus, gyda'r goreuon yn cyfrannu'n estynedig mewn trafodaethau dwys eu natur erbyn brig CA2.

•Mae bron pob disgybl yn darllen yn dda ac erbyn Bl2 maent yn gallu trafod a mynegi barn am yr hyn a ddarllenwyd am Grefyddau, storiau etc

•Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn CA2 yn darllen a datblygu medrau darllen lefel uwch wrth gasglu

gwybodaeth Grefyddol . Mae ansawdd ysgrifennu bron pob un o'r disgyblion yn briodol i'w hoed â'u gallu wrth ysgrifennu am unrhyw agwedd crefyddol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu cymhwyso sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn dda iawn.

•Mae sgiliau sillafu a gramadeg y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda drwy'r ysgol gan gynhyrchu gwaith sydd yn addas i'w hystod oed a'u gallu. Gallant ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd. Gwir dweud bod y safonau yn briodol a thu hwnt yw'n hystod oed a thystiolaeth i weld yn llyfrau'r disgyblion.

**Medrau Rhifedd**

•Mae medrau mathemategol/rhif a'u gallu i'w cymhwyso yn dda ac maent yn gallu eu cymhwyso yn drawsgwricwlaidd sy'n cynnwys Addysg Grefyddol

•Mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu dehongli data wedi ei gyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd.

•Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion drosglwyddo'r hyn maent wedi ei ddysgu mewn gwersi mathemateg ar draws y Cwricwlwm yn llwyddiannus. Cynigir digon o gyfleoedd i ddatblygu rhifedd ac mae gwaith y disgyblion yn cyfateb i ofynion y Fframwaith Rhifedd, ac yn addas ar gyfer oedran a gallu.

Me**drau TGCH**

•Mae'r plant yn ddefnyddwyr hyderus ar TGCh mewn amryw o gyd-destunau a thasgau real sy'n ymwneud ac Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol i safon dda.

•Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion CA2 yn llwyddo i gyfathrebu drwy ddefnyddio ystod o feddalwedd ac yn ymchwilio ar y rhyngrwyd yn llwyddiannus i'w hoedran â'u gallu.

•Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol wrth lunio a defnyddio data i bwrpas penodol i greu graffiau a siartiau amrywiol.

•Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol i gymhwyso sgiliau i ddefnyddio technoleg er mwyn cyfoethogi eu dysgu yn drawsgwricwlaidd.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**

***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

- Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer lles ac iechyd disgyblion yn ogystal â'u datblygiad ysbrydol, moesol

a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol wybodaeth dda am bob plentyn a'u hanghenion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar a meddwl am eraill.

- Nodwyd yn adroddiad Estyn

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol iawn trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus a thrwy wersi addysg grefyddol..

'Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae'r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r disgyblion fagu arferion ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion i'w gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.'

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac yn deall trefniadau'r ysgol i ymdrin â bwlio a chamymddwyn. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn.
- Dengys holiaduron rhieni (Haf 2016) bod 100% yn cytuno neu gytuno'n llwyr fod eu plant yn hoffi dod i'r ysgol .Dywed 99% eu bod yn helpu eu plentyn i ddatblygu'n gymdeithasol.
- Dengys holiaduron dosbarth bod y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Dywed bron bob un bod eu hathrawon yn eu helpu i ddeall eu gwaith.
- Gwneir defnydd da o'r newyddion i godi ymwybyddiaeth disgyblion o gynefinoedd, trychinebau naturiol. Bu i ddisgyblion y Cyngor ysgol godi arian tuag apêl Anthony Nolan (ac enwebwyd disgyblion yr ysgol ar gyfer y wobr ' Young Heroes Award Haf 2016 a gwahoddwyd hwy i Lundain i Dy'r Cyffredin)',yn ogystal â hynny gwnaethpwyd gyfraniadau i Sport Relief, Plant Mewn Angen a hefyd ar gyfer apêl Daeargryn Nepal a Chymdeithas Alzheimer yn 2016/7.
- Mae bron pob disgybl yn gwerthfawrogi a chyfrannu at eu lles eu hunain a lles eraill. Mae bron pob un yn ymwybodol o'u teimladau a'u safbwyntiau eu hunain a datblygant y gallu i'w mynegi mewn ffordd gytbwys a phriodol.
- Mae bron pob disgybl yn deall y berthynas rhwng teimladau credoau a gwerthoedd. Deallant fod gan eraill a theimladau a chredoau sy'n effeithio ar y ffordd maent yn meddwl ac ymddwyn.
-
    - Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn dda i brofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd. Un o flaenoriaethau'r ysgol eleni yw 'Meddylfryd o Dwf' ac fe roddir canmoliaeth i ddisgyblion am roi cynnig ar bethau a sefyllfaoedd newydd, canolbwyntio, dyfalbarhau, ymroi i dasgau, cydweithio.
    - Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i bob un disgybl ddatblygu'n addysgol a chymdeithasol gan ymgymryd â chyfrifoldebau o fewn eu hoedran. Adlewyrchwyd hyn yn holiaduron rhieni gyda 100% yn cytuno'n llwyr fod yr ysgol yn helpu 'fy mhlentyn i ddatblygu yn gymdeithasol ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.' ( Haf 2016)
    - Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dechrau llunio m.p.ll. ar gyfer eu gweithgareddau Addysg grefyddol eu hunain. Mae hyn hefyd wedi hen sefydlu yn CA2 ac mae'r disgyblion yn cyfrannu yn dda ac yn effeithiol wrth gynllunio unedau o waith ar y cyd ar sefyllfa newydd o fod yn rhan o'r cynllunio. Erbyn brig yr ysgol mae'r plant yn cynnig sylwadau ar gyfer gwella eu gwaith ei gilydd, gyda'r goreuon yn mynd ati yn llwyddiannus i weithredu'r gwelliannau hynny. Mae hyn yn datblygu'n arfer dda iawn yn yr ysgol. Dengys arsylwadau fod y cynllun ABCh o fewn ein cynlluniau tymhorol ynghyd â'r profiadau gwerthfawr a gânt wedi arwain at sgiliau emosiynol o lefel uchel yn y rhan fwyaf o'r plant. Mae hunan hyder a hunan a delwedd y rhan fwyaf o'r plant yn nodweddion amlwg iawn.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN**

**Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**

***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau: Gweler adroddiad 2016 - modd gweld fel mae'r maes wedi ei ddatblygu - ceir adroddiad manwl eu hysgrifennu Ebrill 2019 yn dilyn monitro- pob tair blynedd yn canolbwyntio ar addysg grefyddol yn unig. Cynllunir addysg grefyddol yn y CS a CA2 sydd yn cydfynd â'r Themâu. Cylch 4 blynedd. Cyfoethogir profiadau

disgyblion trwgy gyfuniad effeithiol o ymweliadau. Gwneir defnydd o'r eglwys a'r capel ac ymweliadau byddai o fudd i gyfoethogi'r profiad. Eleni rydym wedi bod yn arborfi gyda ein cynlluno i gyd fynd gyda disgwyliadau Donladson a Cwricwlwm i Gymru. Roeddir sylw i'r 3 diben ar gyfer pob weithgareddd sydd yn ymwneud â'r dyniaethau. ( gweler samplau)

Mae cofnodion arsylwi gwersi yn dangos bod yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol gydag agweddau o ragoriaeth yn y CS o a blwyddyn 6. Mae adroddiadau craffu llyfrau tymhorol yn adnabod bod yr addysgu'n dda neu well ar draws yr ysgol.

**Cryfderau'r addysgu sy'n arwain at godi safonau yw:**

- Cynllunio effeithiol a chreadigol yn cynnwys cyd gynllunio rhwng yr athrawon a chymorthyddion er mwyn sicrhau dilyniant yn y pynciau a'r sgiliau.
- Cynllun a strwythur pendant y gwersi sy'n rhoi sylw da iawn i'r Medrau Meddwl a'r Medrau Allweddol.
- Rhan weithredol i'r plentyn yn y drefn o gynllunio'n dda iawn ar draws yr ysgol. Holiadur Asesu ar gyfer dysgu(Mawrth 2015) - Amlygir fod 97% o ddisgyblion CA2 yn gwneud defnydd o fapiau meddwl wrth gynllunio eu gwaith ysgrifenedig.
- Amrediad ac ystod o ddulliau addysgu yn sicrhau cyfranogiad gan y disgyblion.
- Amcanion a deilliannau dysgu clir yn cael eu rhannu a'u cytuno arnynt gyda'r plant - defnydd cynyddol o MPLI a'r disgyblion yn eu llunio'n annibynnol erbyn diwedd CA2 - wedi arwain llawer o'r disgyblion i weithio'n annibynnol.
- Gwaith gwahaniaethol yn cael ei ddarparu i gwrdd ag anghenion pob disgybl a lefel addas o her sy'n galluogi rhagoriaeth.
- Defnydd helaeth o gwestiynau lefel uwch sy'n arwain at drafodaethau effeithiol ac ansawdd uwch i'r gwersi.
- Athrawon a chymorthyddion yn cynnig model dda o iaith raenus gan fwydo geirfa i'r disgyblion.
- Athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac effaith hyn i'w weld yn safon y gwersi ac yn llyfrau'r plant.
- Defnydd o gymorthyddion yn dda ac weithiau'n ragoriaeth.
- Defnydd o TGCh pwrpasol yn cyfoethogi'r addysgu mewn sawl dosbarth .
- Adroddiadau Arsylwi gwersi yn nodi ansawdd y gefnogaeth a roddir gan gymorthyddion yn y dosbarthiadau.

********************************

- Mae dulliau addysgu dwyieithog yr ysgol yn dda iawn. Cymerir mantais o'r ffaith bod nifer helaeth o ddisgyblion o gefndiroedd Seisnig ynghyd a'r pwyslais a roir i ddatblygu'r Gymraeg, er mwyn datblygu dwyieithrwydd naturiol yn y disgyblion.
- Rhwydweithio Ysgol i Ysgol wedi bod yn elfen gadarnhaol i ddatblygu agweddau megis sgiliau addysgu Geirio Gwych/Tric a Chlic
- Mae gan yr holl staff addysgu berthynas waith dda gyda'r disgyblion. Yr ysgol wedi parhau ar arfer o weithredu egwyddorion 'Webster Stratton'. Strategaethau o'r math yn cynnal ethos gadarnhaol yn y dosbarth sy'n arwain at ymddygiad bositif yn bron bob un o'r dosbarthiadau. Arsylwadau gwersi, barn a holiaduron disgyblion CA 2 yn profi fod ymddygiad yn dda yn y gwersi.
- Adroddiad ymgynghorwyr hefyd yn dystiolaeth fod ymddygiad yn dda iawn yn y gwersi - 'ymddygiad y disgyblion o bob oed yn dda iawn'. Yn ogystal ' roedd y berthynas waith yn dangos parch at y plant a'u hymdrechion ac yn cynnwys canmol rheolaidd - cyfraniad allweddol tuag at amgylchedd dysgu ysgogol a llwyddiannus'.Roedd pob plentyn yn ymddwyn yn arbennig o dda. Gwelwyd awyrgylch ac ethos arbennig yn y dosbarth plant ar dasg yn effeithiol iawn. (sylwadau Derek Evans YH GwE Mawrth 2017).
- Mae portffolios a chyd asesu wedi digwydd fel ysgolion Cynradd Dalgylch ac Uwchradd wedi arwain at sicrhau cysondeb mewn asesiadau. Bu cymedroli effeithiol Ysgol i Ysgol i lefelu gwaith rhifedd a llythrennedd y Cyfnod Sylfaen (Deilliant 5+6) yn ogystal â thriawdau dysgu rhwng 3 ysgol sydd wedi amlygu cysondeb ac ymwybyddiaeth o osod her i ddisgyblion Blwyddyn 2. Bu cymedroli hefyd o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a samplau gwaith yn cael eu harfarnu.
- Mae staff yr ysgol yn cynnal craffu ac arsylwi gwersi mewnol fel bod staff yn cael gweld arfer dda a rhannu syniadau- mae hyn wedi codi safon yr addysgu a dysgu a hefyd sicrhau lefel briodol o her.

Holiaduron rhieni Haf 2016 yn datgan:

Mae safon yr addysgu yn dda yn yr ysgol: Cytuno'n llwyr 42% Cytuno 56%

Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd addysgol da neu well yn yr ysgol Cytuno'n llwyr 52% cytuno 46%

Mae'r ysgol yn annog fy mhlentyn i wneud ei orau/gorau ac mae'r disgwyliadau yn uchel. Cytuno'n llwyr 42% cytuno 52%

Dywedodd Estyn

M*ae nodweddion arwyddocaol y strategaethau addysgu hynod lwyddiannus a ddefnyddir ar draws yr ysgol yn*

*cael effaith gadarnhaol ac uniongyrchol ar gyflawniad a lles y disgyblion. Mae’r drefn gytûn o gynllunio gweithgareddau dysgu gwahaniaethol sy’n mynd i’r afael ag anghenion disgyblion o bob gallu yn nodwedd gref iawn. Mae’r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus sy’n cynnwys ystyried syniadau’r disgyblion fel mannau cychwyn.....*

*Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o bob disgybl, ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a’u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un disgybl yn ymroi’n llwyr i’w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, ac yn arddangos cymhelliant uchel.*

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I’ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau• Cynhelir sesiynau Amser Cylch effeithiol yn achlysurol ym mhob dosbarth a sicrheir cyfleoedd da i fyfyrio, holi a rhyfeddu. 83% o'r disgyblion yn credu eu bod yn cael cyfle i leisio barn neu drafod problemau- sy'n dangos elfen dda iawn o safbwynt partneriaeth a llais y plentyn. •Mae’r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn dda.
• Mae’r rhaglen ABaCh wedi ei fapio yn dda yn drawsgwricwlaidd ar gyfer Cyfnod Sylfaen a CA2. Mae sesiynau amser cylch yn caniatáu cyfleoedd da i’r disgyblion fynegi, rhannu a thrafod teimladau a materion o bwys iddynt. Yn ogystal os codir unrhyw fater bydd croeso i’r disgybl dan sylw gael trafodaeth bellach gydag aelod o’r staff.
• Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda iawn. Cant gyfleoedd i fyfyrio ar gwestiynau mawr y byd, ac mae eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth o arferion a storïau Cristnogol yn dda. Mae dysgu am gredoau neu grefyddau eraill yn dda yn yr ysgol.
• Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad moesol y disgyblion yn dda iawn. Rhoddir pwyslais amlwg ar barch, tegwch a gonestrwydd. Defnyddir storïau mewn cyfnodau amser cylch, gwersi ABaCH a chyfnodau cyd addoli/gwasanaethau i drafod materion sydd yn annog trafodaethau sy’n gywir ac anghywir. Gosodir sylfeini cadarn gan gynllun Gem a Huw i atgyfnerthu gwerthoedd efo carfan ddethol o ddisgyblion.
• Mae cynllun ABaCh, amser cylch a gwasanaethau yn arwain at ethos oddefgar a pharchus o fewn y gymuned ddysgu.
• Sicrheir ein bod yn hyrwyddo parch at wahaniaethau a chydraddoldeb hiliol a hyrwyddir disgwyliadau uchel gan holl ddisgyblion yr ysgol wrth drafod cydraddoldeb. Gwneir trwy ein gwaith thema a gwasanaethau cydaddoli.

Dywedodd Estyn Hydref 2018
‘Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol iawn trwy ddarparu gwasanaethau cyd-addoli symbylus a thrwy wersi addysg grefyddol..
Mae’r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Amlygir hyn yn glir yn y ffordd hynaws y mae’r ysgol yn cynnig arweiniad gwerthfawr i’r disgyblion fagu arferion ymddygiad da. Mae ymddygiad cyfeillgar y disgyblion i'w gilydd yn dystiolaeth o lwyddiant y cymorth gofalgar hwn.’

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy’r ysgol yn bodloni’r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **x** | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a’r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn***

| ***effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
|---|
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| Nodiadau:<br>Mae gan yr arweinydd pwnc Addysg Grefyddol y medrau a'r ddarpariaeth i arwain y pwnc yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Rydym yn buddsoddi mewn adnoddau i gyfoethogi'r ddarpariaeth.<br>Rydym yn monitro Addysg Grefyddol mewn manylder pob tair blynedd. Rydym yn ystyried safbwyntiau'r disgyblion ac mae'r cynllunio ar adegau yn seiliedig o lais y plentyn.<br>Gweler yr adroddiad fwyaf diweddar. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: rhagorol** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth Gareth Fôn Jones**

**Llofnod y pennaeth** Gareth Fôn Jones

**Dyddiad:22/01/19**

**Monitro Tymor yr Gwanwyn - Haf 2019**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Ceisir sicrhau fod y rhaglen monitro yn cyd-fynd â rhaglen arolygu Estyn. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| Ysgolion Uwchradd | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn 2019** | | | | | | | | |
| **Haf 2019** | | | | | | | | |

| Ysgolion Cynradd | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwanwyn 2019** | | | | | | | | |
| **Y Faenol** | Da | Da | Da | Da | Da | 21/01/19 | 25/03/19 | **Da** |
| **Maesincla** | | | | | | 18/02/19 | 24/04/19 | **Rhagorol** |
| **Brynaerau** | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | 04/03/19 | 09/05/19 | **Rhagorol** |
| **Llandygai** | | | | | | 18/03/19 | 23/05/19 | |
| **Haf 2019** | | | | | | | | |
| **Pentreuchaf** | | | | | | 29/04/19 | 03/07/19 | |
| **Bethel** | | | | | | 13/05/19 | 16/07/19 | |
| **Garnedd** | | | | | | 20/05/19 | 23/07/19 | |
| **Tudweiliog** | | | | | | 10/06/19 | 12/08/19 | |

| Ysgolion Arbennig | C1 Safonau | C2 Lles ac agweddau at ddysgu | C3 Addysgu a phrofiadau dysgu | C4 Gofal, cymorth ac arweiniad | C5 Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dyddiad Arolygiad | Adroddiad Estyn | Canfyddiad Estyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor y Gwanwyn 2019 cafodd 4 ysgol gynradd, 0 ysgol uwchradd a 0 ysgol arbennig eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 4 ysgol gynradd yn ogystal ag 0 ysgol uwchradd ac 0 arbennig yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu Estyn ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, ddiwylliannol a chymdeithasol:

**Sylwadau Estyn: Tymor y Gwanwyn 2019**

**Ysgol Y Faenol (Ionawr 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn creu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, parch ac ymroddiad yn effeithiol. Mae diwylliant gwrthfwlio cryf yn yr ysgol ac mae'r athrawon yn arfogi'r disgyblion i feithrin y medrau angenrheidiol i oresgyn problemau yn llwyddiannus. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad cadarnhaol rhan fwyaf y disgyblion a'u hymagwedd gadarnhaol tuag at ei gilydd.

Mae'r ysgol yn darparu ymyraethau sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cyfle i fynegi eu teimladau ac yn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o fywyd yr ysgol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o'r ardal leol a Chymreictod yn effeithiol, er enghraifft wrth astudio hanes Stad y Faenol a thrwy drefnu ymweliad â Chaerdydd. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae athrawon yn meithrin medrau diwylliannol disgyblion yn effeithiol trwy ddysgu am weledydd amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw prosiect cyfnod allweddol 2 ynglŷn â chynnyrch masnach deg ym Malawi, Ghana, India a Sri Lanka.

**Ysgol Brynaerau (Mawrth 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion, yn nodwedd gref o waith yr ysgol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu profiadau dychmygus disgyblion, er enghraifft trwy gydweithio gyda chwmni dawns, i ddatblygu medrau drama a dawnsio'r disgyblion. Nodwedd arbennig o'u gwaith oedd perfformiad o safon uchel iawn mewn theatr lleol yn seiliedig ar waith o wledydd amrywiol. Mae'r staff yn trefnu cyfleoedd cyson i'r disgyblion gystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau a pherfformio mewn cyngherddau yn eu milltir sgwâr yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl brofiadau gwerthfawr iawn a roddir i'r disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at eu paratoi i fod yn ddinasyddion hyderus, annibynnol ac aeddfed ac yn sbardun ychwanegol i'w hawydd i ddysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r sylw gofalgar y mae'r staff yn ei roi i ystyried llais y disgybl yn cyfrannu'n effeithiol iawn at gyfleoedd i'r disgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'u dysgu. Mae'r disgyblion yn awyddus a hyderus wth ddewis anturiaethau heriol i'w cyflawni. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a dod yn ddinasyddion gweithgar drwy gymryd rhan mewn grwpiau llais y plentyn dylanwadol, fel y cyngor ysgol. Mae hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy drefnu'r 'her 3 copa' i gasglu arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru'.

**Ysgol Maesincla (Chwefror 2019)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am bwysigrwydd byw yn iach. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hyrwyddo diet cytbwys a chadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, trwy gynnig amrediad effeithiol o weithgareddau allgyrsiol, a thrwy weithgareddau penodol fel yoga, mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymarfer eu corff yn rheolaidd. Mae'r athrawon yn hyrwyddo ymwybyddiaeth gadarn o ddiogelwch ar lein ymysg y disgyblion yn effeithiol iawn. Trwy ymweliadau gan asiantaethau lleol fel yr heddlu, mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn deall peryglon camddefnyddio sylweddau.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion trwy ystod o wasanaethau a chyfnodau penodol eraill. Mae'n trefnu ymweliadau rheolaidd i ardaloedd lleol i gefnogi eu gwaith thema. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod eu hardal leol yn dda iawn ac yn dangos dealltwriaeth drwyadl o ddiwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o gredoau a chrefyddau eraill yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu haddysgu am ŵyl Divali a'r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Mae'r ystod o ymwelwyr gan gynnwys gweithdai cerddorol wythnosol a gweithdai artistiaid amrywiol yn cyfrannu yn llwyddiannus iawn at allu'r disgyblion i fentro yn greadigol ac i ddyfalbarhau gyda'u gwaith.

**Ysgol Llandygai (Mawrth 2019)**

**Enw'r Ysgol:** **YSGOL Y FAENOL, BANGOR**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**

***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

- Mae safonau Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn dda ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn y pwnc drwy eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ansawdd gwaith y disgyblion yn y llyfrau yn dda ar draws yr ysgol.
- Mae' rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol yn fedrus ac yn ymateb yn abl wrth eu trafod. Mae'r rhan fwyaf yn dwyn i gof arferion crefyddol o amryw o grefyddau yn llwyddiannus erbyn brig yr ygsol gan gymharu crefyddau, eu harferion a dysgeidiaeth a thrafod yr hyn sydd yn debyg.
- Mae disgyblion SIY a PYD yn gwneud cynnydd da ac nid oes bwlch rhwng cyhraeddiad y mwyafrif a chyrhaeddiad eu cyfoedion. Mae disgyblion ADY yn cyrraedd eu potensial yn y pwnc yn gwneud cynnydd da o'u gwaelodlin. Mae gwaith disgyblion MAT o ansawdd da iawn ac maent yn trafod crefyddau yn aeddfed.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo eu medrau llythrennedd yn llwyddianus i wersi Addysg Grefyddol, ac mae ansawdd y gwaith llythrennedd yn dda. Mae cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg ac fe roddir cyfloedd i ddatblygu TGCH o fewn y pwnc.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu sgiliau da sy'n rhoi mynediad iddynt i'r cwricwlwm cyfan. Mae tystiolaeth yr ysgol o arsylwi, teithiau dysgu a thrafod efo disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u sgiliau siarad a gwrando, rhifedd, meddwl a TGCh yn dda oddi fewn Addysg Grefyddol ac yn drawsgwricwlaidd

**Siarad a Gwrando:**

Mae mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Canran bychain iawn o ddisgyblion yr ysgol sy'n siarad Cymraeg adref, er hynny gallent amrywio eu sgwrs mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae canran uchel o ddisgyblion yr ysgol yn SIY, ac mae'r Gymraeg yn 3ydd iaith iddynt. Mae nifer y disgyblion sy'n cyrraedd L4 a L5 mewn llafaredd yn y ddwy iaith yn dda, ac yn cymharu'n dda gyda ysgolion y Teulu, ALl a Chymru. Mae data diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn adlewyrchu gwaith caled yr ysgol i gysoni perfformiad ar draws y ddwy iaith. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drosglwyddo eu medrau siarad a gwrando ar draws y cwricwlwm.

Defnyddir techneg Pie Corbett ar draws yr ysgol, ac yn hynod effeithiol yn y CS, i ddysgu straeon/testunau (gan gynnwys straeon Beiblaidd) ar y cof. Mae hyn yn sicrhau bod gan y disgyblion batrymau brawddegol cywir a'u bod yn datblygu eu llafaredd yn dda. Mae'r gwaith llafaredd yn bwydo gwaith ysgrifenedig yn dda.

Defnyddir TGCh yn effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn datblygu sgiliau llafaredd y disgyblion drwy ddefnyddio y sgrin werdd, apiau fel puppet pals a morpho a rhaglenni penodol o fewn Purple Mash.

**Darllen:**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus wrth ddeall yr hyn maent yn ei ddarllen.
Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drafod yr hyn maent wedi ei ddarllen, gan ddangos dealltwriaeth o destunau amrywiol. Maent yn medru mynegi barn ar destunau.

**Ysgrifennu**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dda am ysgrifennu'n gywir mewn amrywiaeth o sefyllfaeoedd.
Mae cyflwyniad disgyblion yn addas i'w hoedran a gallu, gyda'r mwyafrif o ddisgyblion CA2 yn defnyddio ysgrifen

glwm.
Mae sgiliau sillafu a gramadeg y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda drwy yrfa ysgol disgyblion, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion (heblaw rhai disgyblion ADY) yn ysgrifennu'n gywir ac yn cynhyrchu gwaith sydd o ansawdd addas i'w hoedran.
Canolbwyntir ar y Gymraeg yn y Meithrin, Derbyn a B 1 ac fe gyflwynir y Saesneg ym Ml2. Gwelir tystiolaeth yn llyfrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion bod safon ysgrifennu ar draws y cwricwlwm o'r un safon a'r hyn y gyflawnir mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Mae ansawdd gwaith y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda yn y ddwy iaith.
Wrth gynllunio sicrheir bod mathau amrywiol o ysgrifennu yn cael eu cyflwyno'n dymhorol. Cyflwynir y mathau mewn ffurfiau addas, a gwelir yn llyfrau'r disgyblion bod traws doriad da o fathau o ysgrifennu wedi eu hastudio. Mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn rheolaidd, gyda chamau addas sy'n arwain at ddarnau estynedig.
Mae ysgrifennu estynedig trawsgwricwlaidd wedi datblygu'n dda gyda thasgau o ansawdd da i weld yn llyfrau llawer o ddisgyblion. Mae cyd-bwysedd ieithyddol ac amrywiaeth o ffurfiau i'w gweld.

**Rhifedd ar draws y cwricwlwm:**

Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion drosglwyddo'r hyn maent wedi ei ddysgu mewn gwersi Mathemateg ar draws y cwricwlwm yn llwyddianus yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae'r disgyblion yn derbyn nifer o gyfleoedd i ddatblygu rhifedd, ac mae gwaith y disgyblion yn cyfateb i ofynion y Fframwaith Rhifedd, ac yn addas ar gyfer oedran a gallu. Rhoddir tasgau sy'n herio pob grŵp o ddysgwyr, gan gynnwys MaTh ac ADY. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio eu sgiliau rhifedd ar lefel addas mewn amrywiaeth o bynciau. Mae disgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu sgiliau mathemateg o fewn yr ardaloedd dysgu amrywiol.

**TGCh**

Mae safonau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr oedrannau yn dda. Mae gwaith o gynllunio ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith. Mae rhanfwyaf o disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu sgiliau TGCh yn annibynnol ac yn effeithiol yn wythnosol o fewn yr ardaloedd dysgu amrywiol wrth weithio ar heriau amrywiol.

**Medrau Meddwl**

Datblygir medrau meddwl yn effeithiol ar draws yr ysgol, mae AaGD ar waith ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu wrth iddynt fynd drwy'r ysgol, maent yn ran o'r broses o bennu MPLl ar draws yr ysgol. Mae disgyblion yn asesu gwaith cyfoedion ac yn hunan asesu'n rheolaidd, gan wella darnau o waith. Mae rhanfwyaf o'r disgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn gallu hunan-asesu ac asesu gwaith eu cyfoedion yn syml ac effeithiol drwy ddefnyddio cymeriadau Mr Men. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu ac yn defnyddio medrau meddwl wrth gydweithio a'i gilydd ac mae'r sgiliau maent wedi datblygu yn hyrwyddo eu cynnydd. Mae Meddylfryd o Dwf wedi ei gyflwyno eleni ac mae'r disgyblion yn datblygu rhinweddau sy'n eu cynorthwyo gyda'u gwaith.

**Datblygu creadigrwydd a medrau corfforol**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu creadigrwydd a sgiliau corfforol yn effeithiol drwy fod yn weithredol yn y dosbarth a thu allan. Maent yn defnyddio'r sgiliau yma'n llwyddianus wrth ddysgu a gallent eu trosglwyddo i sefyllfaeodd cyfarwydd a newydd. Mae rhanfwyaf o'r disgyblion o dosbarth meithrin hyd at blwyddyn 4 yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu ac yn datblygu eu creadigrwydd drwy ddatrys heriau o fewn yr ardaloedd dysgu wrth iddynt ddewis adnoddau ac ymchwilio i'w syniadau eu hunain. Defnyddir cerddoriaeth i ddatblygu dawns a symudiadau gerddoriaeth yn rheoliadd.

**Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf:**
Ymgyfarwyddo gyda'r cwricwlwm newydd gan ddechrau mireinio cynlluniau
Datblygu creadigrwydd ymhellach oddi fewn Addysg Grefyddol

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn:** DDA

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

- Mae darpariaeth dda ar gyfer lles ac iechyd disgyblion yn ogystal a'u datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol wybodaeth dda am bob plentyn a'u anghenion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar. Rhydd yr athrawon arweiniad sy'n hyrwyddo lles disgyblion. Mae holiaduron rhieni a disgyblion yn cadarnhau ein barn.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol ac yn deall trefniadau'r ysgol i ymdrin â bwlio a chamymddwyn. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Mae'r rhieni'n cadarnhau y farn yma mewn holiadur.
- Mae gan rhan fwyaf o'r disgyblion wybodaeth dda o reolau er mwyn lles a diogelwch a'r dylanwadau sy'n gallu effeithio ar fywyd iach. Mae ymatebion plant a'r ymddygiad a welir yn yr ysgol yn cadarnhau hyn. Mae'r disgyblion yn chwarae rhan allweddol mewn gosod rheolau yn eu dosbarthiadau ac ar iard yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen Class Dojo yn effeithiol er mwyn gwobrwyo ymddygiad da sydd yn cael effaith gadarnhaol ar bron bob un disgybl.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda tuag at ymwelwyr a thuag at ei gilydd, gan wrando ar ei gilydd ac ymateb yn gwrtais. Gwelir hyn yn y gwasanaeth pan fo cynrychiolwyr o'r Eglwys yn mynychu, pan fo siaradwyr gwadd yn dod i'r ysgol a phan mae'r disgyblion yn mynychu ymweliadau addysgol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n gyfeillgar a'u gilydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall cysyniadau moesol megis tegwch, cydraddoldeb, goddefgarwch, cynaliadwyedd a hawliau plant. Mae'r ddarpariaeth ABCH ac arferion dyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch.
- Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygu synnwyr o gyfrifoldeb, yn ymwneud y disgyblion â'i gilydd, mewn gwneud eu tasgau ystafell ddosbarth ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd. Mae'r Cyngor Eco'n effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o gynaliadwyedd yn ogystal a gwersi ABaCh, Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth a ADCDF; a'r Cyngor Ysgol wedi bod yn effeithiol yn sicrhau bod disgyblion yn deall eu hawliau – mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau i atgoffa'r plant o'r hawliau.
- Amlygir hyn yn ymddygiad y disgyblion wrth ymdrin â'i gilydd, codi arian tuag at elusennau, y gallu i ddangos empathi, arbed ynni ac ailgylchu yn yr ysgol.
- Mae'r disgyblion yn dangos parch tuag at eu gilydd a'r amrywiaeth o gredoau a diwylliannau sy'n bresennol yng nghymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth diwylliannol sy'n bodoli yng nghymuned yr ysgol ac yn mantesio yn effeithiol ar arbenigedd y rhieni a'r plant wrth ddysgu am gredoau a diwylliannau gwahanol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol eraill. Mae gan un disgybl ym Ml5 nam golwg ac mae'r disgyblion yn ofalgar iawn ohonni, maent yn barod iawn i roi cymorth i ddisgyblion ADY yn y dosbarth a thu allan. Nid ydynyt yn gwahaniaethu.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn uchelgeisiol ac yn gosod targedau heriol i'w hunain. Mae disgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i weithio tuag atynt. Defnyddir llyfrau targedau newydd eleni ar draws yr holl ddosbarthiadau ac maent yn effeithiol.

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn dda i brofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd
- Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb, brwdfrydedd a balchder yn yr hyn a gyflawnant.

- Dengys arsylwadau gwersi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol a gyda'u cyfoedion, gan wrando ar eraill a pharchu eu cyfraniadau gan amlaf.

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf</u>**

Creu Cyngor Cristnogol o fewn y disgyblion er mwyn datblygu gwerthoedd Cristnogol ymhellach yn yr ysgol

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DDA**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:
Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r darpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Mae cynllunio ar gyfer Addysg Grefyddol yn fwriadus ac yn ymateb o ofynnion y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol Fe ail-gynllinwyd cynlluniau tymor hir ar gyfer Addysg Grefyddol ym Medi 2018 er mwyn sicrhau dilyniant yn y medrau. Mae sgiliau y Cyfnod Sylfaen wedi ei mapio Defnyddir y cynlluniau tymor hir yn fwriadus er mwyn cynllunio cyfres o wersi.
- Addysgir Addysg Grefyddol yn wythnosol yn mhob dosbarth.
- Mae llais y disgyblion yn gryf yn yr ysgol ac yn dylanwadu yn gryf ar y cynllunio. O ganlyniad mae tasgau a gweithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda.
- Mae y mwyafrif o wersi o ansawdd da ac yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd yn llwyddiannus.
- Mae ansawdd y cynllunio yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r cynllunio yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn sicrhau cysondeb a dilyniant o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae AaGD yn gryfder yn yr ysgol ac fe sicrheir bod nod y wers yn cael ei rannu gyda disgyblion, ynghyd a'r MPLl. Mae hyn yn sicrhau bod y disgwyliadau uchel yn glir.
- Rhoddir adborth adeiladol gan athrawon, ac fe annogir disgyblion i wella eu gwaith yn rheolaidd. Defnyddir partneriaid trafod yn rheolaidd ac mae disgblion yn hunan-asesu ac yn asesu cyfoedion yn aml.
- Asesir Addysg Grefyddol yn flynyddol yn ol y disgrifiafau Deilliannau a Lefelau o'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd mewn Addysg Grefyddol i rieni yn flynyddol. Dengys yr asesiadau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da a chadarn yn y pwnc
- Mae sesiynau i godi ymwybyddiaeth i'r 4 diben wedi sicrhau bod gan yr athrawon dealltwriaeth gynyddol o'r Cwricwlwm newydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu'r egwyddorion ac mae athrawon CA2 wedi dechrau ymateb iddynt.
- Mae athrawon yn trefnu ymweliadau addysgol i'r Eglwys leol, y Gadeirlan ac i'r Mosg er mwyn i'r disgyblion ymgyfarwyddo gyda addoldai a defodau.
- Trefnir gweithgareddau yn yr ardaloedd yn y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu medrau Addysg Grefyddol e.e. creu dail Palwydd, creu Gardd y Pasg yn yr ardal tu allan.
- Mae nifer o ymwelwyr yn flynyddol yn yr ysgol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion o'r Beibl a Christnogaeth e.e. Ymweliad yr Esgob, Gweithdy Beiblau, Swyddog Ieuenctid Capel Berea ac mae'r disgyblion yn ymweld gyda Chapeli i gymryd rhan mewn gweithdai e.e. Cracio'r Pasg, Ymweliad Capel y Ffynnon
- Cynllunnir yn fwriadus i ddefnyddio addoldai e.e Eglwys Sant Pedr wrth astudio priodas, bedydd ayyb
- Oherwydd natur yr Ysgol fel ysgol Eglwys mae'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r Esgobaeth yn gryf. Cynhelir addoli ar y cyd gan y rheithor pob bythefnos ac mae gwerthoedd Cristnogol yn amlwg o amgylch yr ysgol.
- Mae ardal myfyrio ym mhob dosbarth ac mae arddangosfeydd i gyd fynd gyda'r ardal.
- Mae canran uchel o ddisgyblion o grefyddau eraill yn yr ysgol ond fe lwyddir i sicrhau bod natur Cristnogol yr ysgol yn cael ei gynnal.
- Mae'r ysgol yn gynhwysol ac fe ddefnyddir gwybodaeth disgyblion o grefyddau eraill yn y gwersi.
- Mae datblygu llythrennedd, rhifedd a TGCh yn drawsgwricwlaidd yn flaenoriaeth ac yn cael eu cynnwys ym mhob gwers.

**<u>Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf:</u>**

- Parhau i fireinio y cynllunio er mwyn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Newydd
- Datblygu gweithgareddau Creadigol

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: DDA**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:

- Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu yn y gwersi Addysg Grefyddol yn dda.
- Mae llais y disgybl yn gryf, gofynnir i'r disgyblion gyfrannu syniadau am weithgreddau a thasgau sy'n ymwneud gyda thema ac mae'r athrawon yn ymateb iddynt
- Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf gyda'r Esgobaeth a'r Eglwys leol yn rhinwedd ei statws fel ysgol Eglwys. O ganlyniad ceir cefnogaeth gan yr Esgobaeth ac mae rheithor yn mynychu'r ysgol pob bythefnos i gynnal addoli ar y cyd.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o grefyddau eraill oherwydd natur cymuned yr ysgol. Maent yn ymweld gyda Capel, Eglwys, y Gadeirlan a'r Mosg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau yn dilyn cyflwyniadau gan y Cyngor Ysgol. Maent wedi eu harddangos yn y dosbarthiadau.
- Yn flynyddol mae'r ysgol yn dathlu wythnos Masnach Deg ac yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinesydd byd eang.
- Mae y cynlluniau Addysg Grefyddol yn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu hastudio e.e. Martin Luther King a Nelson Mandella
- Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth helpu disgyblion ddeall effaith dewisiadau ffordd o fyw.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall effaith ymddygiadau ar eu hiechyd meddwl, eu hiechyd corfforol a'u lles yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan lawn yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Ar ddechrau bob themâu caiff bob plentyn gyfle i gynnig syniadau parthed yr hyn maent eisiau ei ddysgu, mae'r staff yn cynnwys y syniadau yma yn eu cynlluniau gwaith cyn belled a bo modd. Drwy'r Cyngor Dosbarth a'r Cyngor Ysgol caiff llais y disgyblion ei glywed wrth iddynt chwarae rhan mewn agweddau o symud yr ysgol yn ei blaen.
- Mae darpariaeth dda ar gyfer lles ac iechyd disgyblion yn ogystal a'u datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Mae gan yr ysgol wybodaeth dda am bob plentyn a'u anghenion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.
- Mae rhaglen ABaCh yr ysgol yn effeithiol er mwyn ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl yn cynnwys disgyblion difreintiedig.
- Caiff y rhaglen ABaCh ei fapio ar gyfer CS a CA2 a caiff ei darparu'n drawsgwricwlaidd.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn wythnosol yn Ca2 a sesiwn Wali a Moli ac Ysgol Deina yn y CS.
- Rhydd sesiynau amser cylch gyfleoedd da i'r disgyblion fynegi, cyd-rannu a trafod teimladau a materion sy'n bwysig iddynt.
- Mae gan yr ysgol bolisi Cydraddoldeb Hiliol a threfn cofnodi ac ymateb i achosion hiliol pe byddai angen. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer egluro a helpu disgyblion ddeall materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, goddefgarwch a pharch yn effeithiol.
- Mae'r ysgol yn herio ystrydebau a stereoteipio'n llwyddiannus. Sicrheir yr un cyfleoedd i bob disgybl
- Mae strategaethau rheoli ymddygiad yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion. Defnyddir Class Dojo a chynllun Webster Stratton i hyrwyddo ymddygiad da. Dengys holiaduron i rieni bod bron pob rhiant yn teimlo bod ymddygiad y disgyblion yn dda. Rhoddir cynhaliaeth a chefnogaeth i ddisgyblion sy'n cael trafferthion i reoli eu hymddygiad, gyda CAU, asesiadau risg, a thargedau wedi eu llunio ar eu cyfer.
- Mae diwylliant gwrth-fwlio gadarnhaol drwy'r ysgol. Rhydd y blwch "Rwyf eisiau dweud", gyfle i ddisgyblion dynnu sylw at bryderon. Caiff polisi'r ysgol ei ddilyn ymhob achos, gan geisio datrys y sefyllfa neilltuol a hefyd trwy'r rhaglen ABC ac amser cylch, ganolbwyntio'n gyffredinol ar fathau o ymddygiad a'u heffaith bosibl. Caiff gwrth-fwlio ei ddysgu o blynyddoedd 3-6 trwy'r rhaglen KIVA. Bu gwersi cynllun KIVA yn effeithiol iawn mewn

addysgu disgyblion ynghylch beth yw bwlio a sut y gellir goresgyn problemau o'r fath.

- Mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o aflonyddu, gwahaniaethu, bwlio ar sail hunaniaeth ac eithafiaeth yn effeithiol.
- Mae'r ysgol yn effeithiol am hybu hawliau dynol. Mae'r cyngor ysgol wedi bod yn gyfrifol am addysgu'r holl ddisgyblion am hawliau plant. Mae disgyblion ym mhob dosbarth wedi bod yn gyfrifol am ddewis hawliau pwysig ar gyfer eu siarter dosbarth.
- Mae cyfleoedd rheolaidd effeithiol yn cael eu cynnig i ddisgyblion yr ysgol ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Trwy gyfrwng gwahanol weithgareddau a gwersi, mae'r ysgol yn llwyddiannus mewn hyrwyddo dwyieithrwydd, gwerthoedd cymdeithasol a moesol, amrywiaeth a datblygiad ysbrydol. Ceir ethos gofalgar yn yr ysgol a caiff lles pob plentyn ei ddiogelu. Datblygir gwerthoedd ysbrydol a moesol y disgyblion trwy wasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau yn y dosbarth a gwersi Addysg Grefyddol. Mae'r plant yn gofyn cwestiynau treiddgar, yn gwrando'n astud ac yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae disgyblion yn dangos empathi tuag at ei gilydd ac yn cyfrannu tuag at Elusennau amrywiol e.e Cymdeithas y Deillion, Plant mewn Angen, Save the Children, Awyr Las.
- Mae'r ysgol yn cynnig cyfleodd da i ddisgyblion datblygu eu gallu i fyfyrio ar gwestiynau (mawr) sylfaenol o safbwynt crefyddol neu anghrefyddol. Mewn sesiynau addoli ar y cyd rhoddir rhan weithredol i'r plant a'u hannog i fyfyrio.Rydym yn dysgu'r plant am arferion gwahanol gredoau o dan faner cwestiynau mawr o wahanol grefyddau. Mae darpariaeth effeithiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain.
- Ceir ethos ysbrydol neilltuol i'n gwasanaethau ac mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol drwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw a trwy gyd-rannu teimladau ar y pryd.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd ymhob dosbarth pan geir cyfleoedd da ar gyfer cyflafareddu, cwestiynu a rhyfeddu.
- Mae'r ddarpariaeth ABaCh ac arferion dyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch.
- Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygu synnwyr o gyfrifoldeb, yn ymwneud y disgyblion â'i gilydd, mewn gwneud eu tasgau ystafell ddosbarth ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd.
- Trwy gyfrwng gwasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau dosbarth, caiff disgyblion amser i ddatblygu ac adfyfyrio, datblygu gwerthoedd moesol megis parch, gonestrwydd a tegwch a datblygu'r dealltwriaeth a'r gallu i wahaniaethu rhwng yr hyn sydd ac nad yw'n dderbyniol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos y gwerthoedd hynny.
- Mae ardal myfyrio yn bresennol ym mhob dosbarth sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion feddwl a myfyrio yn dawel.
- Mae ymweliad rheolaidd gan y rheithor lleol i arwain gwasanaethau yn cefnogi gwaith yr athrawon.
- Rhydd gwersi Addysg Grefyddol gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n gymdeithasol trwy edrych ar eu gwerthoedd personol ac arferion a credoau eraill trwy'r byd.
- Cynhelir addoli ar y cyd yn ddyddiol ac yn dorfol dwy waith yr wythnos. Mae natur yr addoliad yn Gristnogol ac mae cynlluniau bwriadus yn eu lle. Cynllunir cyfres o gyd addoli torfol sy'n ymwneud gyda thema a gwerthoedd Cristnogol ac mae'r addoli dyddiol yn y dosbarth yn atgyfnerthu'r gwaith.
- Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth gadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, mae'r holl staff wedi eu hyfforddi i adnabod arwyddion ac yn deall y drefn pe bai pryder.

**Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf:**

- Parhau i gynllunio addoli ar y cyd ar gyfer yr ysgol gyfan

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **X** | **Nac ydy** | |

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: DDA**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

Nodiadau:

- Mae'r arweinyddiaeth gan y cydlynydd yn dda ac mae'n gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y pwnc. Mae'n meddu ar y gwybodawth a'r dealltwriaeth i arwain yn effeithiol.

- Eleni mae'r cydlynydd a Oennaeth wedi mynychu hyffordiant parthed addoli ar y cyd mewn ysgol gynradd. Bu i'r cydlynydd readru'r gwybodaeth mewn cyfarfodydd staff gyda'r staff yn gweithredu arno.
- Mae adnoddau pwrpasol megis ardaloedd myfyrio, offer Godly Play, arteffactau a llyfrau crefydol yn yr ysgol. Mae digon o adnoddau o ansawdd da yn yr ysgol.
- Mae polisiau yn eu lle ac wedi eu hadolygu'n unol a'r amserlen. Caiff gwybodaeth am ethos yr ysgol a'i natur Cristnogol ei rannu gyda rhieni yn y llawlyfr. Mae gwybodaeth am yr hawl i dynnu disgyblion o wersi Addysg Grefyddol yn y llawlyfr.
- Mae canran uchel o ddisgyblion yn dewis peidio cymryd rhan yn y cyd addoli ac maent yn eistedd yng nghefn y neuadd.
- Nid oes disgyblion wedi eu tynnu o wersi addysg grefyddol.
- Mae'r dull sut mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion o wahanol crefyddau ym mywyd a gwaith yr ysgol yn gryfder
- Mae'r UDRh yn craffu ar lyfrau yn dymhorol ac yn monitro y ddarpariaeth ar gyfer Addysg Grefyddol, yn llunio adroddiadau ac yn adrodd i'r Corff Llywodraethwyr
- Rydym wedi sefydlu cysylltiadau gyda ysgolion Eglwysig eraill drwy'r Esgobaeth ac yn cydweithio i ddatblygu rol disgyblion ymhellach
- Mae adroddiad arolwg Adran 50 diweddar yn adnabod nifer o agweddau rhagorol yn yr ysgol

**Materion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf**

Datblygu rol y disyblion ymhellach

Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda ysgolion eraill, yn bennaf ysgolion Eglwysig

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: DDA**

| | |
|---|---|
| **Enw'r pennaeth** | **Joanna Thomas** |
| **Llofnod y pennaeth** | *Joanna Thomas* |
| **Dyddiad:** | 09.05.19 |

**Ysgol Brynaerau**

| Addysg Grefyddol |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

- Wrth graffu ar lyfrau disgyblion gwelir bod gan rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth da am lyfrau sanctaidd, mannau addoli, seremonïau crefyddol a gwyliau sy'n bwysig i Gristnogion, Iddewon a Mwslemiaid.
- Mae dadansoddiad o asesiadau athrawon yn dangos bod safonau yn gyson dda ar ddiwedd y ddau Gyfnod Allweddol. Mae llyfrau gwaith y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos cynnydd da iawn mewn tasgau ysgrifennedig dros y flwyddyn.
- Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a Meddwl yn llwyddiannus mewn ystod eang o sefyllfaoedd yn drawsgwricwlaidd yn ddyddiol gan gynnwys Addysg Grefyddol, gyda rhai disgyblion mwy galluog yn arddangos medrau da iawn.
- Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru cymhwyso'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau i sefyllfaoedd newydd yn effeithiol.
- Gall llawer o'r disgyblion ddarllen amrediad o ffynonellau crefyddol megis llyfrau gwybodaeth a'r Wê a ffynonellau anghrefyddol yn dda .
- Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n aeddfed mewn amrediad eang o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel, er enghraifft wrth gymharu'r gwahaniaethau o fewn gwasanaethau meddygol yng Ngwynedd ac India.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

- Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u rolau ym mywyd a gwaith yr ysgol yn dda iawn ac yn hyderus wrth drafod gyda ymwelwyr allanol ac bydd sylwadau ymwelwyr yn atgeu hyn.
- Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion bl 2-6 yn ymgymryd a rolau a chyfrifoldebau arwain yn effeithiol iawn ac mae'r cyfleoedd i drafod hefo amrywiol asiantaethau allanol yn paratoi y disgyblion yn dda ar gyfer bywyd go iawn.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn gallu dangos empathi ac yn frwdfrydig iawn yn ceisio codi arian at amrywiol elusennau fel 'Water Aid', Bocsys Anrhegion Nadolig, NSPCC, Plant Mewn Angen', Trwynau Coch, Gwyl Fai Dyffryn Nantlle, Diffibriliwr, Bad Achub, McMillan, Masnach Deg ac Ambiwlans Awyr.
- Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd datblygiad sylweddol a chadarnhaol yn agweddau bron bob un o'r disgyblion tuag at ei dysgu. Enghraifft da o hyn yw ymrwymiad bron bob un o'r disgyblion , rhieni ,staff a'r Corff Llywodraethol i'r arwyddair i ' Cymreictod, Cwrteisi , Caredigrwydd a Cheisio'n gorau glas'.
- Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi datblygu'n dda i allu trafod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn bod yn ddysgwyr da, gyda meddwl gwyrdd er mwyn - dyfalbarhau,canolbwyntio,cydweithio,dal ati, holi a bod yn hyderus i drio pethau newydd. Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 a Blwyddyn 2 yn ymateb yn dda i'r egwyddor ac yn ymwybodol fod dysgu pethau newydd yn rhoi her i'r ymenydd. Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi datblygu yn ddysgwyr annibynnol medrus ac yn gallu ymgymryd a thasgau heriol. Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion gymryd cyfrifoldeb am orffen eu gwaith eu hunain, sydd yn dda.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

• Mae'r ysgol o'r farn y diwellir anghenion disgyblion a'r gymuned ehangach yn dda iawn drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a CA2 ac Addysg Grefyddol. Darperir cwricwlwm cytbwys ac eang sydd yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm 2008, Llythrennedd, Rhifedd ac Addysg Grefyddol yn unol â'r maes llafur cytun.
• Cynnigir ystod dda iawn o brofiadau dysgu symbylus, ysgogol a heriol ar gyfer anghenion bob disgybl gan gynnwys disgyblion AAA, disgyblion sy'n tan berfformio ac disgyblion mwy abl a thalentog. Mae polisi cyfle cyfartal a pholisi cydraddoldeb yn ategu hyn.

- Wrth graffu ar lyfrau y disgyblion gwelir eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i adalw straeon crefyddol megis Rama a Sita , Dewi Sant, Martin Luther King, Rosa Parks a hanes y Pasg.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yn dda. Mae naws ysbrydol a chefnogol i'n gwasanaethau a chyfnodau cyd-addoli ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy drafod cwestiynau sydd yn ymwneud â moesoldeb ac mae eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o arferion a storïau Cristnogol a'u gwybodaeth am gredoau neu grefyddau eraill yn datblygu'n dda iawn

- Edrychir ar gwestiynau mawr bywyd oddi mewn i wersi Addysg Grefyddol iddynt deall eu rôl iddynt deall eu rôl fel dinasyddion y dyfodol, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysigrwydd credoau, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu unigolion sy'n meddwl am eraill.
- Ceir ymweliad bob hanner tymor gan Nia Williams o Goleg y Bala.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Rhagorol**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

- Mae gofal yn yr ysgol yn rhagorol, mae yma deulu gofalgar dros ben, gyda'r holl staff yn rhoi gofal, cyfarwyddyd, cefnogaeth ac arweiniad diddiwedd i hyrwyddo lles y disgyblion. Ystyrir yr ysgol yn noddfa i nifer fawr o'r plant. Mae'r ysgol yn gwbwl gynhwysol ac yn trin pob disgybl yn gyfartal. Mae gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn cael eu hyrwyddo yn effeithiol drwy brosiectau a gwaith dosbarth a thrwy fywyd ysgol bob dydd ac mae ymdeimald o barch yn y berthynas glos sydd rhwng y staff a'r disgyblion . Yng nghynllun AbaCh llwyddiannus yr ysgol rhoddir sylw gwerthfawr yn dymhorol i nifer o agweddau sydd yn ymwneud â iechyd a lles a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwyllianol. Defnyddir amser cylch yn rheolaidd i fyfyrio, holi a rhyfeddu ac i hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn dda iawn. O ganlyniad mae presenoldeb ac ymrwymiad y disgyblion i'w dysgu yn dda. Yn ogystal mae'r gwaith AbaCh yn pwysleisio ac yn hyrwyddo y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir ac rhoi cyfle i'r plant drafod a gweithredu ar sefyllfaoedd sydd yn codi.
- Mae'r Cyngor Ysgol yn chwarae rôl flaenllaw wrth drafod casglu arian at amrywiol elusennau. Byddent yn

| |
|---|
| trefnu amrywiol weithgareddau ac yn datblygu eu dealltwriaeth yn dda iawn o'u cyfrifoldeb at y byd a'i ddyfodol yn ogystal a goddefgarwch. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am y llai ffodus a thrychinebau byd eang. O ganlyniad mae'r ysgol wedi cyfrannu dros £1500.00 yn y blynyddoedd diwethaf.<br>• Paratoir y disgyblion yn rhagorol ar gyfer dod yn aelod cyfrifol o'r gymuned ac yn ddinasyddion hyderus.<br>• Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dda. Ceir naws ysbrydol a chefnogol gwerthfawr i'n gwasanaethau a chyfnodau addoli ar y cyd ac mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol drwy drafod cwestiynau sydd yn ymwneud a moesoldeb. Mae eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth o arferion a storiau Cristnogol a'u gwybodaeth am gredodau neu grefyddau eraill yn dda. Mae ein trefniadau addoli ar y cyd yn cyfarfod y gofynion statudol. Ceir cyfleoedd rheolaidd yn ein cynlluniau Addysg Grefyddol effeithiol i'r plant drafod cwestiynau mawr bywyd, i gymharu a rhyfeddu, i ddeall arferion a phwysigrwydd credodau eraill, i ddeall eu rhan yn y darlun mawr, i ddeall eu rôl yn y dyfodol fel dinasyddion. Byddent hefyd yn datblygu gwerthoedd megis parch, cyfiawnder, gonestrwydd, tegwch a chynaliadwyedd drwy eu hymgyrchoedd megis Masnach Deg' ac 'Water Aid'. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | √ | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Rhagorol** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| • Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG |
| • Gweledigaeth yr ysgol yw 'cymreictod, cwrteisi a charedigrwydd.' Mae'r weledigaeth yma wrth wraidd bob agwedd o waith yr ysgol ac mae'n cael ei hyrwyddo gan y Pennaeth, y Pennaeth Cynorthwyol,Cyngor Ysgol a Chorff Llywodraethol ar gyfer rhoi arweiniad clir ar gyfer gwelliant ysgol. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Rhagorol** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **Sicrhau trawsdoriad o siaradwyr o'r gymuned i gymryd rhan yn yr addoli ar y cyd.** | **Cysylltu gyda Tracy R Jones sydd yn gweithio i'r Eglwys yng Nghymru an arweiniad pellach.** | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Sicrhau bod Addysg Grefyddol yn cael ei drafod yn rheolaidd yn y panel cwricwlaidd. | Amserlen Hunan Arfarnu | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

**Enw'r pennaeth Glenda Evans**
**Llofnod y pennaeth** *G Evans*

**Dyddiad: 14.05.19**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2017 – Awst 2018

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Garem Jackson

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Y Cynghorydd Paul Rowlinson

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2017-18
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Arweiniad CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarnu safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
3.5 Arweiniad CYSAG Gwynedd i aelodau sy’n mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion
3.6 Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2017-20

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-18. Mae'n nodi sut mae'r CYSAG wedi cyflawni'r dyletswyddau uchod trwy graffu ar adroddiadau hunan arfarnu ysgolion ac adroddiadau ESTYN, gwrando ar gyflwyniadau gan athrawon ar addysg grefyddol yn eu hysgolion, mynychu sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion a thrafod y datblygiadau yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

Rwy'n ddiolchgar i holl aelodau CYSAG Gwynedd, sef cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd, yr athrawon a'r enwadau crefyddol am eu hymroddiad yn ystod y flwyddyn. Yn sgil adolygiad gan Gabinet Cyngor Gwynedd o aelodaeth y CYSAG, edrychaf ymlaen at groesawu cynrychiolwyr ystod ehangach o gredoau yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r swyddogion am eu cymorth gwerthfawr. Fodd bynnag, fel y nodir isod, mae'n fater o bryder, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nad oes bellach wasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n dysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau allu cynghori a chefnogi ysgolion.

Mae hefyd yn bleser cydweithio ar raddfa genedlaethol â Phanel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) a Chymdeithas CYSAGau Cymru mewn cyfnod o newidiadau mawr ym myd addysg yng Nghymru a Gwynedd.

**Y Cynghorydd Paul Rowlinson**
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2017/2018**

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda*'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol.
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 9 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid, ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templedi a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu ESTYN (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog gwella ansawdd addysg cynorthwyol gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion

cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol. Derbyniwyd 11 adroddiad yn ystod 2017-18, sef 9.2% o ysgolion Gwynedd.

| | **2011-2012** | **2012-2013** | **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** | **2016-2017** | **2017-2018** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 9 cynradd 0 uwchradd | 16 cynradd 1 uwchradd | 9 cynradd 3 uwchradd | 14 cynradd 0 uwchradd | 11 cynradd 2 uwchradd | 13 cynradd 1 uwchradd | 9 cynradd 2 uwchradd |
| **% o ysgolion Gwynedd** | | | | 14.1% | 13.4% | 14.4% | 9.2% |

Cyflwynwyd a derbyniwyd, adroddiadau hunan arfarnu gan 11 ysgol yn ystod y flwyddyn: Ysgol Abererch, Ysgol Abersoch, Ysgol Baladeulyn, Ysgol Cwm y Glo, Ysgol Felinwnda, Ysgol Friars, Ysgol O M Edwards, Ysgol Nebo, Ysgol Sarn Bach, Ysgol y Gelli ac Ysgol y Moelwyn.

Mae'r canllawiau a'r templedi hunan arfarnu a ddarperir gan GYSAG yn gofyn i'r ysgolion i ymateb i gwestiynau Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN (Gweler atodiad 3.4). Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd.

**Hunan arfarniad addysg grefyddol sy'n seiliedig ar Fframwaith Arolygu ESTYN (2012-2017)**

Yn sgil y broses o hunan arfarnu addysg grefyddol yng nghyd-destun hen fframwaith arolygu ESTYN, dyfarnodd 7 o'r ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 6 | 1 | | | 6 | 1 | | | 7 | | |
| **Uwchradd** | | | | | | | | | | 0 | | |
| **Cyfanswm** | | 6 | 1 | | | 6 | 1 | | | 7 | | |

**Hunan arfarniad addysg grefyddol sy'n seiliedig ar Fframwaith Arolygu newydd ESTYN (Medi 2017)**

*(Gweler: Atodiad 3.4)*

Cyflwynodd dwy ysgol gynradd, Abererch ac O M Edwards, a dwy adran addysg grefyddol uwchradd, Friars a'r Moelwyn, adroddiadau hunan arfarnu oedd yn seiliedig ar y canllawiau sy'n ymateb i Fframwaith Arolygu newydd ESTYN (Medi 2017). Cyflwynodd yr ysgolion uwchradd copïau llawn o hunan arfarniad yr adrannau Addysg Grefyddol yn unol â pholisïau'r ysgolion. Defnyddiodd un adran uwchradd barnau cyfansawdd ESTYN wrth hunan-arfarnu meysydd arolygu oedd yn berthnasol i'r adran addysg grefyddol.

| Mae'r barnau yn cyfeirio at addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn unig. | | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes Arolygu 1 **Safonau** | Cynradd | 1 | 1 | | |
| | Uwchradd | | 1 | 1 | |
| Maes Arolygu 2 **Lles ac agweddau at ddysgu** | Cynradd | 1 | 1 | | |
| | Uwchradd | | 1 | | |
| Maes Arolygu 3 **Addysgu a phrofiadau dysgu** | Cynradd | | 2 | | |
| | Uwchradd | | 1 | 1 | |
| Maes Arolygu 4 **Gofal, cymorth ac arweiniad** | Cynradd | | 2 | | |
| | Uwchradd | | 1 | 1 | |
| Maes Arolygu 5 **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Cynradd | | 2 | | |
| | Uwchradd | | 1 | 1 | |

Roedd tua hanner o'r adroddiadau hunan arfarnu yn nodi'n gryno cryfderau a materion gwella pob ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn. Fodd bynnag roedd tua hanner o'r adroddiadau yn arwynebol iawn a phrin oedd y cyfeiriadau penodol at addysg grefyddol.

Nododd y rhan fwyaf o benaethiaid bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd.

**Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis bod:

- gan y mwyafrif o ddisgyblion wybodaeth dda iawn am straeon Beiblaidd ac arferion Cristnogaeth (Abersoch)
- gan y mwyafrif o ddisgyblion eirfa bynciol dda (Abersoch)
- gan y mwyafrif o ddisgyblion wybodaeth dda am seremonïau crefyddol sy'n bwysig i Gristnogion a Mwslemiaid (Sarn Bach)
- gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o grefyddau eraill ac o ddiwylliannau eraill yn y byd (Y Gelli)
- llawer o'r disgyblion yn gallu trafod materion crefyddol a moesol yn dda (Sarn Bach)
- rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos sgiliau llythrennedd cyson dda drwy eu gwaith Addysg Grefyddol (Sarn Bach, Baladeulyn, Y Gelli)
- llawer o ddisgyblion Cyfnod Sylfaen yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda, *e.e. mat mathemateg Divali* (Nebo)

- medrau TGCh y mwyafrif o ddisgyblion yn dda wrth ymchwilio am wybodaeth yn ystod y gwersi addysg grefyddol (Nebo, Sarn Bach) neu wrth lunio e-bost personol i ofyn cwestiynau ynglŷn â dathliadau Diwali (Abererch)
- bron bob disgybl yn ymdrin â chwestiynau sylfaenol ac yn archwilio i gredoau crefyddol yn llwyddiannus (Abererch)
- disgyblion yn gwneud cynnydd da a rheolaidd yn eu gwersi addysg grefyddol (Y Moelwyn)
- medrau ysgrifennu, darllen a llafaredd y disgyblion mewn addysg grefyddol yn dda (Y Moelwyn)
- gan lawer o'r disgyblion ddiddordeb mewn addysg grefyddol a dysgu am grefyddau a chredoau eraill. Nodant er enghraifft fod addysg grefyddol yn eu dysgu sut i fyw bywyd teg a pharchu eraill a'r byd. (Abererch)
- cyrhaeddiad disgyblion B9 yn L5+, L6+ a L7+ wedi aros yn gyson yr y 90% uchel, yn yr 80% a'r 20% canolig. (Friars)
- 89.9% o ddisgyblion B11 (69 disgybl) wedi derbyn graddau A*-C mewn Astudiaethau Crefyddol a bod hyn yn 22.1% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (Friars).

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion mewn addysg grefyddol, (Abersoch
- ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn addysg grefyddol (Y Gelli)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis bod:

- ansawdd cynllunio Addysg Grefyddol yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth a medrau blaenorol yn dda (Abererch)
- yr ysgol yn paratoi gweithgareddau addysg grefyddol gwerthfawr ac ymarferol sy'n bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn lleol yn llwyddiannus (Abersoch)
- amser priodol yn cael ei neilltuo'n wythnosol o fewn pob dosbarth ar draws yr ysgol er mwyn cyflwyno agweddau penodol o addysg grefyddol i'r disgyblion (Y Gelli)
- ymwelwyr cyson, megis arweinwyr crefyddol lleol, yn cyfoethogi ac atgyfnerthu profiadau'r disgyblion yn dda (Abererch, Abersoch)
- prosiectau ysgol gyfan, e.e. trefnu ffug briodas, yn cyfoethogi ac atgyfnerthu profiadau'r disgyblion yn dda (Abererch, Abersoch)
- disgyblion yn cael cyfleoedd blynyddol i ymweld â lleoliadau crefyddol megis i eglwys y pentref, (Abererch)
- astudio prif ddathliadau crefyddol Cristnogol megis y Pasg, Sulgwyn a'r Nadolig yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol a gwerthoedd personol, e.e. 'Pa mor bwysig yw'r Pasg i Gristnogion?' neu 'Beth yw arwyddocâd yr anrhegion adeg y Nadolig?' (Abererch)
- ysgrifennu at pen-pal mewn ysgol yn Llundain wedi ehangu gwybodaeth disgyblion am Islam (Abererch)
- y tasgau amrywiol o fewn y cynlluniau gwaith yn ddiddorol, yn gyfoes ac at ddant y dysgwyr (Y Moelwyn)

- yr adran yn rhoi adborth penodol, cadarnhaol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith addysg grefyddol (Y Moelwyn)
- gan bob athro Astudiaethau Crefyddol gyfle i adolygu a diweddaru adnoddau a deunyddiau addysgu eraill er mwyn sicrhau cynllunio effeithiol a bod amcanion clir yn cael eu gosod ar gyfer gwersi - felly, mae disgyblion yn gwybod beth yw disgwyliadau'r adran, mae ganddynt fynediad at dasgau cyfoethog sy'n eu hymestyn a'u herio, ac sy'n rhoi meini prawf llwyddiant iddynt berfformio ar (neu uwchben) targedau mewn tasgau penodol (Friars).

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- feithrin dealltwriaeth y disgyblion o grefydd arall ar wahân i Gristnogaeth, (Abererch, Abersoch)
- adolygu'r cynlluniau gwaith er mwyn ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus' (Abererch)
- sicrhau bod y plant yn cael mwy o gyfleoedd i ymweld â mannau crefyddol (Felinwnda)
- sicrhau fod adnoddau digonol i ddiwallu'r maes yn y dosbarthiadau (Abererch, Felinwnda, Nebo)
- sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau addysg grefyddol i'r lefelau priodol, e.e. mynegi ymatebion personol (Cwm y Glo) neu sicrhau dilyniant pendant (Sarn Bach)
- adnabod cyfleoedd i gymhwyso medrau rhifedd a TGCh o fewn addysg grefyddol (Baladeulyn)
- sicrhau bod disgyblion yn ymateb i adborth eu hathrawon er mwyn cywiro'u gwaith addysg grefyddol (Y Moelwyn)
- ddatblygu tasgau sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion datblygu eu cymhwysedd digidol mewn addysg grefyddol (Y Moelwyn)
- cefnogi'r disgyblion i gyflawni meini prawf asesu'r graddau uwch yn eu cyrsiau Astudiaethau Crefyddol TGAU (Cwrs Byr) a'u cyrsiau Safon Uwch (Friars)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Nododd llawer o ysgolion eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Ni chafwyd sylw gan 4 ysgol.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod y 'gwasanaethau boreol' (sic) yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol (Abersoch, Baladeulyn)
- y pwyslais a rhoddir i lais y plentyn yn ystod y sesiynau addoli ar y cyd (Felinwnda, Cwm y Glo, Nebo)
- bod y cyfnodau addoli ar y cyd, yn ogystal â'r cynllun Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn arwain at ethos goddefgar sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth (Felinwnda) ac sy'n eu hannog i fod yn ddinasyddion gweithredol a chydwybodol (Abererch)
- y cyfleoedd cyfoethog a ddarperir i ddisgyblion fyfyrio ar themâu moesol neu straeon o'r Beibl (Nebo)
- Strwythur pendant yr amserlen cyd-addoli wedi arwain at ddatblygu'r ymdeimlad bod y gwasanaeth yn gyfnod arbennig o ymdawelu a myfyrio. (Y Gelli)
- yr amrediad o staff, disgyblion a chyfeillion sy'n arwain y cyfnodau addoli ar y cyd, (Cwm y Glo)
- cyfraniad arweinwyr crefyddol lleol i'r cyfnodau addoli ar y cyd, (Abererch, O M Edwards)
- cyfraniad cynllun 'Agor y Llyfr' i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o straeon y Beibl (Y Gelli)

- bod polisi addoli ar y cyd yr ysgol yn weithredol ac yn wybyddus i holl gymuned yr ysgol (Y Gelli).

**Pa mor dda mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- ymweliadau a mannau fel Coleg y Bala a chymryd rhan mewn ffug briodas yn ategu'n fuddiol at wybodaeth a datblygiad ysbrydol y disgyblion (Abersoch)
- cyfraniad disgyblion, rhieni a thrigolion lleol at achosion da lleol, cenedlaethol a rhyngwladol (Abersoch, Cwm y Glo)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae'r angen i:

- wahodd ymwelwyr i gyfrannu at y cyfnodau addoli ar y cyd (Felinwnda, Nebo)
- gysoni'r cyfleoedd i blant arwain neu gyfrannu at y cyfnodau addoli ar y cyd, (Sarn Bach, Y Gelli)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol ac yn adlewyrchu egwyddorion ac argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'.

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Ni thrafodwyd asesiadau athrawon disgyblion CA3 na chanlyniadau arholiadau allanol CA4 a CA5 yn ystod cyfarfodydd 2017-18.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Annog adrannau uwchradd i ymateb i unrhyw negeseuon a amlygir yn sgil dadansoddi data perfformiad mewnol ac allanol ysgolion ac yn adroddiad arholwyr CBAC.
- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC a hwyluso cyfleoedd iddynt gydweithio gydag ymarferwyr arweiniol GwE (Mefys Jones ac Angharad Derham) wrth ymateb i fanylebau yr arholiadau TGAU a

## 2.3.3 Adroddiadau arolygu ESTYN

Cyflwynwyd gwybodaeth am arolygiadau 4 ysgol gynradd ac 2 ysgol uwchradd yn ystod 2017-18.

Prin yw'r cyfeiriadau at addysg grefyddol yn adroddiadau ESTYN, ond mae un adroddiad arolygiad yn nodi:

- *"Wrth ddarllen, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli gwybodaeth yn gymwys ac yn dod i gasgliadau synhwyrol. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn dehongli deunydd darllen yn greadigol. Er enghraifft, mewn Addysg Grefyddol, maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant o'u tasgau darllen i greu gwaith celf"* (Ysgol y Moelwyn, Hydref 2017)

Mae pob adroddiad yn cyfeirio at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion a gwelir cyfeiriad at addoli ar y cyd mae dau o'r adroddiadau arolygu.
Mae'r adroddiadau yn nodi:

- bod pob un o'r ysgolion a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn *"effeithiol"* neu'n *"llwyddiannus";*
- bod Ysgol Nebo (Hydref 2017) *yn "trefnu cyfleoedd cyfoethog... [i'r disgyblion]...i fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli (sic), sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl neu themâu moesol, lle cant gyfleoedd i werthfawrogi a dathlu'r gwahaniaethau rhyngddynt a'u cyfoedion."*
- bod Ysgol Baladeulyn (Tachwedd 2017) yn darparu, *"cyfnodau cyd-addoli (sic) gwerthfawr..[sy'n]..creu ethos Cristnogol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd fel cyfeillgarwch a charedigrwydd".*

Wrth gyfeirio at y bartneriaeth rhwng yr ysgolion a'r gymuned leol, nodwyd mewn un adroddiad,

- *"Mae ymweliadau cyson aelodau o eglwysi cyfagos i arwain gwasanaethau a sesiynau canu yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion."* (Ysgol Cwm y Glo, Tachwedd 2017)

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mrs Mai Bere, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol Gwynedd yn sicrhau bod arweiniad ac argymhellion CYSAG Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac uwchradd ac i Gyngor Gwynedd.

Rhannwyd arferion da yn ystod y flwyddyn trwy estyn gwahoddiad i gynrychiolwyr ysgol i amlinellu'r profiadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a ddarperir i'w disgyblion a'u gweithdrefnau hunan arfarnu:

- pennaeth adran addysg grefyddol Ysgol y Moelwyn

Mae cynllun gweithredu CYSAG Gwynedd yn amlinellu pedair blaenoriaeth ar gyfer 2017-20 (gweler atodiad 3.6). Mae'r blaenoriaethau yn codi o drafodaethau'r flwyddyn ac adroddiadau blynyddol 2016-17, 2018-19. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau cyllidol, nid oes bellach gwasanaeth ymgynghorol lleol sy'n gallu cynnig cefnogaeth neu hyfforddiant i athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol ac mae'n her gynyddol i CYSAGau i allu cynghori a chefnogi ysgolion.

**Blaenoriaeth 1:** Cwricwlwm i Gymru, Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau a'r "Yr hyn sy'n bwysig"
**Blaenoriaeth 2:** Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd da/da iawn
**Blaenoriaeth 3:** Cefnogaeth i GYSAG Gwynedd?
**Blaenoriaeth 4:** Profiadau cyfoethog – cyfraniad partneriaid lleol i ddatblygu dealltwriaeth o addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd?

Hyd at Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAG Gwynedd ac i gynrychioli CYSAG Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYSAG Gwynedd na fyddai GwE yn cefnogi CYSAG Gwynedd bellach.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod CYSAG Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth ac arweiniad priodol er mwyn iddo gyflawni ei ddyletswyddau fel corff statudol.
- Ymateb i gynllun gweithredu i CYSAG Gwynedd ar gyfer 2018-20.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Cwricwlwm i Gymru**

- Yn ystod 2014-15, comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae CYSAG Gwynedd wedi cyfrannu at y broses ymgynghorol, y 'Sgwrs Fawr' ac wedi trafod argymhellion y ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015.
- Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn cael ei chynrychioli ar y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Llywodraeth Cymru ac mae Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi mynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn gyda chynrychiolwyr o Adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru wrth iddynt gefnogi'r ysgolion arloesol a datblygu Cwricwlwm i Gymru.
- Derbyniodd yr aelodau diweddariad gan yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn cyfarfod yr Hydref 2017 a gohebiaeth oddi wrth Is-adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg Llywodraeth Cymru yn cyfarfod Haf 2018. Mae'r aelodau wedi derbyn copïau o'r papurau canlynol:
    - 'Addysg Grefyddol: cefnogi camau cynnar y broses o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau', papur ymgynghorol a baratowyd gan aelodau o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol a Chymdeithas CYSAGau Cymru ar gyfer y grŵp sy'n datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
    - Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau: Cyflwyniad i'r Grŵp Cwricwlwm ac Asesu (4 Rhagfyr 2017), papur a luniwyd gan athrawon o'r ysgolion arloesol sy'n gyfrifol am lunio'r cwricwlwm
- Cytunodd 2 athrawes Heulwen Jones, Ysgol Bro Hedd Wyn a Miriam Amlyn, Ysgol Eifionydd o Wynedd i gynrychioli CYSAG Gwynedd cyfarfod i randdeiliaid yn Llandudno (Mai2019) mwyn trafod y drafft diweddaraf o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon yn ymwybodol o'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau
- Annog athrawon addysg grefyddol Gwynedd ac aelodau CYSAG Gwynedd i gyfrannu'n llawn at unrhyw adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu;

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017)
- Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Mehefin 2018)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion ac athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau'r arolygiadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Hydref 2017);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mewn ymateb i argymhellion CYSAG Gwynedd, mae'r Awdurdod Addysg wedi llythyru'r ysgolion yn rheolaidd yn gofyn iddynt estyn gwahoddiad i aelodau CYSAG i fynychu sesiwn addoli ar y cyd. Lluniodd ymgynghorydd cefnogi gwelliant GwE pro-fforma ar gyfer cofnodi eu harsylwadau (Atodiad 3.5).

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.
- Sicrhau bod ysgolion ac aelodau CYSAG yn derbyn copïau o 'Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN), a 'Canllawiau ynglyn ag addoli ar y cyd' (Cymdeithas CYSAGau Cymru'.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,

- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2017-18

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | *Disgwyl enwebiad* |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Elizabeth Roberts |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Dr. W Gwyn Lewis |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Anest Grey Frazer |
| Undeb yr Annibynwyr | Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Eirian Bradley Roberts |

**Cynrychiolwyr Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mrs Catherine Davey (Ysgol Llanystumdwy) |
| Cymdeithas yr Ysgolfestri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mrs Heledd Owen (Ysgol Friars) |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL | *Disgwyl enwebiad* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Paul Rowlinson | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Elin Walker | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Menna Baines | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Judith Humphreys | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Medwyn Hughes | Annibynnol |
| Cynghorydd Dewi Wyn Roberts | Annibynnol |
| Cynghorydd Mike Stevens | Annibynnol |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Gwyn Rhydderch
Parchedig Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Garem Jackson | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mai Bere | Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol |
| Bethan James | Ymgynghorydd Her GwE (tan Wanwyn 2018) |
| Glynda O'Brien | Swyddog Cefnogi Aelodau |

### 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2017-18

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2017 – 2018, cyfarfu CYSAG Gwynedd ar ddau achlysur:

8 Tachwedd 2017
7 Chwefror 2018 (canslwyd)
20 Mehefin 2018

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rhain yn y cofnodion ac yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 8 Tachwedd 2017**

- Materion brys: Holiadur ESTYN ar Addysg Grefyddol
- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2016/2017
- Addoli ar y cyd
- Hunan arfarniadau ysgolion: Abersoch, Felinwnda
- Diweddariad gan ymgynghorydd her GwE:
  - Fframwaith Arolygu newydd ESTYN – goblygiadau i weithdrefnau monitro CYSAG Gwynedd
  - Cwricwlwm i Gymru
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno cofnodion drafft o'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Wrecsam ar 7 Gorffennaf 2017.
- Gohebiaeth: Oddi wrth y Dyneiddwyr

**b) Cyfarfod 7 Chwefror 2018 (canslwyd oherwydd diffyg cworwm)**

**c) Cyfarfod 20 Mehefin 2018**

- Gohebiaeth: Gweinidog dros Addysg, Dyneiddwyr
- Goblygiadau fframwaith newydd ESTYN i drefniadau monitro CYSAG
- Hunan arfarniadau ysgolion: Y Moelwyn, Baladeulyn, Cwm y Glo, Nebo, Sarn Bach, Friars
- Diweddariad ar y Cwricwlwm newydd i Gymru – Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau
- Addoli ar y Cyd – adborth gan aelodau
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2016-17 – derbyn y copi terfynol
- Cymdeithas CYSAGau Cymru – cyflwyno cofnodion drafft o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 10 Tachwedd 2017
- Rheoli'r Hawl i Dynnu'n Ôl Addysg Grefyddol – dogfen arweiniol Cymdeithas CYSAGau Cymru

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod tymor yr Hydref 2017 gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – ymgynghorydd cefnogi gwelliant GwE

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Garem Jackson, Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Mai Bere, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol sy'n gweithredu fel clerc CYSAG
Bethan James, ymgynghorydd cefnogi gwelliant GwE
Glynda O'Brien, swyddog cefnogi aelodau sy'n gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd.

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

### 3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi hefyd i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

## Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

## Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

## ESTYN

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bum maes arolygu:





1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth

Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion Addysg Grefyddol<br>Religious Education News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

**Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)**

**I ba raddau y mae darpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar faes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod y rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

**Maes Arolygu 1: Safonau**

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu**

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu**

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r ddarpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal â'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?
- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?

- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol bwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth grefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunan arfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadlaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**

***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: BARN**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**

***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grŵp ffocws/Cyngor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN**

**Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**

***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: BARN**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**

***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw droseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglŷn ag addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)

Nodiadau:

| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
|---|---|---|---|---|

**Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: BARN**

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**

***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro a hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

Nodiadau:

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: BARN**

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Cryno! Tua 50 o eiriau.

**Enw'r pennaeth**
**Llofnod y pennaeth**
**Dyddiad:**

## 3.5: Taflen gofnodi ar gyfer aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd

**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**

| | | |
|---|---|---|
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn: | ysgol arbennig | ☐ |
| | ysgol gynradd | ☐ |
| | ysgol uwchradd | ☐ |
| Mynychais sesiwn addoli ar y cyd: | torfol/ysgol gyfan | ☐ |
| | dosbarth | ☐ |
| | cyfnod allweddol | ☐ |
| Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: | y pennaeth | ☐ |
| | disgyblion | ☐ |
| | athro/athrawon | ☐ |
| | arweinydd crefyddol lleol | ☐ |
| | rhiant/rhieni | ☐ |
| | llywodraethwr | ☐ |
| Roedd y sesiwn addoli ar y cyd wedi para: | llai na 5 munud | ☐ |
| | rhwng 5-10 munud | ☐ |
| | rhwng 10-15 munud | ☐ |
| | dros 15 munud. | ☐ |

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: ___________________________________________

Clywais:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Stori Feiblaidd | | Cyflwyniad gan oedolyn | |
| Stori o draddodiad crefyddol arall | | Cyflwyniad gan y disgyblion | |
| Stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas | | Disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad | |
| Disgyblion yn gweddïo (yn unigol neu ar y cyd) | | | |
| Emyn /carol Cristnogol | | | |
| Cân addas | | | |

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.

Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:

- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall:

## 3.6 : Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2017-20

| **Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd 2017-18 a thrafodaethau cyfarfodydd 2018-19** | **Camau Gweithredu 2017-20**<br>**ALl (Awdurdod Lleol)**<br>**YP (Ymgynghorydd Pwnc)**<br>**AC (Aelodau CYSAG)** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru Maes Dysgu a Phrofiad: Y Dyniaethau<br>"Yr hyn sy'n bwysig" | • Sicrhau bod penaethiaid, athrawon, llywodraethwyr ac aelodau CYSAG yn wybodus am ofynion Cwricwlwm i Gymru (YP)<br>• Cyfrannu at drafodaethau lleol er mwyn cynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i'r 'hyn sy'n bwysig' ym Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau. (ALL+YP+AC)<br>• Cynrychioli Gwynedd mewn unrhyw drafodaethau cenedlaethol parthed datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu (ALl+ YP + AC)<br>• Datblygu Maes Llafur Cytûn ar gyfer ysgolion Gwynedd sy'n adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru | • Cofnodion CYSAG Gwynedd<br>• Cofnodion Cymdeithas CYSAGau Cymru<br>• Gohebiaeth a chanllawiau CYSAG Gwynedd i ysgolion.<br>• Maes Llafur Cytûn Gwynedd<br>• Enghreifftiau o arferion da | • Maes Llafur Cytûn Gwynedd yn adlewyrchu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru<br>• Addysg Grefyddol yn cael ystyriaeth lawn wrth i ysgolion adolygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.<br>• Y ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol.<br>• Safonau addysg grefyddol yn dda neu'n well ym mhob ysgol. | ☺<br>😐<br>☹ |
| Hwyluso Addoli ar y Cyd o ansawdd da/da iawn | • Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio a'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addolir ar y cyd o ansawdd.<br>• Annog ysgolion i wahodd aelodau o GYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd | • Gohebiaeth i ysgolion<br>• Adroddiadau llafar aelodau CYSAG<br>• Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN | • Adroddiadau ESTYN yn nodi bod addoli ar y cyd yn dda.<br>• Pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.<br>• Gwell dealltwriaeth ymhlith aelodau CYSAG o natur addoli ar y cyd mewn ysgolion. | ☺<br>😐<br>☹ |
| *Cefnogaeth i GYSAG Gwynedd?* | • | • | • | |
| *Profiadau cyfoethog – cyfraniad partneriaid lleol i ddatblygu dealltwriaeth o addysg grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd?* | • | • | • | |

**Enw'r ysgol:** LLANLLECHID

**Cyngor Sefydlog ar Addysg Grefyddol**

**Holiadur ar gyfer aelodau CYSAG Gwynedd wrth iddynt fynychu sesiwn addoli ar y cyd**

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd mewn:
- ysgol arbennig ☐
- ysgol gynradd ☑
- ysgol uwchradd ☐

Mynychais sesiwn addoli ar y cyd:
- torfol/ysgol gyfan ☑
- dosbarth ☐
- cyfnod allweddol ☐

Yn cyfrannu i'r sesiwn addoli ar y cyd oedd:
- y pennaeth ☑
- disgyblion ☐
- athro/athrawon ☑
- arweinydd crefyddol lleol ☐
- rhiant/rhieni ☐
- llywodraethwr ☐

Thema'r sesiwn addoli ar y cyd oedd: bod yn ffrindiau hefo'n gilydd a pa mor bwysig ydy bod yn ffrindiau da

Clywais:
- stori Feiblaidd ☑
- stori o draddodiad crefyddol arall ☐
- stori foesol/cyfoes/hanesyddol addas ☐
- disgyblion yn gweddïo (yn unigol/neu ar y cyd) ☑
- emyn/carol Cristnogol ☑
- cân ☐
- cyflwyniad gan oedolyn ☐
- cyflwyniad gan y disgyblion ☐
- disgyblion yn myfyrio'n dawel mewn ymateb i ysgogiad ☐

Tanlinellwch y tri datganiad gorau sy'n disgrifio'r sesiwn addoli ar y cyd.
Heddiw, roedd y sesiwn addoli ar y cyd yn:
- datblygu gallu dysgwyr i fyfyrio ar eu teimladau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain;
- datblygu ymwybyddiaeth dysgwyr o fywyd mewnol a dimensiwn ysbrydol pob unigolyn;
- trafod a hybu ymatebion i gwestiynau sylfaenol ynglŷn ag ystyr bywyd, newid a marwolaeth;
- datblygu credoau a gwerthoedd, yn bersonol ac yn gymunedol fel ei gilydd;
- hybu dealltwriaeth o gredoau a gwerthoedd pobl eraill naill ai yn lleol neu yn fyd-eang;
- cynyddu hunan-barch ac ymdeimlad o bwrpas mewn bywyd;
- meithrin y gallu dynol i wneud dewisiadau moesol er da neu er drwg;
- ——— hybu gwerthoedd, ystyr a phwrpas a rennir;
- darparu cyfleoedd i fyfyrio ar y digwyddiadau a'r profiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio ar gymuned yr ysgol a'r gymuned leol, ac i'w rhannu;
- ategu dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall dysgwyr unigol ac ysgol gyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach
- ——— datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth ac anghydraddoldeb byd-eang.

Unrhyw sylw arall-

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod CYSAGau Cymru, yn Neuadd y Sir Caerdydd***
***Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019***
**10.30a.m. – 3.00p.m.**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Rheinallt Thomas<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br>Kathy Riddick (KD)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br>Alice Parry (AP)<br><br>**Caerffili**<br>Paula Webber (PW)<br>Janet Jones (JJ)<br><br>**Caerdydd**<br>Maggie Turford (MT)<br>Gill James (GJ)<br>Norma Mackai<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br>Helen Gibbon (HG)<br><br>**Ceredigion**<br><br>**Conwy**<br><br>**Sir Ddinbych**<br>Ellie Chard (EC) | **Sir y Fflint**<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Goldsworthy (EG)<br><br>**Sir Fynwy**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Hugh James (HJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br>Peter Rees (PR)<br><br>**Casnewydd**<br>Paula Webber (PW)<br>Huw Stephens (HS)<br><br>**Sir Benfro**<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Sian Fielding (SF)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT)<br>Mathew Maidment (MM) | **Abertawe**<br>Jennifer Harding -Richard (JHT)<br>Alison Lewis (AL)<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg**<br>Maggie Turford (MT)<br>Ramez Delpak (RD)<br><br>**Wrecsam**<br>Libby Jones (LJ)<br>Tania ap Sion (TaS)<br><br>**Sylwedyddion**<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Paul Morgan, MAGC<br>Andrew Pearce, CBAC<br><br>**Cyflwynwyr**<br>Nicky Hagendyk, EAS<br><br>**Cofnodion**<br>Gill Vaisey (GV) |

**Cofnodion y cyfarfod**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Cyn y cyfarfod, mwynhaodd yr aelodau sioe sleidiau gan Ysgol Gynradd Moorland, Caerdydd, oedd yn dangos lluniau o agweddau o'u harfer da.

Croesawyd pawb i Neuadd y Sir, Caerdydd ac i'r Awdurdod Lleol gan y Cynghorydd Dianne Rees, Arglwydd Faer Caerdydd. Soniodd am bopeth sydd gan Gaerdydd i'w ddathlu ac am ei rhan hi fel cyn aelod o GYSAG Caerdydd.

Estynnwyd croeso i Gaerdydd hefyd gan Gadeirydd CYSAG Caerdydd, y Cynghorydd Sarah Merry. Siaradodd am ei phrofiad o fod yn aelod o CYSAG fel Cynghorydd Sir a sut nad oedd hi'n sicr i ddechrau beth roedd CYSAG yn ei olygu. Ond mae ei phrofiad wedi dangos iddi bwysigrwydd addysg grefyddol a chred y dylai CYSAGau fod yn ystyrlon yn cefnogi plant o nifer o wahanol grefyddau, a rhai di-grefydd, o fewn y gymuned.

## 2. Adfyfyrio tawel

Rhannodd EE ei feddyliau am y sefyllfa echrydus yn Seland Newydd – ffydd neu ddim ffydd – roedd hyn yn dangos annynoldeb gweithredoedd rhywun tuag at grŵp o bobl eraill.

Cyfeiriodd at y gyfrol *50 Five-Minute Tales* – straeon y mae wedi'u defnyddio i Addoli ar y Cyd mewn ysgolion.

Y Corrach a'r Dylwythen Deg - corrach swil oedd â chlustiau mawr yr oedd y dylwythen deg yn chwerthin am ei ben. Fodd bynnag, dangosodd y corrach garedigrwydd mawr ati. Diben y stori oedd dangos na ddylai pobl gael eu barnu oherwydd eu hymddangosiad allanol, neu ddim ond am eu bod yn wahanol, e.e. lliw, ymddangosiad, credoau, gwleidyddiaeth ayb, ond cydnabod ei gilydd fel bodau dynol.

Gwahoddodd EE yr aelodau i fyfyrio ar greu gwell byd i fyw ynddo.

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meirig Roberts (Llywodraeth Cymru), Cyng Lacey (CYSAG Casnewydd), Cyng Lyndon Lloyd (Ceredigion), Vicky Barlow (Sir y Fflint), Michelle Gosney (Estyn) a Tudor Thomas (sydd wedi ymddiswyddo fel cadeirydd MAGC ond sy'n dal i fod yn aelod o GYSAG Sir Fynwy).

## 4. Cyflwyniad PYCAG: Nicky Hagendyk – Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Nicky Hagendyk yw Cadeirydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Siaradodd am y diwygiadau ehangach ochr yn ochr â diwygio'r cwricwlwm. Pwysleisiodd fod profiad yn agwedd bwysig o'r cwricwlwm newydd hwn. Mae'n broses sy'n cael ei chefnogi gan y Pedwar Diben y dylid eu cyrraedd erbyn diwedd addysg ysgol.

Tynnodd sylw at y pynciau newydd ar y cwricwlwm o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau – astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Ymarferwyr sydd wrthi'n ysgrifennu'r cwricwlwm newydd ac maent wedi mabwysiadu dull holistig gyda'r 'datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' wrth graidd y cyfan.

Maent yn ceisio cael cydbwysedd rhwng dull holistig rhyngddisgyblaethol a chadw integriti pob pwnc arbenigol.

Mae'r cwricwlwm newydd yn debygol o fod yn llai cyfarwyddol ac yn cynnig mwy o ymreolaeth i ysgolion. Y tu ôl i'r Pedwar Diben bydd cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau.

Caiff ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2019 i gael adborth gan athrawon a rhanddeiliaid eraill. Bydd cynnwys 'Beth sy'n Bwysig' yn rhan o'r ymgynghoriad. Eglurodd Nicky bob un o'r pum datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Dyniaethau.

1. Mae datblygu meddwl chwilfrydig yn galluogi'r dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol, drostynt eu hunain.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu gweld, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.
3. Mae'r byd naturiol yn amrywiol a deinamig, ac mae prosesau ffisegol a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac mae ymddygiad a chredoau dynol wedi eu siapio.
5. Dinasyddion gwybodus a hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r ddynoliaeth ac yn gallu cymryd camau moesegol a chynaliadwy.

Ni ddylid ystyried pob datganiad ar ei ben ei hun – gallai uned waith fod yn gysylltiedig â dau neu dri o'r datganiadau.

Gall pob un o'r pynciau yn y dyniaethau gael eu harchwilio drwy unrhyw un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Yn ganolog i'r cwricwlwm mae dilyniant o safbwynt gwybodaeth, dealltwriaeth gysyniadol, y gallu i weithio gyda ffynonellau, ayb.

Cafwyd mewnbwn gan arbenigwyr ac ymgynghorwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd y cwricwlwm yn cael ei gyhoeddi ar 30 Ebrill ar gyfer ymgynghoriad ac adborth. Amserlen yr ymgynghoriad fydd o Ebrill 30 tan ddechrau Medi.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd, dywedodd Nicky fod athrawon o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan mewn ysgrifennu'r cwricwlwm ehangach ac y byddant hefyd yn cymryd rhan mewn ysgrifennu'r Fframwaith AG.

Ystyriwyd cwricwlwm Lloegr hefyd yn ogystal â meysydd llafur o wledydd eraill.

Holodd yr aelodau am y gost o gyflwyno'r newidiadau hyn mewn ysgolion. Awgrymodd un aelod fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyllid yn ei le er mwyn cefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd yn llawn.

Bydd y cwricwlwm terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 ac felly bydd hyfforddiant yn dilyn wedi i'r cwricwlwm gael ei gytuno arno a'i ffurfio'n derfynol.

Mae angen ystyried sut bydd CCYSAGauC yn rheoli ei adborth ar yr ymgynghoriad. A ddylai'r Pwyllgor Gwaith ymateb ar ran CCYSAGauC neu a ddylid sefydlu gweithgor o aelodau CCYAGauC?

**Gweithredu:** Y Pwyllgor Gwaith i lunio ymateb i'r drafft ar ran CCYSAGauC

**5. Arolwg Tynnu yn ôl o Addysg Grefyddol**

Cyfeiriodd PW at ganlyniadau'r holiadur am dynnu disgyblion yn ôl o AG ac edrychodd ar y canfyddiadau.

Gallai'r wybodaeth hon fod yn sail i drafodaethau ac i ymateb CCYSAGauC i gwestiwn Papur Gwyn LIC ynghylch a ddylid cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl.

Adroddodd GV ei bod hi'n pryderu am rai o ganfyddiadau'r arolwg.
I ddechrau, mae'n awgrymu fod rhai ysgolion yn dal ddim yn gwneud y gwahaniaeth rhwng Addoli ar y Cyd ac AG. Roedd yr arolwg wedi cyfeirio'n benodol at AG ar y cwricwlwm yn unig ac eto roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at Addoli ar y Cyd.
Yn ogystal, roedd tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth am wir natur Addysg Grefyddol ar y cwricwlwm - mewn rhai achosion roedd yr ymatebion yn cyfeirio at dynnu disgyblion yn ôl o weddïo a chanu emynau a hefyd ymweld ag eglwys i gymryd rhan mewn dathliadau - ond ni ddylai'r un o'r rhain fod yn digwydd mewn AG seiliedig ar y cwricwlwm.
Roedd GV yn pryderu hefyd am nifer y rhieni (12) oedd yn tynnu eu plant yn ôl yn rhannol rhag dysgu am Islam. Mae hyn yn awgrymu rhagfarn yn erbyn y grefydd arbennig honno.
Awgrymodd HS ei bod yn hanfodol, pan mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei lunio, ei fod yn hybu AG wrthrychol, feirniadol a lluoseddol er mwyn sicrhau nad yw rhieni'n teimlo'r angen i dynnu eu plant yn ôl.

Rhannodd RL ei syniadau am y posibilrwydd o her gyfreithiol – os yw rhywun o ffydd arbennig wedi bod â rhan mewn datblygu'r cwricwlwm, yna gellid ystyried na allai'r cwricwlwm hwnnw fod yn wrthrychol. Yn yr un modd, os oes gan athro gefndir ffydd, gellid awgrymu nad ydynt yn gallu bod yn wrthrychol yn eu haddysgu.

**Gweithredu:** awgrymu i'r CYSAGau eu bod yn edrych ar eu canfyddiadau lleol o'r arolwg ac yn cymryd unrhyw gamau priodol.
(Dywedodd GV fod rhai CYSAGau wedi coladu eu canlyniadau eu hunain tra bod eraill wedi anfon ymatebion gan ysgolion unigol ac felly roedd hi wedi coladu'r rhain a bydd y manylion yn cael eu hanfon i'r CYSAGau hynny).

**6. Ystyried ac ymateb i bapur gwyn y Llywodraeth**

Aeth EE trwy'r papur a'r cynigion.

Cyflwynwyd ymateb Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac fe'i rhannwyd â'r aelodau. Nodwyd nad oeddent wedi dod i gasgliad am gael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o AG.

Cyflwynwyd ymateb PYCAG ac fe'i rhannwyd â'r aelodau. Nododd LJ fod ymateb PYCAG yn wahanol mewn rhai agweddau i ymateb CCYSAGauC. Byddai PYCAG yn dymuno cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl ond mae'n ategu'r angen felly am roi hyfforddiant yn ei le i sicrhau fod pob athro ac ysgol yn gwneud yn siŵr fod eu haddysgu a'u darpariaeth yn wrthrychol.

Mae PYCAG yn awgrymu hefyd y dylid cadw AG yn y chweched dosbarth ac y dylai colegau orfod darparu AG hefyd.

Cred HS fod disgyblion 16 – 19 oed angen cael addysg grefyddol yng ngoleuni materion ac agweddau'r byd sydd ohoni.

Awgrymodd KR, os yw athrawon yn dysgu AG cwbl addysgol a gwrthrychol, yna nad oes angen yr hawl i dynnu'n ôl, fodd bynnag, os yw AG yn enwadol ac yn seiliedig ar ffydd, yna mae'r angen i dynnu'n ôl yno.

Awgrymodd PW fod angen i ni sicrhau fod y ddarpariaeth fel y dylai fod ac yna nid oes reswm dros gael hawl i dynnu'n ôl.

Nododd GV fod angen gwahaniaethu rhwng AG y Maes Llafur Cytûn ac AG seiliedig ar ffydd ac roedd hi'n ategu'r pwynt a wnaed gan KR.

Awgrymwyd y dylem gymryd y safbwynt ein bod yn cymryd ac yn disgwyl fod AG yn cael ei dysgu'n briodol ac yn atgyfnerthu'r disgwyliad hwn.

Roedd ymateb RT yn nes at farn PYCAG nag un CCYSAGauC. Cred ef fod yn rhaid i ni sicrhau fod AG yn addas i bawb ac mae angen i ni gael hyder yn ein hathrawon y byddant yn dysgu'r pwnc mewn modd proffesiynol. Roedd ef hefyd yn credu bod angen i fyfyrwyr chweched dosbarth gael AG.

Ailadroddodd HS yr angen i herio Awdurdodau Lleol ar ddiffyg gwasanaethau cynghori proffesiynol i gefnogi AG.

Dywedodd RL mae'r hyn oedd yn ei boeni ef oedd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'n meddwl fod achos wedi bod lle cafwyd nad yw'r AG yn wrthrychol a lluoseddol ac felly os ceir gwared â'r hawl i dynnu'n ôl, gallai hyn arwain at gyfres o achosion yn mynd i'r llys.

Fel 'pôl gwelltyn' (nid pleidlais swyddogol ar ran CYSAGau), roedd pawb yn yr ystafell yn unfrydol o blaid cael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o AG.

Cafwyd cefnogaeth unfrydol hefyd dros wneud AG yn statudol i blant meithrin o 3 oed.

Ymateb cymysg a gafwyd i dynnu AG o'r chweched dosbarth.

Diolchodd CCYSAGauC i aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac i aelodau PYCAG am gyflwyno'u hymatebion.

**Gweithredu**: PW i anfon ymateb ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn cadarnhau'r ymateb a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ac yn ychwanegu sylwadau pellach ar farn y rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

## 7. Diweddariad ar Fframwaith Cefnogi AG

Adroddodd LJ fod LIC wedi rhoi cyllid llawn i grŵp i gynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn datblygu Fframwaith Cefnogi i eistedd ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys athrawon AG, athrawon o Ysgolion Arloesi, aelodau PYCAG, CCYSAGauC, REC, CBAC, ac Estyn. Maent yn cynrychioli pob ardal yng Nghymru a phob ystod oed ynghyd â chyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Gan nad ydym yn gwybod eto a fydd yr hawl i dynnu'n ôl o AG yn cael ei dynnu, mae angen i'r Fframwaith gael ei ysgrifennu fel bod AG yn cael ei nodi'n amlwg.

Gobeithir y bydd drafft yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2020. Mae angen iddo fod yn barod erbyn Gorffennaf er mwyn iddo gael ei gyfieithu a mynd i ymgynghoriad cychwynnol.

Adroddodd PW ar y meddylfryd y tu ôl i gynhyrchu'r Fframwaith AG a sut y gallai edrych fel ychwanegiad i'r datganiadau Beth sy'n Bwysig ar y cwricwlwm. Yna mae'n bosibl y gallai'r Fframwaith hwn gael ei fabwysiadu gan bob Awdurdod Lleol fel eu Maes Llafur Cytûn.

Awgrymodd RT y dylai'r Fframwaith AG gael ei ysgrifennu mewn modd sy'n hygyrch i'r rhai heb fod yn addysgwyr ac y dylai gael ei dderbyn a'i fabwysiadu gan Gynadleddau Maes Llafur Cytûn.

## 8. Cymorth AG Proffesiynol i GYSAGau

Adroddodd EE fod ymateb wedi'i dderbyn bellach gan Kirsty Williams i'r llythyr a anfonodd CCYSAGauC ati ynglŷn â Chymorth AG Proffesiynol ac adolygu Cylchlythyr 10/94.

Adroddodd LJ am y sefyllfa argyfyngus o ran diffyg cefnogaeth AG arbenigol i GYSAGau gan fod pum arbenigwr wedi'u tynnu o'u swyddi mewn cyfnod byr o amser. Nodwyd mai dim ond LJ a PW sydd ar ôl fel cynghorwyr arbenigol mewn AG.

Atgoffodd LJ yr aelodau fod PYCAG a CCYSAGauC wedi ysgrifennu at y Cyfarwyddwyr Addysg i ofyn am wybodaeth ar bwy sy'n darparu eu cymorth proffesiynol i GYSAGau.

Roedd yr atebion yn amrywiol fel yn ôl cofnodion y cyfarfod diwethaf. Roedd LJ a PW wedi cyfarfod â'r 22 Cyfarwyddwr Addysg ac wedi'u hatgoffa am eu dyletswyddau cyfreithiol o safbwynt AG a ChYSAGAu ac wedi tynnu eu sylw at y cymorth arbenigol amrywiol ar draws Cymru. Gwnaed y pwynt fod anghysondeb cymorth arbenigol yn annheg gan ei fod yn effeithio ar y disgyblion sydd ar ddiwedd y broses. Tynnwyd sylw at yr angen am gymorth dysgu proffesiynol ac mae hyn yn golygu fod angen cymorth AG arbenigol i ALlau a ChYSAGau.

Fe gyflwynon nhw hefyd swyddogaethau a chyfrifoldebau / enghraifft o swydd ddisgrifiad cynghorydd CYSAG er mwyn sicrhau fod y Cyfarwyddwyr yn sylweddoli hyd a lled y rôl gan dynnu sylw at y ffaith na all athro llawn amser, er enghraifft, fyth ysgwyddo'r gwaith ychwanegol hwn.

Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr holi a chanfod pwy sy'n rhoi cefnogaeth – ai'r Awdurdod Lleol neu'r Consortiwm. Mae angen iddynt ystyried cael cynghorwyr AG arbenigol i gefnogi eu CYSAGau. Roedd y 22 Gyfarwyddwr yn barod iawn i gymryd rhan yn y sgwrs gyda LJ a PW a / neu fynd â'r neges yn ôl i'w consortia.

Nododd RT fod yna arbenigwyr AG ar gael ond nad ydynt yn cael eu defnyddio gan eu Hawdurdodau Lleol i gefnogi AG a ChYSAGau e.e. Bethan James a Phil Lord yn GwE a Cary Thomas yn CSC ynghyd â Gill Vaisey sydd yn ymgynghorydd arbenigol.

**Gweithredu:** LJ a PW i barhau i siarad â'r Cyfarwyddwyr ac adrodd yn ôl i CCYSAGauC.

## 9. Dysgu Proffesiynol i AG

Bu PW a LJ mewn cyfarfod gyda Kevin Palmer i drafod y cymorth dysgu proffesiynol sydd ei angen yng ngoleuni AG a'r cwricwlwm newydd. Maent wedi cael eu gwahodd i gynhyrchu dogfen fydd yn amlinellu'r meysydd hyfforddiant fydd eu hangen i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd PYCAG yn ystyried hwn ac yn cyflwyno papur i KP.

## 10. Diweddariadau:

1. Adroddodd LJ fod presenoldeb da yn PYCAG y diwrnod cynt gyda thri ar ddeg o aelodau. Amlinellodd yr eitemau ar yr agenda.

2. REC – Adroddodd RL fod y Cyngor wedi ymateb i'r Papur Gwyn. Dywedodd fod diddordeb parhaus gan y Llywodraeth a San Steffan yn Adroddiad y Comisiwn ar Addysg Grefyddol ond nad oes dim yn digwydd ar hyn o bryd.

Bydd etholiadau i aelodau'r bwrdd ymuno â'r REC yn digwydd ar 16 Mai. Mae dwy sedd ar gael. Mae enwebiadau'n gymwys gan gynrychiolwyr awdurdodedig ac mae angen eu derbyn fis ymlaen llaw. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd o 1 Medi, 2019.

Tania, Paula a Gill yw cynrychiolwyr enwebedig CCYSAGauC ar y REC.

3. Cynhadledd EFTRE Dulyn

Adroddodd GV y bydd Cynhadledd y Fforwm Ewropeaidd i Athrawon AG yn cael ei chynnal yn Nulyn ar 28 – 31 Awst, 2019 ac mae croeso i unrhyw un fynychu. Bydd GV yn mynd yno ar ran CCYSAGauC fel eu cynrychiolydd. Mae cynhadledd estyniad yn Belfast o 31 Awst – 2 Medi. Anfonwyd manylion at bob Clerc CYSAG.

4. MAGC

Mae Paul Morgan bellach yn mynychu CCYSAGauC yn lle Tudor Thomas. Mae dyfodol MAGC yn ansicr o ganlyniad i ddiffyg aelodau a hefyd cyllid. Cynhelir trafodaeth ym mis Ebrill a fydd yn edrych ar tybed a oes cyfle i ailadeiladu a chreu mudiad i'r rheiny sydd â diddordeb mewn AG ond nad ydynt yn gymwys i fynychu cyfarfodydd megis CCYSAGauC.

5. AREIAC 1 a 2 Gorffennaf

Adroddodd GV fod y Gymdeithas Cynghorwyr, Arolygwyr, ac Ymgynghorwyr AG yn cynnal ei chynhadledd haf yn y Village Hotel, Hyde, ger Manceinion ar 1 a 2 Gorffennaf. Teitl a thema'r gynhadledd yw *RE Leadership in a New World*. Gwahoddir pawb sydd â diddordeb mewn AG a dylent gysylltu â Gill Vaisey sydd yn trefnu'r gynhadledd.

**Gweithredu:** Anfonir y manylion i Glercod CYSAG.

**11. Gwefan CCYSAGauC**

Soniodd EE am y problemau sydd gan y wefan ar hyn o bryd a siaradodd am y posibilrwydd o gael gwefan newydd wedi'i chreu.

Gofynnodd EE i'r aelodau feddwl am yr hyn sydd ei angen ar wefan CCYSAGauC.

Adroddodd fod y Pwyllgor Gwaith wedi derbyn sawl pris am "becyn" ar gyfer adeiladu a chynnal gwefan newydd. Roedd y Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i argymell i'r cyfarfod llawn eu bod yn derbyn pris o £1100 am "adeiladu a chontract tair blynedd". Amlinellodd yr hyn oedd yn gynwysedig yn y cynnig hwn.

Yn ei rôl fel swyddog y wefan ar ran y Pwyllgor Gwaith, mae KR wedi ymchwilio i'r gwahanol bosibiliadau ac mae'r uchod yn fanteisiol o ran costau.

**Gweithredu:** Cytunodd yr aelodau i gefnogi creu gwefan newydd.

**12. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 6 Chwefror 2019**

Rhoddodd EE adroddiad llafar o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith, roedd y rhan fwyaf o'r pwyntiau eisoes wedi cael eu trafod yn y cyfarfod hwn.

**13. Y CYSAG effeithiol**

Cyfeiriodd PW at gyflwyniad o'r gorffennol oedd wedi'i seilio ar wneud CYSAG effeithiol ac awgrymodd y dylem ddychwelyd at hwn eto. Mae CYSAG Caerffili yn bwriadu cyfethol dau aelod ieuenctid er mwyn clywed llais y disgyblion. Dyma un enghraifft o arfer da y gellid ei rannu.

**Gweithredu:** Rhoi hwn ar agenda cyfarfod yn y dyfodol - hydref 2019.

**14. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Llanilltud Fawr ar 20 Tachwedd 2018**

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar y canlynol:
Ychwanegu Huw Stevens at y rhai oedd yn bresennol. Cywiro sillafu - Helen Bebb
Tudalen 16 cywiro sillafu - Alwen Roberts, Ceredigion.

**15. Materion yn codi**

Dim

**16. Gohebiaeth**

Etholiadau REC
Taflen cynhadledd EFTRE
Rhwydwaith Rhyng-ffydd yn sôn am ymosodiad Seland Newydd
CYSAG Bro Morgannwg yn gofyn a allai dau athro rannu sedd ar y pwyllgor gwaith a mynychu cyfarfodydd yn eu tro. Yn dilyn trafodaeth, nodwyd nad oes dim yng Nghyfansoddiad CCYSAGauC a fyddai'n atal trefniant o'r fath ac felly cytunwyd i dderbyn y cynnig hwn.

**17. Dangos a dweud**

Nis trafodwyd.

**18. Unrhyw fater arall**

Dywedodd EE wrth yr aelodau am achos a ddigwyddodd cyn dechrau'r cyfarfod. Roedd aelod o'r cyhoedd (a oedd wedi bod ar bwyllgor CYSAG o'r blaen ond ddim mwyach yn aelod o'r pwyllgor hwnnw) wedi cyrraedd Neuadd y Sir yn disgwyl dod i gyfarfod CCYSAGAuC. Dywedodd fod dau o'i chydweithwyr yn y Cyngor Sir oedd yn eistedd ar GYSAG Sir Fynwy wedi gofyn iddi eu cynrychioli nhw gan na allent fod yn bresennol. Dywedwyd wrthi nad yw cyfarfodydd CCYSAGauC yn agored i'r cyhoedd ac felly nid oedd hawl ganddi i fod yn bresennol. Dywedodd yr unigolyn dan sylw y byddai'n gwneud cwyn yn erbyn EE a PW, y ddau oedd wedi esbonio nad oedd ganddi hawl i fynychu cyfarfod CCYSAGauC.

Dywedodd EE wrth yr aelodau ei bod yn amhriodol i aelodau CYSAG weithredu fel unigolion ac yn yr achos hwn, roedd gofyn i rywun nad yw'n aelod o'u CYSAG gymryd eu lle, yn anghywir. Atgoffodd EE yr aelodau, pan maent yn mynychu CCYSAGauC, eu bod yn gwneud hynny fel cynrychiolwyr eu CYSAG nhw ac nid fel unigolion.

Mynegodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu cefnogaeth lawn i'r cyngor a roddwyd i'r unigolyn dan sylw gan EE a PW. Roedden nhw hefyd yn cytuno'n llwyr fod aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn cynrychioli eu CYSAG ac nid nhw'u hunain.

**19. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Haf 2019** – Conwy 28 Mehefin 2019

Diolchodd EE i bawb oedd wedi cymryd rhan yn y cyfarfod gyda diolch arbennig i:

Arglwydd Faer Caerdydd; Cyng Sarah Merry, Cadeirydd CYSAG Caerdydd; Louise Broom, Clerc, CYSAG Caerdydd; Maggie Turford, Cymorth Proffesiynol i GYSAG Caerdydd: Nicky Hagendyk, Cyflwynydd, Arweinydd Rhanbarthol EAS dros Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau; Alaw Hughes, Cyfieithydd; aelodau CYSAG Caerdydd a'r Cynghorwyr Sir.

Tud. 181

*Ymateb i Adolygiad Thematig Estyn o Addysg Grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3*

*Libby Jones,* Cadeirydd y Panel Ymgynghori Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol (NAPfRE)

Ar ran NAPfRE hoffwn ddiolch i Estyn am yr adroddiad hwn, am ymateb i'r cais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn yn 2017-2018, ac am yr argymhellion mae'n ei gynnig i ysgolion, CYSAGau a Llywodraeth Cymru, o fewn yr adroddiad.

Cytunodd Aelodau mai ychydig o'r argymhellion o fewn yr adroddiad sydd wedi peri syndod. Roedd Aelodau'n eu hystyried yn deg ac maent yn cefnogi'r achos dros well cyfleoedd dysgu proffesiynol i Addysg Grefyddol, mwy o gefnogaeth i Addysg Grefyddol mewn ysgolion gan CYSAGau, a sefyllfa gryfach i Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd.

Roedd Aelodau'n teimlo bod yr adroddiad yn dangos delwedd gweddol bositif o Addysg Grefyddol yn y 47 ysgol lle casglwyd y dystiolaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, holodd rhai aelodau a yw'r ddelwedd 'bositif' hon yn adlewyrchu'r gwir ddarlun ar draws pob ysgol yng Nghymru. Mae tystiolaeth anecdotaidd a rannwyd gan CYSAGau a gweithwyr proffesiynol Addysg Grefyddol mewn cyfarfodydd NAPfRE yn awgrymu'n groes i hynny.

Roedd Aelodau yn falch o sylwi bod holl ofynion y sylabws a gytunwyd arno'n lleol yn cael eu cynnwys mewn ysgolion lle mae cynllunio cwricwlwm yn dda, a bod hyn yn wir mewn sawl ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn y rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae hyn yn awgrymu diffyg yn yr ysgolion nad ydynt yn cynllunio yn dda ar gyfer Addysg Grefyddol allan o'r 47 ysgol lle casglwyd tystiolaeth. Cwestiynodd Aelodau beth yw goblygiadau hyn ar gyfer Addysg Grefyddol yn ehangach ar draws Cymru.

Roedd Aelodau'n falch o nodi bod safonau Addysg Grefyddol yn y 47 ysgol yn gyffredinol dda a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda gydag amrywiaeth eang o gwestiynau dynol a chrefyddol. Teimlwyd bod diffyg her ar gyfer disgyblion mwy abl yng Nghyfnod Allweddol 2 a bod cynllunio ar gyfer symud rhwng CA2 a CA3 mewn Addysg Grefyddol yn broblemau sy'n gyffredin i bynciau ar draws y cwricwlwm

Roedd Aelodau'n falch o ddysgu bod arweinyddiaeth addysg grefyddol yn gyffredinol dda, ac yn y rhan fwyaf o'r 47 ysgol, bod aelodau wedi ystyried newidiadau i ddysgu addysg grefyddol o ganlyniad i'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag roedd aelodau yn bryderus iawn bod newidiadau yn cael eu gwneud i ddysgu Addysg Grefyddol eisoes mewn rhai ysgolion ar draws Cymru, o dan arweiniad Penaethiaid ac / neu arweinwyr Y Dyniaethau nad oes ganddynt arbenigedd mewn Addysg Grefyddol, ac sydd yn amlwg wedi camddehongli'r cynigion. Mae llawer o athrawon wedi rhannu eu pryderon gydag aelodau NAPfRE am ddyfodol Addysg

Grefyddol o fewn y cwricwlwm newydd yn eu hysgol, o ganlyniad i'r newidiadau cyn pryd yma sydd wedi eu camfarnu.

O safbwynt yr argymhellion a gynigir yn yr adroddiad, roedd aelodau yn teimlo bod rhai ohonynt yn golygu goblygiadau ariannol i ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Er enghraifft, ar gyfer dysgu proffesiynol mewn Addysg Grefyddol a mentrau PREVENT ac ati. Roedd yr argymhelliad ynglŷn a 'lleoedd addoli a gymeradwywyd' hefyd yn destun pryder i aelodau. Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau â rhestr o leoedd addoli lleol, ond byddai eu 'cymeradwyo' yn amhosib. Pwy fyddai'n cymeradwyo? Yn seiliedig ar ba feini prawf? Pa mor aml? Onid rôl yr ysgol unigol yw ceisio asesiad risg ac ati. Mae aelodau'n teimlo fod angen egluro'r frawddeg hon.

Mae aelodau'n falch bod yr adroddiad yn cynnig enghreifftiau o arfer da, ond mae rhai aelodau'n cwestiynu ansawdd yr arfer orau sydd wedi ei rannu, ac roedd aelodau'n rhybuddio'n erbyn cynnwys mwy o enghreifftiau'n ymwneud â dinasyddiaeth. Cytunodd aelodau bod yr adroddiad wedi ei ddarparu â'r cwricwlwm newydd mewn golwg ac efallai nad oedd yn adlewyrchu'n llwyr yr arferion gwych sy'n digwydd o fewn Addysg Grefyddol, yn benodol o fewn Cymru.

Sylwodd Aelodau bod nifer o gyfeiriadau'n cael eu gwneud yn yr adroddiad at addoli ar y cyd a chwestiynwyd pam fod y rhain wedi eu cynnwys. Mae addysg grefyddol ar wahân ac yn wahanol i addoli ar y cyd a byddai aelodau'n rhybuddio'n erbyn cyfeirio at y ddwy agwedd gyda'i gilydd er mwyn osgoi dryswch.

Yn olaf, nododd aelodau bod o leiaf un ysgol fu'n rhan o'r broses heb eu cydnabod yn yr adroddiad terfynol, a chododd y mater y gallai hynny fod wedi digwydd i eraill hefyd. Roedd Aelodau'n teimlo y dylai pob ysgol gael cydnabyddiaeth llawn ar ôl cymryd rhan os ydynt wedi cyfrannu, ym mha bynnag gapasiti, ac ar ba bynnag gam o'r broses.

Libby Jones
Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol.
Cynghorydd Addysg Grefyddol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ionawr 2019

Annwyl Aelodau CYSAG

Yn dilyn ein Gweithdai ym mis Medi, hoffem ddiolch i bob un ohonoch am yr adborth defnyddiol iawn ar y cynigion ar gyfer Addysg Grefyddol ym Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau.

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i lunio'r Fframwaith Ategol newydd ar gyfer Addysg Grefyddol gyda'r bwriad o'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Gan adeiladu ar lwyddiant y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol presennol ar gyfer Addysg Grefyddol, bydd y fframwaith newydd yn rhoi rhagor o fanylion am y ffordd y gellid cyflawni'r datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a geir yn MDPh y Dyniaethau mewn perthynas ag Addysg Grefyddol. Caiff y canllawiau newydd hyn eu datblygu'n genedlaethol gyda'r bwriad o'u mabwysiadu neu eu datblygu ymhellach er mwyn ffurfio maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol y cytunwyd arno'n lleol.

Diben y canllawiau fframwaith newydd hyn (yn yr un modd â'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol) fydd cefnogi awdurdodau lleol a chynadleddau meysydd llafur cytûn wrth iddynt adolygu eu meysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol. Yna, caiff y fframwaith newydd hwn ei gyflwyno i gael ei ystyried gan y cynadleddau meysydd llafur cytûn er mwyn iddynt wneud eu hargymhellion i'w corff dyfarnu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau gwasanaeth Libby Jones a Paula Webber i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith ategol newydd hwn. Sefydlwyd y gweithgor o gyfranogwyr i gefnogi'r gwaith hwn o blith y canlynol:

- Athrawon Addysg Grefyddol sy'n ymarfer
- Ysgolion Arloesi
- Cyrff Addysg Grefyddol yng Nghymru a chyrff perthnasol eraill (o Gymru a Lloegr)
- Arbenigwyr, academyddion a gweithwyr proffesiynol Addysg Grefyddol cysylltiedig, y mae pob un ohonynt yn cynnig amrywiaeth o arbenigedd i'r gwaith o gomisiynu'r fframwaith ategol newydd newydd. Mae hyn hefyd yn cynnwys ymarferwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ac o bob cwr o bedwar rhanbarth y Consortia.

Caiff y gwaith drafft ar gyfer grŵp y Dyniaethau ei chyhoeddi ar 30 Ebrill er mwyn cyd-lunio'n barhaus a rhoi sylwadau a gaiff eu rhannu â'r grŵp cyn i'r fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru 2022 wedi'i ddylunio gan athrawon i athrawon ac wedi'i lywio gan arbenigwyr o Gymru ac o bob cwr o'r byd. Y cyfnod o 30 Ebrill yw'r cyfle i bob ysgol a phob athro brofi, mireinio a chyfrannu at gam nesaf datblygiad y cwricwlwm.

Bydd cyfnod helaeth o ymgysylltu â'r proffesiwn a'r gymdeithas ddinesig ehangach rhwng 30 Ebrill ac 19 Gorffennaf er mwyn mireinio'r drafft a'i baratoi i'w gyflwyno'n genedlaethol o fis Medi 2022.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:**

Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru

Blog Cwricwlwm i Gymru

**a/neu dilynwch**

Wgmin_Education

LlC_Addysg

Facebook Addysg Cymru

Sianel YouTube Addysg Cymru

Cofion cynnes

Pauline

**Pauline Smith**
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant / Arts, Humanities and Well-being Branch
Y Gyfarwyddiaeth Addysg / The Education Directorate
Llywodraeth Cymru / Welsh Government